Ministry of Justice

# Adolygiad o’r Bôn i’r Brig o’r System Parôl:

## Dyfodol y System Parôl yng Nghymru a Lloegr

Mawrth 2022

CP 654

Ministry of Justice

# Adolygiad o'r Bôn i'r Brig o'r System Parôl:

## Dyfodol y System Parôl yng Nghymru a Lloegr

Cyflwynwyd i Senedd y DU
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2022

CP 654

**© Hawlfraint y Goron 2022**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni
yn paroleboardreview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-3273-7

E02734935 03/22

Argraffwyd ar bapur sy’n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi’u hailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Cyflwyniad** | **6** |
| Adolygiadau a diwygiadau blaenorol | 7 |
| Y meysydd mae'r adolygiad o'r bôn i'r brig wedi'u harchwilio | 8 |
| **Crynodeb gweithredol** | **11** |
| Rhan 1: Proses Gwneud Penderfyniadau a Chyfansoddiad y Bwrdd Parôl | 12 |
| Rhan 2: Dioddefwyr a Thryloywder | 17 |
| Rhan 3: Gwerthuso'r System Parôl | 19 |
| **RHAN 1: Proses gwneud penderfyniadau a chyfansoddiad y Bwrdd Parôl** | **21** |
| **Pennod 1: Proses ryddhau a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl** | **22** |
| Cyflwyniad | 22 |
| Proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl | 23 |
| Prawf Rhyddhau Statudol | 24 |
| 'Yr haen uchaf' o'r troseddwyr risg uchaf | 26 |
| Rôl Weinidogol yn y broses gwneud penderfyniadau: Y Bwrdd Parôl yn cyfeirio penderfyniadau at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Pŵer i Wrthod | 26 |
| Cynrychiolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gwrandawiadau parôl | 29 |
| Galw'n ôl | 30 |
| Amodau agored | 32 |
| **Pennod 2: Cyfansoddiad y Bwrdd Parôl** | **34** |
| Cyflwyniad | 34 |
| Cadw'r cyfansoddiad fel y mae | 34 |
| Aelodaeth y Bwrdd Parôl | 35 |
| **RHAN 2: Dioddefwyr a thryloywder** | **38** |
| **Pennod 3: Gwrandawiadau cyhoeddus a phresenoldeb dioddefwyr** | **39** |
| Cyflwyniad | 39 |
| Gwrandawiadau cyhoeddus | 40 |
| Presenoldeb dioddefwyr mewn gwrandawiadau (sylwedyddion) | 43 |
| Cyfranogiad pellach dioddefwyr mewn gwrandawiadau parôl | 45 |

Crynodebau o benderfyniadau 46
Gwell gwybodaeth a chyfathrebu 47
Addysgu’r cyhoedd a dealltwriaeth y cyhoedd 47

**RHAN 3: Gwerthuso’r system parôl 49**

**Pennod 4: Profiad dioddefwyr o’r system parôl 50**
Cyflwyniad 50
Profiad dioddefwyr o’r system 50

**Pennod 5: Profiad dioddefwyr o’r System Parôl 53**
Cyflwyniad 53
Profiad carcharorion o’r system 53

**Pennod 6: Gwerthuso’r newidiadau hyd yma 57**
Cynnydd yn erbyn argymhellion a newidiadau blaenorol i’r system parôl 57
Cyflwyniad 58
System ailystyried 58
Tystiolaeth o droseddu ehangach, heb ei euogfarnu 61
Ymgysylltiad y system parôl â thrydydd partïon a chydymffurfedd â chyfarwyddiadau 62
Ffioedd a deiliadaeth aelodau o’r Bwrdd Parôl 63
Achosion y Ddeddf Terfysgaeth (TACT) 65

**Pennod 7: Perfformiad y system parôl 67**
Cyflwyniad 67
Effeithlonrwydd a phrydlondeb y System Parôl 68
Symud tuag at system parôl fwy ystwyth 70
Goruchwylio’r system parôl 71
Y berthynas â’r Weinyddiaeth Gyfiawnder 72
Strategaeth Amrywiaeth 73
Hyfforddiant i aelodau a sicrhau ansawdd 74

**Atodiad A: Cylch gorchwyl 76**

**Atodiad B: Mathau o ddedfryd 78**

# Rhagair



A minnau'n Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, rwyf wedi ymrwymo i ddiogelu'r cyhoedd a gwella profiad dioddefwyr o'r System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r system parôl yn chwarae rôl hollbwysig yn sicrhau bod y ddau nod yn cael eu cyflawni – mae'n atal troseddwyr sy'n dal yn peri risg rhag gadael y carchar ac yn helpu dioddefwyr i deimlo bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, yn ogystal â llais yn y broses.

Felly, mae'n hollbwysig ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd bod ein proses parôl yn gweithio'n effeithiol.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o benderfyniadau i ryddhau troseddwyr sy'n euog o droseddau erchyll wedi andwyo hyder y cyhoedd yn y system parôl.

Mae pobl wedi cwestiynu pa mor ddiogel mewn gwirionedd yw rhyddhau rhai troseddwyr a pham roedd y rhai sydd wedi cael eu galw'n ôl i'r carchar wedi cael gadael yn y lle cyntaf.

Rwy'n rhannu'r pryderon hyn a dyna pam fy mod yn benderfynol o newid ffocws y system i sicrhau mai diogelu'r cyhoedd yw blaenoriaeth pob penderfyniad parôl.

Mae'r prawf rhyddhau statudol yn datgan: *"Ni chaiff y Bwrdd Parôl roi cyfarwyddyd [i ryddhau] ... oni bai fod y Bwrdd yn fodlon nad oes angen mwyach, er mwyn diogelu'r cyhoedd, i'r carcharor aros yn y ddalfa".*

Fodd bynnag, yn absenoldeb canllawiau pellach gan Senedd y DU, mae'r ffordd y mae'r prawf rhyddhau yn cael ei ddehongli a'i weithredu ar hyn o bryd wedi symud oddi wrth fwriad gwreiddiol y Senedd. Nododd dyfarniad llys yn achos *Bradley* yn 1991 mai rôl y Bwrdd yw "cynnal ymarfer cydbwyso rhwng buddiannau cyfreithlon y carcharor a'r cyhoedd, sy'n gwrthdaro". Felly mae'r prawf statudol wedi newid dros amser i fod yn 'ymarfer cydbwyso' rhwng hawliau'r carcharor sydd dan ystyriaeth i'w ryddhau a chyfrifoldeb y wladwriaeth i ddiogelu'r cyhoedd. Nid dyna oedd bwriad gwreiddiol y Senedd.

Hoffwn ei gwneud yn gwbl glir y dylai carcharorion sy'n cael eu hasesu gan y Bwrdd Parôl gael eu cadw yn y carchar (neu beidio â chael trosglwyddo i amodau carchar agored) oni bai y gellir dangos nad yw'r troseddwr yn peri risg o droseddu difrifol pellach erbyn hyn.

Hoffwn weld y broses parôl yn mabwysiadu dull mwy rhagofalus ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

Yn benodol, mewn achosion sy'n cynnwys y rhai sy'n euog o'r troseddau mwyaf difrifol, mae'n briodol i Weinidogion allu darparu rhywfaint o oruchwyliaeth ac ymyrryd yn fwy uniongyrchol mewn penderfyniadau ynghylch rhyddhau.
Mae dioddefwyr sy'n dymuno herio penderfyniad i ryddhau carcharor yn gallu gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wneud cais i ailystyried y penderfyniad. Cafwyd 39 o ymyriadau ers sefydlu'r system herio ddwy flynedd yn ôl, ond dim ond pedwar arweiniodd at newid y penderfyniad ynghylch rhyddhau.

Bydd darparu ar gyfer goruchwyliaeth Weinidogol ar droseddwyr sy'n euog o'r troseddau mwyaf difrifol ac yn cynrychioli'r risg uchaf i'r cyhoedd yn helpu i sicrhau bod gan y System Parôl y mesurau diogelwch ar waith i ddiogelu pobl, ac i fagu rhagor o hyder ymysg y cyhoedd.

Bydd y diwygiadau arfaethedig, allweddol a amlinellir yn yr adolygiad hwn yn cyflawni hyn ac yn sicrhau mai diogelu'r cyhoedd yw'r brif ystyriaeth mewn penderfyniadau ynghylch rhyddhau.

Yn gyntaf, bydd y prawf rhyddhau a ddefnyddir gan y Bwrdd yn cael ei ddiwygio i fod yn fwy rhagnodol, gan ei gwneud yn ddiamheuaeth beth yw bwriad y Senedd ar gyfer y prawf a'r meini prawf y mae'n rhaid eu defnyddio.

Yn ail, byddwn yn sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd Parôl yn cynnwys rhagor o bobl â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith – y llynedd, dim ond 5% o'r holl aelodau oedd yn dod o'r proffesiwn. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod ffocws uwch ar risg a diogelu'r cyhoedd o ganlyniad i'w profiad uniongyrchol o ddelio â throseddwyr difrifol, a'r risg maen nhw'n ei pheri.

Yn drydydd, ar gyfer y garfan 'haen uchaf' o droseddwyr sy'n euog o'r troseddau mwyaf difrifol, byddwn yn ychwanegu mesur i ddarparu goruchwyliaeth Weinidogol ar benderfyniadau parôl i ryddhau'r troseddwyr hyn yn ôl i'r gymuned cyn diwedd eu dedfryd. Bydd yr haen uchaf honno yn cynnwys troseddwyr sy'n bwrw dedfryd am lofruddio, treisio, terfysgaeth, ac achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn ac sy'n gymwys ar gyfer parôl.

Bydd y Bwrdd Parôl yn gallu cyfeirio achos 'haen uchaf' arbennig o heriol at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder os nad yw'n gallu dod i gasgliad hyderus – ar sail y dystiolaeth sydd ar gael – a yw'r prawf rhyddhau wedi'i basio ai peidio.

Yn ogystal â hynny, bydd pŵer adolygu newydd i alluogi goruchwyliaeth Weinidogol o'r penderfyniad i ryddhau unrhyw droseddwr yn y garfan 'haen uchaf'.  Byddwn yn ystyried manylion y system weithdrefnol ac yn amlinellu dau opsiwn yn yr adolygiad hwn.

Yn bedwerydd, bydd cyfranogiad dioddefwyr mewn gwrandawiadau parôl yn cael ei gynyddu, gan gyflawni ein hymrwymiad maniffesto i wneud hynny. O dan ein diwygiadau arfaethedig, bydd dioddefwyr yn gallu mynychu gwrandawiad parôl yn llawn am y tro cyntaf erioed, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal â hynny, byddwn yn mynnu bod y Bwrdd yn ystyried sylwadau dioddefwyr yn caniatáu iddynt ofyn cwestiynau fel rhan o'r sylwadau hynny.

Yn gyffredinol, mae'r adolygiad yn dangos bod angen diwygio'r system parôl ymhellach ac yn awgrymu gwelliannau i sicrhau ei bod yn gweithio mor effeithiol â phosibl.

Diogelu'r cyhoedd yw prif flaenoriaeth y llywodraeth a bydd y cynigion yn yr adolygiad hwn yn atgyfnerthu diogelwch y cyhoedd ac yn cynyddu'r hyder yn ein system gyfiawnder.



**Y Gwir Anrhydeddus Dominic Raab AS**

Y Dirprwy Brif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Cyflwyniad

1. Mae’r adroddiad hwn yn cyflawni ymrwymiad maniffesto 2019 y llywodraeth i gynnal adolygiad o’r bôn i’r brig o’r System Parôl yng Nghymru a Lloegr. Mae’n rhan hollbwysig o’r system cyfiawnder troseddol ac yn gyfrifol am asesu risg rhai carcharorion cyn eu rhyddhau. Diogelu’r cyhoedd yw swyddogaeth sylfaenol a phwysicaf y system parôl felly mae’n bwysig sicrhau ei bod yn gweithredu er budd y cyhoedd a diogelu’r cyhoedd – ac, yn hollbwysig, bod gan bawb hyder yn y system. Mae’r llywodraeth yn credu bod yn rhaid i’r system fabwysiadu dull rhagofalus o ryddhau troseddwyr i sicrhau nad yw’r Bwrdd Parôl yn rhyddhau’n uniongyrchol oni bai fod tystiolaeth bod y troseddwr yn peri risg isel i’r cyhoedd.

2. Cynhaliodd y llywodraeth adolygiad o’r bôn i’r brig i archwilio a yw pob agwedd ar y system parôl yn gweithio yn y ffordd orau bosibl i gyflawni’r swyddogaeth honno, i bwyso a mesur sut mae’r system yn perfformio ar hyn o bryd yng ngoleuni adolygiadau a newidiadau’r blynyddoedd diwethaf, ac i nodi diwygiadau ychwanegol a fydd yn sicrhau bod gennym system sy’n gwbl addas i’r diben ac sydd â diogelwch dioddefwyr a’r cyhoedd wrth ei gwraidd.

### Bwrdd Parôl

3. Erbyn hyn mae’r Bwrdd Parôl yn gyfrifol am y rhan fwyaf o’r system parôl ac am wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau carcharorion sy’n gymwys ar gyfer parôl. Cafodd ei sefydlu’n wreiddiol yn 1968 fel corff cynghori bach a oedd yn gwneud nifer cymharol isel o argymhellion ynghylch rhyddhau carcharorion i’r Ysgrifennydd Cartref bryd hynny. Ers hynny mae’r Bwrdd Parôl wedi trawsnewid yn gorff sy’n gwneud penderfyniadau lled-farnwrol, annibynnol ynghylch rhyddhau categorïau penodol o garcharorion, a hynny mewn miloedd o achosion bob blwyddyn.

4. Mae’r broses parôl wedi’i hanelu at y troseddwyr hynny y mae’r llysoedd wedi’u cael yn euog o’r troseddau mwyaf difrifol ac sy’n cael un o’r mathau o ddedfrydau lle mae’n rhaid i’r Bwrdd Parôl ddefnyddio ei ddisgresiwn i’w rhyddhau – dedfrydau oes ac amhenodol eraill ar y cyfan, yn ogystal â dedfrydau estynedig i ddiogelu’r cyhoedd. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y troseddwyr sy’n mynd i’r carchar yn cael dedfryd benodol, safonol, sy’n golygu eu bod yn cael eu rhyddhau yn awtomatig ar bwynt penodol yn eu dedfryd ac nid oes rôl i’r Bwrdd Parôl pan gânt eu rhyddhau i ddechrau, ond mae’r Bwrdd yn cyfrannu at y broses o’u hailryddhau os cânt eu galw’n ôl i’r ddalfa. Mae hyd penodol i ddedfrydau carchar penodol, ond nid oes gan ddedfrydau carchar ‘amhenodol’ hyd penodol. O ran dedfrydau amhenodol, ni osodir dyddiad rhyddhau i droseddwyr ac mae’n rhaid iddynt dreulio cyfnod sylfaenol yn y carchar (o’r enw ‘tariff’) cyn y bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried eu rhyddhau. Mae Atodiad B yn amlinellu’r fframwaith dedfrydau yn fanylach.

5. O ran y rhai sy'n gorfod cael asesiad gan y Bwrdd Parôl cyn eu rhyddhau, mae'n broses gymhleth a soffistigedig sy'n para nifer o fisoedd yn aml. Mae'n ystyried ystod eang o adroddiadau, asesiadau a thystiolaeth arall – gan gynnwys gan weithwyr proffesiynol mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf, yr heddlu a seicolegwyr a seiciatryddion lle bo angen – i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am risg y carcharor i'r cyhoedd yn y dyfodol yn cael ei hystyried. Mae gan ddioddefwyr yr hawl i wneud Datganiad Personol y Dioddefwr ynghylch yr effaith mae'r troseddau wedi ac yn dal i'w chael arnynt, ac i fynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â'r risgiau yn y dyfodol pe bai'r carcharor yn cael ei ryddhau. Hefyd caiff ddioddefwyr ofyn am osod amodau trwydded penodol ar droseddwyr os ydynt yn cael eu rhyddhau, fel gofynion dim cyswllt a pharthau gwaharddedig i ddarparu diogelwch a sicrwydd rhag cyswllt nad oes ei eisiau.

6. Mae'r Bwrdd Parôl yn darparu adolygiad annibynnol a diduedd o'r holl dystiolaeth, ac yn ei ddefnyddio i benderfynu a yw'n ddiogel rhyddhau'r carcharor ai peidio. Mae'n rhoi cyfarwyddiadau o ran sut dylid delio â'r achos, gan ofyn am dystiolaeth ac adroddiadau ychwanegol os oes angen hynny i wneud asesiad risg priodol, a chyfarwyddo gwrandawiad llafar mewn achosion lle mae'r Bwrdd yn ystyried bod angen i'r carcharor a thystion eraill ymddangos yn bersonol i drafod ei dystiolaeth. Y prif amcan yw sicrhau bod carcharorion sydd wedi cyrraedd y pwynt yn eu dedfryd pan fyddant yn gymwys i gael eu rhyddhau dim ond yn cael eu rhyddhau pan fo'n ddiogel gwneud hynny, a bod y rhai sy'n dal yn peri risg i'r cyhoedd yn cael eu cadw'n gaeth.

## Adolygiadau a diwygiadau blaenorol

7. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yng nghyd-destun nifer o adolygiadau diweddar ers 2018 sydd wedi edrych yn fanwl ar faterion fel sut mae penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn cael eu gwneud, gwella'r cyswllt â dioddefwyr a'u profiad o'r system parôl, adolygiad o holl Reolau'r Bwrdd Parôl sy'n rheoli'r gweithdrefnau parôl, a gweithrediad a pherfformiad y Bwrdd Parôl ei hun. Sef:
   - Adolygiad o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl (2018)
   - Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl a'r system ailystyried (2019)
   - Adolygiad Pwrpasol o'r Bwrdd Parôl (2020)

8. Mae'r adolygiadau blaenorol hyn wedi arwain at ddiwygiadau fel cyflwyno crynodebau o benderfyniadau'r Bwrdd Parôl, sy'n cael eu darparu fel mater o drefn erbyn hyn, yn bennaf i ddioddefwyr, i esbonio'r rhesymau dros ei benderfyniadau; a chyflwyno'r system ailystyried yn 2019.

9. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol yn bodloni gofyniad sefydlog i adrannau o'r llywodraeth adolygu eu cyrff hyd braich unwaith bob Senedd. Roedd wedi archwilio a oedd y Bwrdd yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, a sut gellid gwella ei berfformiad a'i weithrediad o'r broses parôl.

10. Arweiniodd at nifer o argymhellion, gan gynnwys sefydlu 'Grŵp Goruchwylio'r System Parôl' lefel uwch newydd, a fyddai'n ysgwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd am y system parôl drwyddi draw, a sefydlu proses craffu gan drydydd parti annibynnol o'r broses parôl i ddarparu archwiliadau a sicrwydd ychwanegol bod y system yn gweithredu'n effeithiol.

11. Mae'r adolygiad o'r bôn i'r brig wedi ystyried y diwygiadau a gafodd eu hargymell gan yr Adolygiad Pwrpasol a sut gallai'r newidiadau hynny fynd ati orau i gefnogi'r system parôl yn y dyfodol sy'n cael ei rhag-weld yn yr adroddiad hwn, a chael eu hintegreiddio ynddi.

## Y meysydd mae'r adolygiad o'r bôn i'r brig wedi'u harchwilio

12. Y casgliad eang yw bod y system parôl yn gweithio'n effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion a bod y diwygiadau yr ydym wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at welliannau, yn enwedig o ran rhagor o dryloywder. Serch hynny, mae'n glir bod angen gwella ymhellach. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r broses parôl wedi newid o'i bwrpas gwreiddiol o ddiogelu'r cyhoedd, ac i bob golwg mae'r broses rhyddhau gyfredol yn defnyddio rhagdybiaeth o roi cyfarwyddyd i ryddhau oni bai y dangosir bod risg i'r cyhoedd. Nid yw'r prawf rhyddhau statudol a ddefnyddir gan y Bwrdd Parôl wedi newid ers 1991 ac mae'n nodi:

13. "Ni chaiff y Bwrdd Parôl roi cyfarwyddyd [i ryddhau] ... oni bai fod y Bwrdd yn fodlon nad oes angen mwyach, er mwyn diogelu'r cyhoedd, i'r carcharor aros yn y ddalfa"

14. Dros y blynyddoedd ac yn absenoldeb ymyriad seneddol, nid yw'r prawf hwn yn cael ei ddefnyddio fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Yn lle bod y Bwrdd yn ystyried ei asesiad risg yn brawf diogelu'r cyhoedd y mae'n rhaid ei basio er mwyn rhoi cyfarwyddyd i ryddhau, mae'r llysoedd wedi dehongli tasg y Bwrdd fel 'ymarfer cydbwyso', gan ystyried buddiannau'r carcharor a diogelwch y cyhoedd, sy'n cystadlu â'i gilydd.

15. Mae'r llywodraeth yn credu bod gan Senedd y DU hawl a chyfrifoldeb i ailosod yr agwedd at y broses parôl, gan ddychwelyd i fwriad gwreiddiol y prawf statudol a'i weithrediad ymarferol. Yn benodol, rydym yn cynnig mabwysiadu dull mwy rhagofalus ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol, hy *peidio* â rhoi cyfarwyddyd i ryddhau oni bai fod tystiolaeth o risg isel i'r cyhoedd. Dylai'r cyfrifoldeb fod ar y troseddwr i ddangos y gellir rhoi fydd ynddo i'w ryddhau i'r gymuned yn ddiogel. Bydd newid y

rhagdybiaeth yn gwneud y system yn fwy cadarn wrth ddelio â'r troseddwyr mwyaf peryglus.

16. Nid yw'r adolygiad o'r bôn i'r brig wedi edrych ar gwestiynau ynghylch y mathau o ddedfrydau sy'n briodol i wahanol droseddwyr, sut a phryd y dylent fod yn gymwys ar gyfer rhyddhau, na pha droseddwyr dylai fod yn ddarostyngedig i'r system rhyddhau ar barôl – gan fod y rhain yn faterion dedfrydu a oedd wedi'u harchwilio a chael sylw yn y Papur Gwyn ar Ddedfrydu 2020. Mae'r gwaith hwn yn ategu'r diwygiadau y rhoddwyd ar waith wedyn ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, gan nodi safbwynt y llywodraeth ar gryfhau'r system dedfrydu a rhyddhau ar gyfer y troseddwyr mwyaf difrifol.

### Model newydd ar gyfer yr haen uchaf o achosion parôl: cymhwyso egwyddor ragofalus

17. Mae'r llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod angen diwygiad sylfaenol, yn benodol mewn cysylltiad â'r achosion mwyaf difrifol ac uchel eu risg sy'n peri pryder sylweddol i'r cyhoedd, a lle gwelwyd bod penderfyniadau rhyddhau neu symudiadau i amodau carchar agored wedi andwyo'r hyder yn y system. Ar gyfer yr 'haen uchaf' honno o achosion parôl, byddwn yn cyflwyno model newydd sy'n mabwysiadu egwyddor ragofalus: i sicrhau'r lefel uchaf o graffu a mesurau diogelwch yn yr achosion hynny, lle mai diogelu'r cyhoedd yw'r brif ystyriaeth. Mae'r adolygiad hwn yn amlinellu'r cynigion ar gyfer y model newydd.

### Cynyddu tryloywder a gwella'r ymgysylltiad â dioddefwyr

18. Un o'r prif bethau mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio arno yw nodi ffyrdd o gynyddu tryloywder ymhellach a gwella cyfranogiad ac ymgysylltiad dioddefwyr yn ystod y broses parôl. Ar ddechrau'r adolygiad, ym mis Hydref 2020, cynhaliodd y llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gynnal rhai gwrandawiad parôl yn gyhoeddus.[1] Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth ym mis Chwefror 2021[2], gan gyhoeddi ein bwriad i newid Rheolau'r Bwrdd Parôl er mwyn cael gwared ar y gofyniad presennol i gynnal pob gwrandawiad yn breifat. Roeddem wedi nodi sut byddai'r newidiadau hynny'n cael eu cyflawni; yn benodol, y drefn ar gyfer ceisiadau am wrandawiad cyhoeddus a sut bydd y llywodraeth yn cyflawni ei hymrwymiad maniffesto i ganiatáu i ddioddefwyr fynychu gwrandawiad yn llawn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

19. Mae'n hollbwysig bod dioddefwyr yn cael yr holl wybodaeth am bob cam o ddedfryd y carcharor, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, ac yn teimlo bod ganddynt lais yn y broses. Yn fwy diweddar, o fis Rhagfyr 2021 i fis Chwefror 2022, cynhaliodd y llywodraeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y mesurau i'w cynnwys yn ein Bil

---

1 Ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Bôn i'r Brig

2 Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl (publishing.service.gov.uk)

Dioddefwyr arfaethedig. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, ceisiwyd safbwyntiau ar ffyrdd o wella ymgysylltiad pellach dioddefwyr yn ystod y broses parôl. Mae'r ymatebion wedi helpu i ddylanwadu ar yr agwedd at ymgysylltiad a chyfranogiad dioddefwyr yn y system parôl, sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys cynigion i ganiatáu i ddioddefwyr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Bwrdd Parôl a gofyn cwestiynau yn y sylwadau hynny; ac i wella'r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr.

### Cyfansoddiad y Bwrdd Parôl

20. Roedd yr adolygiad wedi archwilio cyfansoddiad a statws y Bwrdd Parôl, yn benodol a ddylai barhau i fod yn gorff hyd braich annibynnol wedi'i noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, neu fod yn dribiwnlys. Rydym yn credu ei bod yn ddiangen deddfu i newid cyfansoddiad y Bwrdd er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i'r system.

21. Fodd bynnag, daeth yr adolygiad i'r casgliad y byddai'r Bwrdd yn elwa ar gael rhagor o aelodau â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith, fel swyddogion heddlu gynt. Felly, rydym yn bwriadu deddfu i nodi bod gorfodi'r gyfraith yn un o'r proffesiynau y dylid tynnu aelodau ohonynt, yn ogystal â chynlluniau i fynd ati i recriwtio aelodau o'r fath. Ar ben hynny, rydym yn cynnig y dylai aelodau â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith eistedd ar y paneli sy'n delio â rhyddhau'r haen uchaf o achosion parôl.

# Crynodeb gweithredol

| Penawdau | |
|---|---|
| | Bydd y llywodraeth yn deddfu ar gyfer **dull rhagofalus newydd o ryddhau'r haen uchaf o'r troseddwyr mwyaf difrifol** i sicrhau'r lefelau uchaf o sicrwydd a mesurau diogelu yn yr achosion hynny. |
| | Bydd newidiadau i fireinio'r **prawf rhyddhau statudol** yn cael eu cyflwyno i'w wneud yn fwy rhagnodol: gan ganolbwyntio mwy ar ddiogelu'r cyhoedd rhag y risg o droseddu difrifol pellach ac amlinellu'r meini prawf y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl eu hystyried. |
| | **Bydd yn rhaid i'r Bwrdd fabwysiadu dull rhagofalus** ar gyfer yr achosion haen uchaf: gan olygu os nad yw'n gallu dod i gasgliad hyderus bod y prawf rhyddhau wedi'i basio, rhaid naill ai gwrthod rhyddhau neu gyfeirio'r achos at yr Ysgrifennydd Gwladol. |
| | Bydd **pŵer i wrthod y penderfyniad** yn weithredol mewn achosion pan fo'r Bwrdd yn penderfynu y dylid rhyddhau carcharor haen uchaf ond bod adolygiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno bod y prawf rhyddhau wedi'i basio. |
| | |
| | Bydd newidiadau mewn deddfwriaeth yn **cynyddu nifer yr aelodau o'r Bwrdd Parôl sydd â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith** ac yn sicrhau bod yr aelodau hyn yn eistedd ar baneli mewn achosion haen uchaf. |
| | Bydd Rheolau newydd y Bwrdd Parôl yn caniatáu **gwrandawiadau parôl cyhoeddus** mewn rhai achosion ac, am y tro cyntaf, yn caniatáu i d**dioddefwyr wneud cais i fynychu gwrandawiadau** yn llawn os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| | Bydd prosesau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer **trosglwyddo carcharorion sydd wedi cael dedfryd oes a dedfrydau amhenodol eraill i amodau carchar agored** i ganiatáu rhagor o graffu gan Weinidogion ar achosion lle mae carcharorion wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol. |
| | Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, fel parti i weithdrefnau parôl, yn **defnyddio mwy ar gynrychiolaeth gyfreithiol** i gyflwyno'r achos |

| Penawdau | |
|---|---|
| | cryfaf posibl i'r Bwrdd Parôl ynghylch risg carcharor mewn rhai achosion. |

**Casgliadau cyffredinol a chynigion ar gyfer diwygio**

22. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniad adolygiad o'r bôn i'r brig y llywodraeth o'r system parôl, a chynigion y llywodraeth ar gyfer diwygio. Y casgliad cyffredinol yw, ar gyfer y rhan fwyaf o garcharorion y mae eu rhyddhau yn amodol ar asesiad risg y Bwrdd Parôl, bod y system gyfredol yn cyflawni ei phrif swyddogaeth, sef diogelu'r cyhoedd drwy gadw carcharorion sy'n parhau i beri risg i'r cyhoedd yn y carchar a dim ond rhyddhau'r rhai y mae'n ddiogel gwneud hynny, yn effeithiol. Serch hynny, mae achosion sy'n cynnwys y troseddau mwyaf difrifol yn achosi pryder sylweddol ymysg y cyhoedd o hyd, ac yn andwyo'r hyder yn y system yn ddifrifol.

23. Mae'n ymddangos bod y dull presennol yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y system i ddangos bod y troseddwr yn peri risg ac felly ni ddylid ei ryddhau, yn hytrach na thybio y dylid cadw'r carcharor yn gaeth oni bai y gellir dangos yn glir nad oes risg i'r cyhoedd bellach. Mae angen diwygio yn fwy sylfaenol mewn cysylltiad â'r achosion hyn, gyda Senedd y DU yn gosod canllawiau statudol clir i wella diogelwch y cyhoedd ac i atgyfnerthu ymddiriedaeth yn y system parôl.

24. Mae'r adrannau canlynol yn darparu crynodeb manylach o'r canfyddiadau a'r cynigion. Mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar y cynigion hynny sydd wedi'u dylunio i wella diogelwch y cyhoedd. Mae Rhan 2 yn archwilio'r cynigion ar gyfer diwygio i wella tryloywder a phrofiad dioddefwyr o'r broses parôl. Mae Rhan 3 yn amlinellu canfyddiadau'r adolygiad ar ôl gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y system.

## Rhan 1: Proses Gwneud Penderfyniadau a Chyfansoddiad y Bwrdd Parôl

25. Mae Rhan 1 yn canolbwyntio ar gynigion sydd â'r nod o wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys: gwneud y prawf rhyddhau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl ei ddilyn yn fwy rhagnodol; model newydd i sefydlu dull mwy rhagofalus o ryddhau'r troseddwyr mwyaf difrifol; diwygio rôl draddodiadol y Bwrdd Parôl yn asesu addasrwydd carcharorion oes a dedfrydau amhenodol eraill ar gyfer amodau agored; cynyddu nifer yr aelodau o'r Bwrdd Parôl sydd â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith; a phŵer newydd i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu pa gefndiroedd proffesiynol dylai fod wedi'u cynrychioli ar baneli parôl penodol.

**Newidiadau i'r prawf rhyddhau statudol**

26. Mae'r llywodraeth yn cynnig newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli'r broses o ryddhau carcharorion sy'n destun asesiad risg y Bwrdd Parôl. Yn gyntaf, bydd y prawf rhyddhau statudol y mae'n rhaid i'r Bwrdd ei ddefnyddio yn cael ei wneud yn fwy rhagnodol a bydd y ddeddfwriaeth yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu hystyried. Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi na chaiff y Bwrdd roi cyfarwyddyd i ryddhau carcharor oni bai ei fod *"yn fodlon nad oes angen mwyach, er mwyn diogelu'r cyhoedd, i'r carcharor aros yn y ddalfa".*

27. Mae'r llywodraeth yn credu bod y ffordd y mae'r prawf hwn wedi cael ei ddehongli a'i ddefnyddio dros y blynyddoedd, fel yr adlewyrchir yn absenoldeb canllawiau deddfwriaethol clir ac mewn amrywiol ddyfarniadau llys, wedi symud oddi wrth yr hyn yr oedd Senedd y DU wedi'i fwriadu ac wedi cyfyngu ar sut mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried y cwestiwn a yw'n 'ddiogel' rhyddhau carcharor ai peidio. I wneud iawn am hynny, byddwn yn mireinio'r prawf i'w gwneud yn ddiamheuaeth beth yw ystyr "angen er mwyn diogelu'r cyhoedd" gan roi rhagor o bwyslais ar fod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn wynebu risg o droseddu difrifol pellach pe bai'r carcharor yn cael ei ryddhau.

28. Yn ogystal â hynny, bydd y meini prawf y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu hystyried wrth wneud yr asesiad hwnnw wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, gan gynnwys: natur a difrifoldeb y troseddu gwreiddiol; tystiolaeth o droseddu ehangach honedig; a sylwadau gan ddioddefwyr, yn ogystal ag ymddygiad a chynnydd a wnaed yn y carchar.

**Dull rhagofalus o ryddhau'r troseddwyr mwyaf difrifol**

29. Yn ail, bydd model newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau'r haen uchaf o'r troseddwyr mwyaf difrifol. Bydd yr haen uchaf honno wedi'i diffinio fel troseddwyr sy'n bwrw dedfryd am lofruddio, treisio, terfysgaeth ac achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn. Rydym yn cydnabod y gellid diffinio'r categori hwn yn wahanol ond ar ôl ystyried yn ofalus, credwn fod y troseddau hyn yn cynnwys yr achosion sy'n peri'r risg uchaf ac yn cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd.

30. Gan ystyried difrifoldeb penodol y troseddau hyn a'r canlyniadau difrifol pe bai'r carcharor yn troseddu yn yr un modd eto, byddwn yn cymhwyso egwyddor ragofalus wrth ystyried rhyddhau troseddwyr yn y categorïau hyn. Bydd hyn yn golygu deddfu i fynnu, pan na all y Bwrdd Parôl ddweud yn hyderus bod y prawf rhyddhau wedi'i basio, bod yn rhaid iddo fabwysiadu'r dull rhagofalus hwnnw a rhoi cyfarwyddyd i'r troseddwr aros yn y carchar neu gyfeirio'r achos at yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol gymryd rhan mewn penderfyniad rhyddhau yn yr achosion mwyaf difrifol**

31. Pan gaiff achos ei gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, bydd pŵer newydd i Weinidogion adolygu a chymryd rhan yn y penderfyniad ynghylch rhyddhau. Mae dau amgylchiad lle gallai’r adolygiad hwn gan Weinidogion fod yn gymwys: naill ai pan na all y Bwrdd Parôl ddweud yn hyderus bod y prawf rhyddhau wedi’i basio, ac mewn achosion lle mae’r Bwrdd Parôl yn rhoi cyfarwyddyd i ryddhau un o’r troseddwyr ‘haen uchaf’. Yn y ddau amgylchiad, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu adolygu a gwrthod y penderfyniad hwn i ryddhau. Bydd y pŵer adolygu hwn yn ymgorffori’r egwyddor ragofalus yn y gyfraith. Mae dau fodel arall ar gyfer mabwysiadu’r dull rhagofalus hwn. Yr opsiwn cyntaf fyddai bod Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau’n bersonol, a bod llwybr apelio i’r Uwch Dribiwnlys. Yr ail opsiwn fyddai creu panel adolygu newydd i wneud penderfyniadau, a fyddai’n cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol a dau aelod annibynnol o’r panel.

32. Byddai’r opsiwn cyntaf yn cynnwys pŵer i’r Ysgrifennydd Gwladol adolygu a gwrthod penderfyniad y Bwrdd Parôl i ryddhau carcharor sy’n perthyn i’r garfan haen uchaf ar y sail bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno â’r Bwrdd bod y prawf statudol wedi’i basio.

33. O dan yr opsiwn hwn, byddai’n rhaid creu llwybr apelio newydd i’w gwneud yn bosibl herio penderfyniadau. Rydym yn cynnig y byddai’r apeliadau hyn yn cael eu clywed gan yr Uwch Dribiwnlys ac y byddai’r llwybr apelio hwn yn cymryd lle Adolygiad Barnwrol. Y sail dros yr apêl hon fydd gwall ar bwynt cyfreithiol, gan ddefnyddio’r seiliau dros Adolygiad Barnwrol sef afresymoldeb, annhegwch gweithdrefnol neu anghyfreithlondeb, a gwall ffeithiol. Byddai gan yr Uwch Dribiwnlys y pŵer i wrthod y penderfyniad ac anfon yr achos yn ôl at yr Ysgrifennydd Gwladol neu’r Bwrdd Parôl; neu byddai ganddo’r pŵer i orchymyn bod y carcharor yn cael ei ryddhau.

34. Opsiwn arall ar gyfer cyfranogiad gweinidogol fyddai creu panel adolygu newydd a fyddai’n adolygu a gwneud penderfyniadau ynghylch achosion sy’n cael eu cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol: naill ai pan na all y Bwrdd Parôl ddod i gasgliad hyderus bod y prawf rhyddhau wedi’i basio mewn achos haen uchaf; neu pan fydd y Bwrdd Parôl wedi gwneud penderfyniad i ryddhau, lle byddai gan y panel adolygu’r pŵer i adolygu a gwrthod rhyddhau yn yr achosion hynny. Byddai’r panel adolygu’n cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol a dau aelod annibynnol a fyddai’n adolygu’r achos ac yn pennu a ydynt yn credu bod y prawf rhyddhau wedi’i basio. Byddai’r panel wedi’i gyfansoddi i gyflawni swyddogaeth annibynnol, debyg i lys, felly o dan yr opsiwn hwn ni fyddai angen creu system apelio ar wahân, newydd i’r Uwch Dribiwnlys.

### Cyfansoddiad y Bwrdd Parôl

35. Mae'r Bwrdd Parôl yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol ac yn un o'r cyrff hyd braich a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd yr adolygiad yn archwilio'r cwestiwn a ddylid ailgyfansoddi'r Bwrdd i fod yn dribiwnlys gyda statws a phwerau llysoedd a thribiwnlysoedd eraill, o ystyried natur annibynnol a lled-farnwrol ei benderfyniadau.

36. Nid ydym yn credu bod angen ailgyfansoddi'r Bwrdd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i'r broses gwneud penderfyniadau er mwyn diogelu'r cyhoedd yn well – ac ni fyddai'n cyd-fynd â'r model newydd arfaethedig. Er ei bod yn bwysig bod asesiadau risg a phenderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu gwneud yn annibynnol ar y llywodraeth, rhaid i ddiogelu'r cyhoedd rhag y troseddwyr mwyaf difrifol fod yn fater i'r llywodraeth yn y pen draw – a dyna pam mae'r model arfaethedig yn cynnwys y gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd mewn achosion wedi'u diffinio'n glir sy'n cynnwys y troseddau mwyaf difrifol. Oherwydd hynny, mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad y bydd y Bwrdd Parôl yn parhau i fod yn gorff hyd braich.

### Cyfansoddiad aelodaeth y Bwrdd Parôl

37. Mae gan y Bwrdd Parôl tua 300 o aelodau ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn benodiadau cyhoeddus a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Daw aelodau o wahanol gefndiroedd proffesiynol, yn bennaf y farnwriaeth, seicolegwyr, seiciatryddion a phobl â phrofiad helaeth o'r system cyfiawnder troseddol. Ar gyfer pob achos sy'n cael ei gyfeirio at y Bwrdd i'w ystyried, mae panel o aelodau'n cael ei gynnull i asesu'r ffeil tystiolaeth, i gynnal gwrandawiad llafar os oes angen clywed gan y carcharor a thystion, ac i wneud penderfyniad ynghylch a yw'r prawf rhyddhau wedi'i basio. Bydd yr aelodau mwyaf profiadol yn cael eu neilltuo i'r achosion mwyaf cymhleth ac uchel eu risg i sicrhau'r lefel a'r cymysgedd cywir o arbenigedd ar y panel.

38. Ar hyn o bryd dim ond 5% o aelodau'r Bwrdd Parôl sydd â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith,[3] fel bod yn swyddog heddlu gynt. Ar ôl adolygu cyfansoddiad yr aelodaeth, hoffai'r llywodraeth gynyddu nifer yr aelodau â'r math hwnnw o arbenigedd a chefndir proffesiynol oherwydd bod ganddynt brofiad uniongyrchol penodol o asesu'r risg i'r cyhoedd. Bwriad hyn yw helpu i gryfhau'r amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad ymysg aelodaeth y Bwrdd. Yn benodol, rydym am sicrhau bod aelod â chefndir mewn gorfodi'r gyfraith yn cael ei gynnwys ar baneli sy'n delio â'r haen uchaf o'r troseddwyr mwyaf difrifol.

39. I gyflawni hyn, bydd newidiadau'n cael eu gwneud i nodi'n glir mewn deddfwriaeth bod gorfodi'r gyfraith yn un o'r cefndiroedd proffesiynol y dylid tynnu aelodau o'r

---

[3] Aelodaeth y Bwrdd Parôl 2020-21

Bwrdd ohonynt ac y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol lywio cyfansoddiad paneli. Bydd ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu hefyd, yn anelu at ddenu aelodau o'r proffesiwn hwnnw.

**Penderfyniadau ynghylch symud carcharorion â dedfryd amhenodol i amodau agored**

40. Un o rolau'r Bwrdd Parôl yw gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a fyddai'n ddiogel trosglwyddo carcharorion sy'n bwrw dedfryd Oes neu Garcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd i amodau carchar agored. Yn hanesyddol, mae cyfnod mewn amodau agored wedi cael ei ystyried yn bwysig i rai carcharorion ac i'r carcharorion hynny sydd wedi treulio nifer o flynyddoedd mewn carchar caeedig, mae cyfnod mewn carchar agored wedi'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd yn y gymuned.

41. Er bod y Bwrdd Parôl yn gwneud argymhellion yn hyn o beth, yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n penderfynu. Yn yr un modd â phenderfyniadau ynghylch rhyddhau'r troseddwyr mwyaf difrifol, gall penderfyniadau i'w trosglwyddo i garchar agored cyn eu rhyddhau beri pryder sylweddol. Byddwn felly yn newid y polisi a'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch trosglwyddo i garchardai agored.

42. Mae'r polisi cyfredol mewn cysylltiad â rôl y Bwrdd Parôl yn argymell bod carcharor yn symud i amodau agored yn nodi y dylid derbyn argymhelliad y Bwrdd Parôl oni bai fod rhesymau eithriadol dros ei wrthod. Ar hyn o bryd, caiff y rhain eu hystyried gan swyddogion sy'n gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

43. Mae'r llywodraeth wedi penderfynu y bydd y dull hwn yn cael ei newid i ddarparu ar gyfer goruchwyliaeth weinidogol uniongyrchol mewn achosion lle mae'r carcharor yn bwrw dedfryd ar gyfer llofruddiaeth, lladdiad arall, treisio neu drosedd rywiol ddifrifol yn erbyn plentyn/creulondeb tuag at blentyn. Bydd trothwy newydd yn cael ei ddefnyddio, felly nid yn unig y bydd yn rhaid asesu mai isel yw'r risg o'r carcharor yn dianc, ond bydd hefyd rhaid mynegi pwrpas penodol a chlir ar gyfer cyfnod mewn amodau agored, gan gynnwys esboniad pam na ellir cyflawni'r pwrpas hwnnw mewn carchar caeedig. Yn yr un modd, byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y byddai rhoi'r carcharor mewn carchar agored yn andwyo hyder y cyhoedd yn y system carchardai agored.

**Cynrychiolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gwrandawiadau parôl**

44. I gloi, o ran proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, archwiliodd yr adolygiad sut mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawiadau parôl ac a ellid gwneud mwy i gryfhau hynny, yn enwedig yn yr achosion mwyaf difrifol. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Parôl yn cael ffeil tystiolaeth sy'n cynnwys adroddiadau, asesiadau ac argymhellion gan staff proffesiynol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n adnabod y carcharor – yn bennaf gan staff prawf yn y carchar ac yn y

gymuned, a gan seicolegydd y Gwasanaeth mewn rhai achosion. Lle bo angen, darperir adroddiadau a thystiolaeth gan weithwyr proffesiynol eraill, fel yr heddlu.

45. Mewn gwrandawiad parôl, mae'r rhai sydd wedi ysgrifennu'r adroddiadau hynny yn cael eu galw i roi tystiolaeth a chael eu holi gan banel y Bwrdd Parôl. Byddant yn esbonio eu hasesiadau i'r panel a'r rhesymau pam maen nhw o blaid neu yn erbyn rhyddhau'r carcharor. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Bwrdd yn dilyn tystiolaeth ac argymhellion y gweithwyr proffesiynol sydd wedi ysgrifennu'r adroddiadau.

46. Mewn rhai achosion mwy cymhleth, bydd 'Cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol' – swyddog prawf uwch a hynod brofiadol fel arfer – yn bresennol i helpu'r panel i ddeall y dystiolaeth a darparu barn gyffredinol ar risg y carcharor. Mewn achosion prin, gall yr Ysgrifennydd Gwladol benodi cwnsler cyfreithiol i fod yn bresennol yn y gwrandawiad, er enghraifft pan fydd tystiolaeth o droseddu ehangach honedig sydd o bosibl yn cynnwys materion cyfreithiol anodd o ran pwys a pherthnasedd y dystiolaeth honno.

47. Rydym wedi adolygu'r trefniant hwn a sut mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawiadau – yn enwedig yng ngoleuni'r model newydd arfaethedig ar gyfer rhyddhau'r troseddwyr mwyaf difrifol a chyflwyno dull mwy rhagofalus yn yr achosion hyn.

48. Rydym yn bwriadu gwneud mwy o ddefnydd o gynrychiolaeth ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gwrandawiadau parôl ar gyfer rhai o'r achosion mwyaf difrifol. Y bwriad yw rhoi mwy o rôl i gynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyflwyno'r achos cryfaf posibl ynghylch y risgiau mae'r carcharor yn eu peri.

## Rhan 2: Dioddefwyr a Thryloywder

49. Mae Rhan 2 yn archwilio'r cynigion ar gyfer diwygio i wella tryloywder a phrofiad dioddefwyr o'r broses parôl. Mae'n esbonio sut bydd yr ymrwymiadau a gyhoeddwyd yn 2021, sef caniatáu i rai gwrandawiadau parôl gael eu cynnal yn gyhoeddus a hwyluso dioddefwyr i fynychu'r gwrandawiadau yn llawn, yn cael eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys newid Rheolau'r Bwrdd Parôl i gael gwared ar y gofyniad cyfreithiol presennol i gynnal pob gwrandawiad parôl yn breifat.

50. Un o flaenoriaethau eraill yr adolygiad oedd archwilio ffyrdd o wneud y system parôl yn fwy agored a thryloyw, er mwyn cynyddu hyder a dealltwriaeth o ba mor anodd a dadleuol y gall penderfyniadau fod, yn enwedig i ddioddefwyr.

51. Un o gamau cyntaf yr adolygiad oedd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus[4] ynghylch a ellid cynnal rhai gwrandawiadau parôl yn gyhoeddus a sut mae darparu'n ddiogel ar gyfer y posibilrwydd o ddioddefwyr a phobl eraill yn mynychu gwrandawiadau parôl fel sylwedyddion – ymrwymiad arall ym maniffesto 2019. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwnnw rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020. Cyhoeddwyd ymateb y llywodraeth ar 8 Chwefror 2021[5], gan gyhoeddi'r bwriad i newid Rheolau'r Bwrdd Parôl er mwyn cael gwared ar y gofyniad i gynnal pob gwrandawiad parôl yn breifat. Penderfynwyd y dylai'r Rheolau ganiatáu i'r Bwrdd gynnal gwrandawiad cyhoeddus os yw'n penderfynu y byddai gwneud hynny 'er budd cyfiawnder'. Mae hyn yn dilyn y dull a fabwysiedir mewn achosion iechyd meddwl gerbron Tribiwnlys yr Haen Gyntaf. Penderfynwyd hefyd y dylai'r Rheolau ganiatáu rhagor o bresenoldeb dioddefwyr a phobl eraill fel sylwedyddion.

52. Ers hynny, mae'r Adolygiad o'r Bôn i'r Brig wedi archwilio'r ffordd orau o weithredu ar y penderfyniadau hynny drwy drafod y cynigion ag ymarferwyr, cynrychiolwyr dioddefwyr a charcharorion, a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried. Mae Rhan 2 o'r adroddiad hwn yn cynnwys rhagor o fanylion am gynlluniau'r llywodraeth i fwrw ymlaen â gwrandawiadau cyhoeddus a phresenoldeb dioddefwyr fel sylwedyddion.

53. Byddwn yn profi'r dulliau a'r trefniadau cymorth newydd hyn mewn sampl bach o achosion i ddechrau er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn effeithiol i ddioddefwyr. Mae'r adran hon yn cynnwys rhagor o fanylion ar y broses ymgeisio arfaethedig ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus a sut byddai'r rhain yn cael eu cynnal o bosibl. Mae hefyd yn amlinellu mesurau i wella tryloywder ymhellach, fel cynlluniau i ddarparu rhagor o wybodaeth mewn crynodebau o benderfyniadau a chyhoeddi crynodebau achosion uchel eu proffil ar-lein.

54. Roedd yr ymgynghoriad diweddar ar y Bil Dioddefwyr yn ceisio safbwyntiau ar sut gellid gwella'r ymgysylltiad â dioddefwyr sy'n rhan o'r broses parôl, ac a ellid gwneud rhagor i gynyddu cyfranogiad dioddefwyr. Bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n dylanwadu ar y cynigion i'w cyflwyno yn y Bil Dioddefwyr, un o ymrwymiadau maniffesto'r llywodraeth yn 2019.

55. Rydym hefyd wedi defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw i ddylanwadu ar gynigion pellach yn yr adolygiad hwn ar gyfer cynyddu cyfranogiad dioddefwyr yn y broses parôl. Fel rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r prawf rhyddhau, bydd y meini prawf yn cynnwys gofyniad i'r Bwrdd Parôl ystyried sylwadau a wneir gan ddioddefwyr. Ein bwriad yw galluogi dioddefwyr i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig fel

---

[4] Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl – Ymgynghoriad cyhoeddus ar wneud rhai gwrandawiadau parôl yn agored i ddioddefwyr troseddau a'r cyhoedd (publishing.service.gov.uk)

[5] Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl (publishing.service.gov.uk)

rhan o Ddatganiad Personol y Dioddefwr i’r Bwrdd, ac yn gallu gofyn cwestiynau fel rhan o’r sylwadau hynny. Rydym hefyd wedi gwrando ar safbwyntiau dioddefwyr sydd wedi galw am wella’r wybodaeth a roddir i ddioddefwyr am adolygiad parôl carcharor. Byddwn yn archwilio sut gellir gwneud hynny drwy adolygu pa wybodaeth ychwanegol y byddai’n briodol ac yn ddiogel ei rhannu â dioddefwyr fel rhan o’r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.

## Rhan 3: Gwerthuso’r System Parôl

56. Mae Rhan 3 yn gwerthuso gweithrediad y system parôl ar hyn o bryd ac yn nodi meysydd lle mae angen gwella ymhellach. Mae’n adolygu effeithiolrwydd y diwygiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i adolygiadau blaenorol. Mae’n myfyrio ar brofiadau dioddefwyr a charcharorion, yn benodol yr angen i ddarparu gwell gwybodaeth am y broses parôl ac i leihau’r oedi cyn dod i benderfyniad ynghylch achosion. Mae Rhan 3 hefyd yn ystyried effaith pandemig Covid-19 ar y system parôl dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sut roedd y system parôl wedi addasu, a pha wersi gellir eu dysgu i sicrhau cydnerthedd ac effeithlonrwydd y system yn y dyfodol.

57. Er bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd ar draws y system i wella prydlondeb a’i gwneud yn fwy effeithlon, canfu’r adolygiad fod carcharorion a dioddefwyr yn gallu profi diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o’r broses parôl. Mae’r camau sy’n cael eu cymryd i wneud y broses yn fwy tryloyw wedi’u hamlinellu yn Rhan 2.

58. Roedd yr adolygiad wedi gwerthuso’r diwygiadau i’r system parôl dros y blynyddoedd diwethaf hefyd, a nodi lle mae’r diwygiadau hyn wedi gwella’r system a’i gwneud yn fwy effeithiol, yn enwedig wrth ddelio ag achosion mwy cymhleth fel rhai lle mae troseddu ehangach honedig, neu droseddwyr sy’n ymwneud â therfysgaeth.

59. Mae pennod olaf yr adran hon yn archwilio effeithlonrwydd y system o ran delio â’r nifer sylweddol o achosion parôl, a’i gallu a’i hyblygrwydd i ddelio â chymhlethdod yr achosion hyn. Mae’n edrych ar ffyrdd newydd o weithio sydd wedi cael eu cyflwyno i’r system, gan ganolbwyntio’n benodol ar effaith Covid-19 a pha mor effeithiol yr oedd y system wedi addasu i’r model gweithio o bell, a sut mae’r arferion gorau yn hynny o beth yn cael eu datblygu. Mae hefyd yn edrych ar elfennau allweddol o’r broses parôl a lle mae angen gwella o bosibl, gan gynnwys: rhoi ffeil at ei gilydd, amserlenni gwrandawiadau; rhannu data a rheoli perfformiad; y berthynas rhwng y Bwrdd Parôl a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder; a sicrhau ansawdd ac adborth i baneli parôl.

60. Bydd rôl Grŵp Goruchwylio newydd y System Parôl a sefydlu trefniadau craffu gan drydydd parti annibynnol, fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad Pwrpasol, yn rhan allweddol o sicrhau gwelliannau pellach i effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a pherfformiad y system parôl. Mae’r Adolygiad o’r Bôn i’r Brig wedi archwilio rôl y

dulliau newydd hynny a argymhellwyd yng nghyd-destun y diwygiadau ehangach sy'n cael eu cynnig yn yr adroddiad hwn. Mae'n dod i'r casgliad y bydd y mesurau hyn yn ddefnyddiol ac yn briodol, gan chwarae rôl werthfawr yn nyfodol y system parôl.

# RHAN 1: Proses gwneud penderfyniadau a chyfansoddiad y Bwrdd Parôl

61. Er bod yr adolygiad hwn wedi ystyried y system parôl yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys ei holl rannau a sut maen nhw'n rhyngweithio â'i gilydd, y Bwrdd Parôl a'i broses gwneud penderfyniadau sydd wrth galon y broses parôl. Mae'r adran hon o'r adolygiad yn archwilio sut mae'r Bwrdd Parôl yn gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau ac yn amlinellu'r diwygiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud i'r broses hon i gynyddu goruchwyliaeth weinidogol, a sicrhau bod diogelu'r cyhoedd yn dal wrth wraidd y penderfyniadau hyn.

62. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried cyfansoddiad y Bwrdd Parôl yn ogystal â chyfansoddiad ei aelodau a'u cefndir proffesiynol, i sicrhau bod y cymysgedd cywir o bobl yn cynnal yr asesiadau risg ac yn gwneud penderfyniadau.

# Pennod 1: Proses ryddhau a gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl

## CRYNODEB

**Bydd geiriad y** prawf rhyddhau statudol **a ddefnyddir gan y Bwrdd Parôl yn cael ei newid drwy ddeddfwriaeth i'w wneud yn fwy rhagnodol**

**Bydd dull rhagofalus newydd o ryddhau'r troseddwyr mwyaf difrifol**

**Bydd safbwyntiau'r** Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu cynrychioli **ym mhob gwrandawiad Parôl ar gyfer achosion haen uchaf pan fo Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn gwrthwynebu rhyddhau**

**Bydd Grŵp Goruchwylio newydd y System Parôl yn canolbwyntio ar wella'r** broses galw'n ôl

**Bydd** goruchwyliaeth weinidogol ar symudiadau i amodau agored **ar gyfer carcharorion â dedfryd amhenodol**

## Cyflwyniad

63. Y Bwrdd Parôl yw'r corff sy'n gyfrifol am asesu risg carcharorion yn gadarn a phennu a oes angen mwyach, er mwyn diogelu'r cyhoedd, i'r carcharor aros yn y ddalfa ai peidio.

64. Ei rôl yw cael asesiadau risg hollbwysig ar gyfer carcharorion sy'n gymwys ar gyfer parôl a'u defnyddio i ddylanwadu ar ei benderfyniadau ynghylch rhyddhau er mwyn diogelu'r cyhoedd. Mae'r adolygiad wedi archwilio sut mae'r Bwrdd yn gwneud y penderfyniadau hyn ac a yw'n gallu cyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol. Hefyd, mae'r adolygiad wedi edrych ar sut mae'r broses ar gyfer galw troseddwyr yn ôl i'r carchar yn gweithio a sut mae carcharorion sy'n gymwys ar gyfer parôl yn cael eu symud i amodau agored.

65. Mae'r adolygiad hwn wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Parôl yn perfformio ei rôl gwneud penderfyniadau yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion, fel y dangosir gan y cyfraddau isel o droseddu pellach difrifol ar ôl i'r Bwrdd ryddhau troseddwyr. Fodd

bynnag, i sicrhau bod proses gwneud penderfyniadau ynghylch parôl yn parhau i ganolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu'r cyhoedd, rydym wedi dod i'r casgliad bod angen mabwysiadu dull gwahanol ar gyfer y troseddwyr risg uchaf a defnyddio dull rhagofalus drwy gyflwyno goruchwyliaeth Weinidogol newydd i'r broses ryddhau, er mwyn rhoi hyder i'r cyhoedd nad yw'r troseddwyr risg uchaf hyn yn cael eu rhyddhau oni bai ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

66. Rydym hefyd yn bwriadu diwygio'r ffordd mae'r broses gwneud penderfyniadau hon yn gweithio i droseddwyr sy'n cael eu galw'n ôl i'r ddalfa ac i droseddwyr sy'n cael eu symud i amodau agored er mwyn sicrhau bod y dull rhagofalus hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson.

## Proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl

67. Mae'r rhan fwyaf o garcharorion lle mai'r Bwrdd Parôl sydd i benderfynu a ddylid eu rhyddhau i ddechrau, neu sydd i benderfynu o bosibl, yn gymwys ar gyfer adolygiad neu'n gorfod cael eu hadolygu i asesu eu haddasrwydd ar gyfer rhyddhau bob dwy flynedd o leiaf. Mae'r broses adolygu hon yn dechrau pan fydd yr Adran Gwaith Achos Amddiffyn y Cyhoedd (PPCS) yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cyfeirio'r carcharor at y Bwrdd Parôl ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol gyda ffeil o dystiolaeth ysgrifenedig. Y PPCS yw'r tîm sy'n rheoli'r broses parôl ar gyfer carcharorion sy'n gymwys ar gyfer parôl, yn rheoli'r system galw'n ôl ac yn delio â gwaith achos sy'n gysylltiedig â charcharorion. Mae'r Bwrdd Parôl yn adolygu'r achos, gan gynnal asesiad risg, cyn penderfynu a ddylid rhyddhau'r carcharor neu barhau i'w gadw'n gaeth gan ddefnyddio'r prawf rhyddhau statudol (gweler paragraff 71). Ar gyfer carcharorion â dedfryd amhenodol, os byddant yn penderfynu peidio â rhyddhau, gofynnir i'r Bwrdd roi cyngor o ran a ellid/dylid symud y carcharor i amodau agored (gweler paragraffau 107-111 am ragor o fanylion am amodau agored). Mae unrhyw benderfyniad neu argymhelliad yn seiliedig ar ffeil o wybodaeth am y carcharor ac, mewn rhai achosion, ar wrandawiad parôl llawn yn cynnwys tystion, er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth.

68. Os bydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu bod y prawf rhyddhau statudol wedi'i basio, caiff roi cyfarwyddyd i ryddhau'r carcharor. Os yw'n penderfynu nad yw wedi'i basio, mae'r troseddwr yn aros yn y carchar. Os bydd y naill barti neu'r llall i'r achos, sef y carcharor neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn credu bod penderfyniad amodol y Bwrdd Parôl yn wallus, caiff wneud cais i'r Bwrdd ailystyried y cais ar y sail bod y penderfyniad cyntaf hwn yn *afresymol neu'n annheg yn weithdrefnol* drwy'r system ailystyried (gweler paragraffau 204-217).

69. Os na fydd yr naill barti neu'r llall yn llwyddo i herio'r penderfyniad drwy ailystyried, caiff ddwyn Adolygiad Barnwrol o benderfyniadau'r Bwrdd yn yr Uchel Lys. Ni fydd yr

Uchel Lys yn ystyried a yw'r penderfyniad yn 'gywir' ai peidio; yn hytrach, bydd yn ystyried a wnaed y penderfyniad yn gyfreithlon ar un neu ragor o'r tair sail ganlynol: *afresymoldeb, annhegwch gweithdrefnol* neu *anghyfreithlondeb.* Caiff yr Uchel Lys naill ai ddyfarnu bod y penderfyniad wedi'i wneud yn gyfreithlon a gwrthod yr Adolygiad Barnwrol, neu gyfeirio'r achos yn ôl at y Bwrdd i wneud y penderfyniad eto. Ni chaiff y Llys wneud ei benderfyniad ei hun yn lle penderfyniad y Bwrdd na rhoi cyfarwyddyd i ryddhau'r carcharor ai peidio. Ar ddiwedd y broses, mae dewis i fynd â'r achos gerbron y Llys Apêl, lle gellir cadarnhau neu wrthod penderfyniad y Llys.

70. Mae'r bennod hon yn amlinellu diwygiadau arfaethedig i'r broses ryddhau hon yn y cam penderfyniad cyntaf ynghylch rhyddhau a'r llwybr apelio.

## Prawf Rhyddhau Statudol

71. Mae'r prawf rhyddhau statudol wrth wraidd proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl. Mae'n rhaid i'r Bwrdd ei ddefnyddio i bennu a yw'n ddiogel rhyddhau troseddwr i'r gymuned ar drwydded. Felly, mae'n hollbwysig bod y prawf rhyddhau hwn yn addas i'r diben ac yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

72. Nid yw geiriad y prawf rhyddhau statudol sydd wedi cael ei ddefnyddio gan y Bwrdd ar gyfer rhyddhau carcharorion wedi newid ers ei gyflwyno gyntaf yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1991 [ar gyfer rhyddhau'r bobl hynny sy'n bwrw dedfrydau oes yn ôl disgresiwn]. Roedd Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 wedi ymestyn y prawf hwn i bob carcharor sy'n gymwys ar gyfer parôl. Dyma'r geiriad hwnnw:

> "Ni chaiff y Bwrdd Parôl roi cyfarwyddyd [i ryddhau] ... oni bai fod y Bwrdd yn fodlon nad oes angen mwyach, er mwyn diogelu'r cyhoedd, i'r carcharor aros yn y ddalfa"

73. Y prawf hwn yw'r un cywir i'w ddefnyddio o hyd i asesu'r risg mae carcharor yn ei pheri. Fodd bynnag, rydym yn credu bod y Bwrdd Parôl, yn ymarferol, wedi symud oddi wrth bwriad gwreiddiol Senedd y DU wrth ddefnyddio'r prawf hwnnw o ganlyniad i benderfyniadau olynol yn y llysoedd.

74. Yn *Bradley* (1991),[6] ystyriodd y Llys Adrannol *lefel* y risg sydd ei hangen i gyfiawnhau parhau i gadw carcharorion oes yn gaeth pan fyddant wedi bwrw eu tariff. Er bod y llys wedi mynegi'r safbwynt bod yn rhaid cadw'r lefel risg honno yn 'anniffiniedig', pennodd mai rôl y Bwrdd Parôl yw "cynnal ymarfer cydbwyso rhwng buddiannau cyfreithlon y carcharor a'r cyhoedd, sy'n gwrthdaro".

---

6 *R v Parole Board, ex p Bradley* [1991] 1 WLR 134

75. Yn *Watson* (1996),[7] ehangodd y Llys ymhellach ar yr ymarfer cydbwyso hwn. O ran ei ddull gweithredu ar gyfer yr asesiad risg, dywedodd y Llys y dylai’r Bwrdd Parôl gydbwyso “caledi ac anghyfiawnder parhau i garcharu dyn sy’n annhebygol o achosi niwed difrifol i’r cyhoedd â’r angen i ddiogelu’r cyhoedd rhag dyn nad yw’n annhebygol o achosi niwed o’r fath”.

76. Mae’r llywodraeth yn cydnabod ac yn parchu bod yr arweiniad hwn ar ddefnyddio’r prawf statudol wedi cael ei ddarparu gan ein llysoedd yn absenoldeb meini prawf cliriach a manylach a ddarparwyd gan Senedd y DU mewn deddfwriaeth. Er hynny, yn gywir, hawl a chyfrifoldeb Senedd y DU yw amlinellu’r amodau sy’n helpu i ddiffinio’r lefel risg y mae’n rhaid i garcharor ei dangos er mwyn diogelu’r cyhoedd, a hawl a chyfrifoldeb y llywodraeth yw sicrhau bod y risg honno’n cael ei bodloni. Er na fydd ffocws y prawf rhyddhau yn newid, bydd yn cael ei addasu i ymhelaethu’n fanylach ar ei bwrpas gwreiddiol – diogelu’r cyhoedd – a symud oddi wrth y dull ymarfer cydbwyso a fynegwyd gan y llysoedd. Bydd y diwygiadau hyn yn ei gwneud yn gwbl glir yr hyn y mae Senedd y DU yn ei olygu gan diogelu’r cyhoedd ac y bydd hyn wrth wraidd yr holl benderfyniadau parôl.

77. Bydd rhestr o feini prawf penodol, statudol y mae’n rhaid i’r Bwrdd eu hystyried fel rhan o’r prawf rhyddhau:
    - natur a difrifoldeb y drosedd sy’n gysylltiedig â’r ddedfryd o garchar y mae’r troseddwr yn ei bwrw;
    - unrhyw drosedd y cafwyd y troseddwr yn euog ohoni ar wahân i’r drosedd sy’n gysylltiedig â’r ddedfryd o garchar y mae’n ei bwrw;
    - ymddygiad y troseddwr wrth fwrw’r ddedfryd o garchar;
    - ymddygiad y troseddwr yn y gymuned wrth fwrw ei ddedfryd, a hynny ar drwydded, gan gynnwys Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL), neu fel arall;
    - y risg o’r troseddwr yn troseddu ar ôl ei ryddhau;
    - y risg o’r troseddwr yn peidio â chydymffurfio ag unrhyw amod sy’n gysylltiedig â’i ryddhau ar drwydded;
    - unrhyw driniaeth, addysg neu hyfforddiant mae’r troseddwr wedi’u cael, neu raglenni mae wedi cymryd rhan ynddynt, wrth fwrw’r ddedfryd o garchar;
    - unrhyw sylwadau a wnaed gan neu ar ran y troseddwr;
    - unrhyw sylwadau a wnaed gan neu ar ran y dioddefwr perthnasol.

78. Bwriad y meini prawf penodol hyn yw cael gwared ar unrhyw amwysedd yn y prawf rhyddhau a’r ffactorau y mae’n rhaid i’r Bwrdd eu hystyried. Bydd y prawf hwn yn berthnasol i’r holl droseddwyr sy’n cael eu hadolygu gan y Bwrdd Parôl er mwyn sicrhau cysondeb drwy’r system i gyd.

[7] *R v Parole Board, ex p. Watson* [1996] 1 WLR 906

## 'Yr haen uchaf' o'r troseddwyr risg uchaf

79. Canfu'r adolygiad fod y system parôl, yn gyffredinol, yn gweithio'n rhesymol dda yn y rhan fwyaf o achosion a bod y rhan fwyaf o'i benderfyniadau'n rhai amhroblematig (gweler Rhan 3 o'r adolygiad hwn). Roedd y gyfradd Troseddu Pellach Difrifol ymysg troseddwyr wedi'u rhyddhau gan y Bwrdd yn llai nag 1% yn 2020/21.[8] Fodd bynnag, mae nifer isel o achosion wedi dangos bod angen mesurau diogelu mwy llym ar gyfer rhyddhau rhai carcharorion. Mae'n glir bod rhai troseddwyr yn peri risg uwch i'r cyhoedd o ganlyniad i ddifrifoldeb eu troseddau, a dylid ystyried rhyddhau'r troseddwyr hyn yn fwy gofalus byth. Ar yr achosion hyn y mae angen craffu ymhellach i sicrhau bod dull rhagofalus yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried eu rhyddhau.

80. Rydym yn bwriadu diffinio'r garfan haen uchaf hon o droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer parôl drwy gyfeirio at droseddau penodol. Y troseddwyr dan sylw fydd y rhai sydd wedi troseddu o dan y categorïau canlynol: Llofruddio, Treisio, Achosi neu Ganiatáu marwolaeth plentyn, a throseddau Terfysgaeth neu sy'n gysylltiedig â Therfysgaeth.

81. Mae'r diwygiadau llawn i'r broses ryddhau a'r craffu pellach ar gyfer y troseddwyr hyn wedi'u hamlinellu isod.

## Rôl Weinidogol yn y broses gwneud penderfyniadau: Y Bwrdd Parôl yn cyfeirio penderfyniadau at yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Pŵer i Wrthod

82. Fel y nodir uchod, dim ond i'r 'haen uchaf' hon o droseddwyr sydd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol y bydd y diwygiadau i roi dull mwy rhagofalus ar waith yn berthnasol. Bydd y diwygiadau hyn yn cyflwyno pwerau Gweinidogol newydd i'r broses rhyddhau ar barôl. Byddant yn sicrhau bod y system mor gadarn â phosibl i ddiogelu pobl a'i bod yn system y gall y cyhoedd a dioddefwyr ymddiried ynddi.

83. Bydd y llywodraeth yn cyflwyno pŵer adolygu newydd i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gymryd rhan yn y penderfyniad ynghylch rhyddhau ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth yn y garfan haen uchaf hon mewn amgylchiadau penodol, gan sicrhau bod system adolygu ar sail yr egwyddor ragofalus o ddiogelu'r cyhoedd wedi'i hymgorffori yn y gyfraith. Ar gyfer yr achosion hyn, bydd gan y Bwrdd Parôl hawl i gyfeirio'r penderfyniad ynghylch rhyddhau at yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn galluogi Gweinidogion i gymryd rhan yn y penderfyniad.

---

8 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

84. Mae dwy ffordd ar wahân y gallai'r adolygiad hwn gan Weinidogion fod yn gymwys. Bydd yn gymwys pan na all y Bwrdd Parôl ddweud yn hyderus bod y prawf rhyddhau wedi'i basio ac, ar wahân, mewn unrhyw achos lle mae'r Bwrdd Parôl yn rhoi cyfarwyddyd i ryddhau un o'r troseddwyr 'haen uchaf'. Yn y naill amgylchiad neu'r llall, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu adolygu a gwrthod y penderfyniad hwn i ryddhau. Ar hyn o bryd, yn y categori cyntaf hwnnw o achosion, fel yr amlinellir ym mharagraff 67, caiff y Bwrdd naill ai roi cyfarwyddyd i ryddhau carcharor neu gyhoeddi penderfyniad nad yw'r carcharor yn addas i'w ryddhau oherwydd nad yw'r prawf rhyddhau wedi'i basio. Byddai'r newid arfaethedig yn cyflwyno cymal 'amod', gan ragnodi os na gall y Bwrdd Parôl ddweud yn hyderus bod y prawf rhyddhau wedi'i basio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, bod yn rhaid iddo ddefnyddio dull rhagofalus a naill ai roi cyfarwyddyd i'r troseddwr aros yn y carchar (fel y gall wneud ar hyn o bryd) neu gyfeirio'r achos at yr Ysgrifennydd Gwladol.

85. Wrth gymhwyso'r egwyddor ragofalus, mae dau fodel posibl ar gyfer gweithredu'r adolygiad Gweinidogol o benderfyniadau ynghylch rhyddhau'r haen uchaf o droseddwyr (fel yr amlinellir ym mharagraff 84 uchod). Yr opsiwn cyntaf yw rôl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y penderfyniad yn bersonol. Mewn achosion lle mae'r Bwrdd yn dod i'r casgliad bod y prawf rhyddhau *wedi'i* basio ar gyfer achos yn y garfan 'haen uchaf', ac felly y dylid rhyddhau'r carcharor, byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i adolygu a gwrthod y penderfyniad hwn. Byddai'r penderfyniad i ryddhau yn cael ei wrthod ar y sail bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn anghytuno â'r Bwrdd o ran a yw'r prawf rhyddhau wedi'i basio.

86. Byddai swyddogion Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn adolygu pob achos sy'n gymwys i gael ei wrthod gan Weinidogion i asesu a oes arno angen goruchwyliaeth Weinidogol.

87. Byddai'r pwerau newydd hyn yn cyflwyno rhywfaint o oruchwyliaeth weithredol i'r broses rhyddhau ar barôl, gan ganiatáu i Weinidogion wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau pan fydd y Bwrdd Parôl yn gofyn iddynt wneud hynny, neu wrthod penderfyniadau y Bwrdd Parôl ynghylch rhyddhau pan fyddant yn credu bod y carcharor yn dal yn peri risg rhy uchel. Ni fydd troseddwyr sy'n bwrw dedfryd am unrhyw drosedd arall yn ddarostyngedig i'r broses hon.

88. Byddai angen cyflwyno llwybr apelio newydd ar gyfer yr opsiwn hwn. Oherwydd y ddeddfwriaeth sy'n rheoli sut mae'r Bwrdd Parôl yn gweithredu ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd system benodol ar gyfer apelio i gorff barnwrol uwch. Yn hytrach, mae penderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu herio ar hyn o bryd drwy gyfuniad o'r 'system ailystyried' ac Adolygiad Barnwrol, fel yr amlinellir ym mharagraffau 68-69. Roedd yr adolygiad hwn wedi ystyried y dull gorau o ffurfioli ac optimeiddio'r ffordd o herio penderfyniadau; a sut gallai llwybr apelio newydd i uwch lys neu dribiwnlys weithredu, gan gefnogi'r broses o gynyddu hyder y cyhoedd yng nghadernid proses

gwneud penderfyniadau'r Bwrdd ar yr un pryd. Byddai'r llwybr apelio ffurfiol hwn hefyd yn darparu llwybr a sail dros apelio penderfyniadau Gweinidogol, fel rhan o'r diwygiadau a nodir uchod, yn ogystal â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl.

89. Yn ystod yr adolygiad roeddem wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid y system i archwilio sut mae'r broses bresennol o herio penderfyniadau parôl drwy'r system ailystyried yn gweithio. Caiff hyn ei drafod yn fanwl ym Mhennod 6 (paragraffau 201-214) a daethpwyd i'r casgliad bod ailystyried yn gweithio'n dda i ryw raddau ond y gallai elwa ar broses fwy ffurfiol, ac rydym wedi pennu y byddai adeiladu ar hyn i greu system gryfach sy'n gweithio'n well o fudd mwy i'r holl bartïon dan sylw, o'i chymharu â'r broses Adolygiad Barnwrol bresennol.

90. O dan yr opsiwn hwn, byddem felly'n sefydlu llwybr apelio newydd i'r Uwch Dribiwnlys. I herio penderfyniad y Bwrdd Parôl, bydd yn rhaid i garcharorion a'r Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio'r llwybr apelio hwn yn lle Adolygiad Barnwrol. Yn yr un modd, bydd yn rhaid i garcharorion ddefnyddio'r llwybr apelio hwn i herio penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'r apêl yn cael ei gwneud i un o siambrau'r Uwch Dribiwnlys. Y siambr fwyaf tebygol yw'r Siambr Apeliadau Gweinyddol, gan fod honno'n delio ag apeliadau mewn achosion iechyd meddwl o Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ar hyn o bryd. Y sail dros yr apêl hon fydd gwall ar bwynt cyfreithiol, gan ddefnyddio'r seiliau dros Adolygiad Barnwrol sef *afresymoldeb, annhegwch gweithdrefnol neu anghyfreithlondeb*, a gwall ffeithiol.

91. Os bydd yr Uwch Dribiwnlys yn ystyried bod y sail dros apelio wedi'i bodloni, byddai ganddo hawl i wrthod y penderfyniad a'i ddychwelyd i'r sawl a wnaeth y penderfyniad cyntaf (y Bwrdd Parôl neu'r Ysgrifennydd Gwladol), gan fynnu eu bod yn gwneud y penderfyniad eto neu'n rhoi gorchymyn uniongyrchol i ryddhau'r carcharor. Rydym yn fodlon bod hyn yn gymesur ac y byddai'n galluogi llwybr apelio syml, annibynnol.

92. Yr ail opsiwn i ymgorffori'r dull rhagofalus hwn yn yr achosion haen uchaf hyn fyddai sefydlu panel adolygu annibynnol newydd yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol a dau aelod annibynnol arall o'r panel, a fyddai'n ystyried y cyfeiriad ac yn penderfynu ar yr achos. Mewn achosion lle mae'r Bwrdd yn dod i'r casgliad bod y prawf rhyddhau *wedi'i* basio ar gyfer achos yn y garfan "haen uchaf", ac felly y dylid rhyddhau'r carcharor, byddai gan y panel adolygu y pŵer i adolygu a gwrthod y penderfyniad hwn. Yn yr un modd â'r opsiwn cyntaf, byddai'r penderfyniad i ryddhau yn cael ei wrthod mewn achosion lle mae'r panel yn anghytuno â'r Bwrdd ac yn dod i'r casgliad nad yw'r prawf statudol wedi'i basio. Byddai creu panel i gyflawni swyddogaeth annibynnol, debyg i lys, yn cael gwared ar yr angen i greu system apelio ar wahân, newydd i'r Uwch Dribiwnlys.

93. Os bydd y carcharor yn credu bod penderfyniad y panel adolygu yn wallus, gallai ddwyn Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys o benderfyniadau’r panel yn y ffordd arferol.

## Cynrychiolaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gwrandawiadau parôl

94. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r Bwrdd Parôl yn cynnal gwrandawiad llafar i ganfod risg y carcharor ac a yw’n addas ei ryddhau ar drwydded. Caiff y panel wedyn holi’r rhai sy’n bresennol, yn benodol y carcharor a’r gweithwyr proffesiynol sydd wedi cynhyrchu adroddiadau ar gyfer y gwrandawiad, fel swyddogion prawf a seicolegwyr yn aml, er mwyn dod i gasgliad.

95. Ar wahân i’r rhai sydd wedi ysgrifennu adroddiadau, mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi’i gynrychioli mewn gwrandawiadau achosion uchel eu proffil neu gymhleth, a hynny yn y ffyrdd canlynol:
    - “Cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol” (swyddog prawf hynod brofiadol) ar gyfer adolygiadau o achosion uchel eu proffil a chymhleth, yn ogystal â’r holl achosion sy’n cynnwys troseddwyr terfysgaeth.
    - mewn rhai achosion cymhleth cyfreithiol, caiff y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddefnyddio Cwnsler i wneud sylwadau ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.

96. Ar hyn o bryd, nid yw’r Cynrychiolwyr yn cynnig barn ar a ddylid rhyddhau’r carcharor neu ei symud i amodau agored. Yn hytrach, mae’r Cynrychiolydd yn pwyso am ofal ar banel y Bwrdd Parôl, gan dynnu eu sylw at agweddau ar risg y carcharor lle mae angen sicrwydd na fyddai’r cyhoedd yn wynebu risg ormodol pe bai’r carcharor yn cael ei ryddhau. Mae’r Cynrychiolydd yn cyflwyno sylwadau i’r gwrandawiad llafar ac yn bresennol ynddo er mwyn ateb cwestiynau gan aelodau o’r panel.

97. Yng ngoleuni’r diwygiadau sydd wedi’u dylunio i gyflwyno dull rhagofalus i achosion haen uchaf, o dan y cynigion newydd bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gynrychiolydd neu bydd yn defnyddio cwnsler ym mhob achos haen uchaf (gweler paragraffau 79-81) pan fydd Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM yn gwrthwynebu rhyddhau. Bydd hyn yn cryfhau argymhelliad yr aelod o’r Gwasanaeth sydd wedi ysgrifennu’r adroddiad ac yn cryfhau’r dull rhagofalus i’w ddefnyddio yn yr achosion haen uchaf hyn, gan bwysleisio bod yn rhaid i ddiogelwch y cyhoedd fod wrth wraidd asesiadau risg parôl.

98. Ar gyfer y dyfodol, rydym yn datblygu model lle bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyflwyno un farn i’r Panel. Mae dau barti i weithdrefnau parôl – yr Ysgrifennydd

Gwladol a'r carcharor. Byddai barn yr Ysgrifennydd Gwladol yn adlewyrchu'r asesiadau a wnaed gan swyddogion prawf a seicolegwyr, ac yn cyflwyno un farn ar a yw'n ddiogel rhyddhau'r carcharor ai peidio.

## Galw'n ôl

99. Mae gan y Bwrdd Parôl rôl asesu risg a gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â phenderfyniadau galw'n ôl hefyd. Pan fydd carcharorion yn cael eu rhyddhau cyn diwedd hyd llawn eu dedfryd, maen nhw'n treulio gweddill eu dedfryd o dan amodau trwydded yn y gymuned, ac mae'r rhai â dedfryd oes sy'n cael eu rhyddhau yn aros ar drwydded bob amser. Os bydd y troseddwr yn torri'r amodau hyn, gellir eu 'galw'n ôl' i'r carchar. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei wneud gan yr Adran Gwaith Achos Amddiffyn y Cyhoedd (PPCS) ar ôl cael argymhellion gan y Gwasanaeth Prawf.

100. Yn ogystal â chael eu hailryddhau yn ôl disgresiwn y Bwrdd Parôl, gall rhai troseddwyr (ond nid carcharorion â dedfryd amhenodol) gael eu hailryddhau'n weithredol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn ymarferol, caiff hyn ei wneud gan y PPCS sy'n defnyddio prawf diogelu'r cyhoedd tebyg i'r un a ddefnyddir gan y Bwrdd Parôl wrth benderfynu a ellid rheoli'r troseddwr wedi'i alw'n ôl yn ddiogel yn y gymuned ar drwydded. Mae penderfyniadau ynghylch galw'n ôl yn cyfrif am gyfran fawr o lwyth achosion y Bwrdd Parôl, gan ddefnyddio amser ac adnoddau sylweddol, ac felly mae'r adolygiad hwn wedi ystyried sut mae'r broses hon yn gweithio a lle mae angen gwella o bosibl.

### Y penderfyniad cyntaf ynghylch galw'n ôl

101. Archwiliodd yr adolygiad a ddylai'r Bwrdd fod yn rhan o'r penderfyniad cyntaf ynghylch galw'n ôl, yn hytrach na'i asesu ar ôl y weithred. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu y byddai hyn yn fwy effeithiol o bosibl, gan ei fod yn cael gwared ar y broses 'dau gam' bresennol lle mae'r PPCS yn gwneud y penderfyniad cyntaf a'r Bwrdd yn ei adolygu. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith fod yn rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf ynghylch galw'n ôl yn gyflym er mwyn diogelu'r cyhoedd yn effeithiol. Mae hyn yn bosibl drwy wasanaeth galw'n ôl 24/7 y PPCS. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y broses bresennol hon ar gyfer y penderfyniadau cyntaf yn aneffeithiol; mae adolygiadau thematig blaenorol gan Arolygiaeth Carchardai EM a'r PPCS wedi dod i'r casgliad bod y troseddwyr cywir yn cael eu galw'n ôl am resymau dilys mewn cysylltiad â diogelu'r cyhoedd. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai'r PPCS barhau i wneud y penderfyniad cyntaf hwn er mwyn caniatáu i benderfyniadau uniongyrchol i ddiogelu'r cyhoedd gael eu gwneud mor gyflym â phosibl.

### Y math o achosion i'w cyfeirio

102. Roedd yr adolygiad hefyd wedi ystyried y mathau o achosion lle mae'n fuddiol ac yn angenrheidiol i'r Bwrdd Parôl adolygu carcharor sydd wedi'i alw'n ôl. Yn benodol, codwyd cwestiynau o ran a ddylai'r Bwrdd Parôl barhau i adolygu troseddwyr â Dedfryd Benodol Safonol (SDS) sy'n cael eu galw'n ôl, gan gofio nad ydynt yn cael eu hystyried yn droseddwyr 'peryglus' fel arfer ac nad yw eu rhyddhau'n wreiddiol yn fater i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r troseddwyr hyn wedi cael eu hasesu fel risg o ganlyniad i'r ymddygiad a oedd wedi arwain at eu galw'n ôl, ac felly mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad eu bod yn elwa ar oruchwyliaeth y Bwrdd Parôl ac y dylai'r Bwrdd barhau i'w hadolygu.

### Gweithredu dwy system ailryddhau

103. O dan y system bresennol, gellir rhyddhau carcharorion safonol sydd wedi'u galw'n ôl naill ai yn ôl disgresiwn y Bwrdd Parôl neu drwy system ailryddhau gweithredol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bwriad ailryddhau gweithredol oedd cyflymu'r broses o ryddhau carcharorion â dedfryd benodol sydd wedi'u galw'n ôl, gan ddefnyddio'r un meini prawf diogelwch y cyhoedd â'r Bwrdd. Mynegodd y Bwrdd Parôl nifer o bryderon ynglŷn â gweithredu'r ddwy system, yn ogystal â'r oedi a'r dyblygu y mae'r systemau cyfochrog hyn yn gallu eu hachosi.

### Gwella'r model ar gyfer adolygu achosion galw'n ôl safonol

104. Y prif bryder a fynegwyd gan randdeiliaid oedd yr amser mae'n ei gymryd i'r Bwrdd Parôl adolygu achosion galw'n ôl safonol. Y gofyniad yw cyfeirio achosion cyn pen 28 diwrnod ar ôl i'r carcharor ddychwelyd i'r ddalfa, gan godi disgwyliadau y bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad gan y Bwrdd Parôl ei hun yn cymryd hirach o lawer yn y rhan fwyaf o achosion gan fod angen ffeil lawn o dystiolaeth, ac mae'r amserlenni cyfyngedig yn effeithio ar ansawdd y ffeil hon yn aml. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cynnal treial ar hyn o bryd, wedi'i gefnogi gan y Bwrdd Parôl, i roi rhagor o amser i'r Gwasanaeth Prawf gynhyrchu ei adroddiadau galw'n ôl yn y gobaith y bydd hyn yn gwella eu hansawdd. Dechreuodd y treial ym mis Mawrth 2021 ac mae disgwyl iddo bara am 6 mis. Mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylid gwneud rhagor o waith i symleiddio'r broses galw'n ôl safonol.

### Y camau nesaf

105. Er bod yr adolygiad hwn wedi nodi ac archwilio rhai o'r prif broblemau sy'n gysylltiedig â rheoli achosion galw'n ôl, mae hwn yn faes cymhleth ac mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall y ffordd orau i wella prosesau galw'n ôl. Canfu'r adolygiad fod angen goruchwyliaeth weithredol a gwaith ar y cyd, nad yw'r adolygiad hwn yn y sefyllfa orau i'w cyflawni, ar y problemau a nodir uchod mewn cysylltiad â mathau o achosion, ailryddhau gweithredol ac adolygu achosion galw'n ôl. Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai'n well archwilio'r rhain ar lefel weithredol system gyfan, rhwng y Bwrdd Parôl a'r PPCS, ac yn argymell bod Grŵp Goruchwylio'r System Parôl

(Pennod 7, paragraffau 262-267) yn mynd ati i archwilio achosion oedi a dyblygu o'r fath i greu atebion posibl i'r problemau sy'n gysylltiedig â galw'n ôl.

106. Hefyd bydd angen i'r Bwrdd Parôl ddefnyddio'r prawf rhyddhau statudol wedi'i ehangu (paragraff 76) wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau'r rhai sydd wedi'u galw'n ôl, gan atgyfnerthu'r pwyslais ar ddiogelu'r cyhoedd drwy gydol y broses parôl, nid dim ond yn y cam rhyddhau cyntaf.

## Amodau agored

107. Fel rhan o rôl asesu risg y Bwrdd Parôl, mae hefyd yn asesu a yw carcharorion â dedfryd Oes neu Garcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd yn addas i symud i amodau agored, naill ai o adolygiad cyn tariff (os yw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn pennu eu bod yn addas) neu pan fyddant yn cael eu hasesu ar gyfer eu rhyddhau. Mae'r newid hwn yn ran allweddol o gynnydd taith carcharor yn ystod ei ddedfryd, ond mae'n rhaid i ddiogelwch y cyhoedd barhau i fod wrth wraidd y penderfyniad i symud i amodau agored a chael ei ystyried yng ngham hwn y broses parôl hefyd.

108. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu ceisio 'cyngor' gan y Bwrdd Parôl mewn cysylltiad ag asesu addasrwydd carcharor ar gyfer ei drosglwyddo i amodau agored, nid oes rhaid iddo wneud hynny. Pan fydd y mater o symud i amodau agored yn cael ei ystyried yn y gwrandawiad parôl wrth ystyried rhyddhau, mae'r wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd yn cyrraedd yr un safon, gan gynnwys adroddiadau gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM. Mae'r Bwrdd Parôl yn defnyddio hyn i asesu'r risg cyn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol o ran a yw'n credu ei bod yn ddiogel symud y carcharor i amodau agored ai peidio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ymarferol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae argymhellion y Bwrdd Parôl yn cael eu derbyn ym mwyafrif helaeth yr achosion.

109. Mae amodau agored wedi bod o fudd i rai carcharorion â dedfryd oes ac amhenodol, yn enwedig ar ôl cyfnod hirach o garchariad mewn amodau caeedig, drwy eu helpu i ymgyfarwyddo â bywyd yn y gymuned, gan gynnwys drwy ryddhau ar drwydded dros dro. Hefyd, mewn rhai achosion, gall tystiolaeth o gyfnod carcharor mewn amodau agored ddarparu tystiolaeth bwysig i ddylanwadu ar asesiad y Bwrdd Parôl o ran a ellir rhyddhau'r carcharor ar drwydded yn ddiogel. Fodd bynnag, mae hyder y cyhoedd mewn carchardai agored yn cael ei andwyo pan fydd carcharor â dedfryd Oes neu Garcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd yn dianc. Er bod nifer yr achosion o ddianc wedi lleihau o 361 yn 2009 i 101 yn 2021,[9] mae angen gwella'r system o

[9] Crynodeb Blynyddol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Ebrill 2020 i Fawrth 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

hyd i leihau'r nifer hwn ymhellach. Felly, rydym wedi edrych o'r newydd ar sut rydym yn asesu risg ac addasrwydd ar gyfer symud i garchar agored.

110. Fel y mae'r adolygiad hwn wedi nodi, y rhai sydd wedi cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol y mae angen craffu ymhellach arnynt yn y broses parôl. Mae hyn yn berthnasol nid yn unig i benderfyniadau ynghylch rhyddhau ond hefyd i argymhellion i drosglwyddo carcharor i garchar agored. Drwy adolygu'r broses bresennol, mae'r llywodraeth yn credu y dylai gweinidogion graffu ymhellach ar unrhyw argymhellion i symud carcharorion â dedfryd amhenodol (wedi'i esbonio yn Atodiad B) i amodau agored yn y categorïau canlynol. Sef: achosion lle mae'r troseddwr wedi llofruddio; lladdiad arall; treisio; troseddau rhywiol difrifol neu greulondeb tuag at blentyn.

111. Bydd goruchwyliaeth weinidogol uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch symud troseddwyr yn y categorïau uchod i amodau agored. Bydd y craffu ehangach hwn yn creu system parôl gryfach, gan sicrhau ymhellach bod y cyhoedd yn ddiogel.

# Pennod 2: Cyfansoddiad y Bwrdd Parôl

| CRYNODEB |
|---|
| **Bydd y Bwrdd Parôl yn dal yn** Gorff Hyd Braich **y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**<br><br>**Bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei newid i gynnwys** gorfodi'r gyfraith fel cefndir proffesiynol penodol **i aelodau o'r Bwrdd Parôl.**<br><br>**Mae'r Bwrdd Parôl yn bwriadu** lansio ymgyrch recriwtio **i gynyddu nifer yr aelodau â phrofiad mewn gorfodi'r gyfraith.** |

## Cyflwyniad

112. Er mwyn i'r cyhoedd fod yn hyderus bod y Bwrdd Parôl yn gwneud y penderfyniadau cywir, mae'n briodol bod yr adolygiad hwn wedi ystyried cyfansoddiad y Bwrdd i sicrhau ei fod yn gallu gwneud hynny.

113. Rydym wedi dod i'r casgliad mai cadw'r Bwrdd Parôl fel Corff Hyd Braich y Weinyddiaeth Gyfiawnder yw cyfansoddiad mwyaf priodol y Bwrdd o hyd. Gellir gwneud y newidiadau eraill gan gadw cyfansoddiad y Bwrdd fel y mae.

114. Fodd bynnag, byddwn yn newid cyfansoddiad aelodaeth y Bwrdd ochr yn ochr â'r diwygiadau arfaethedig eraill. Mae aelodaeth y Bwrdd yn rhan hollbwysig o'i broses gwneud penderfyniadau ac felly roeddem wedi ystyried a yw'r darpariaethau statudol cyfredol sy'n nodi cefndiroedd proffesiynol ar gyfer aelodau o'r Bwrdd yn ddigon eang i ddarparu dealltwriaeth lawn o droseddu difrifol. Byddwn yn ehangu'r rhestr statudol i gynnwys gofyniad i'r aelodaeth gynnwys unigolion â phrofiad mewn gorfodi'r gyfraith ac yn cyflwyno pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu cyfansoddiad paneli a gaiff eu defnyddio mewn achosion y garfan haen uchaf (gweler Pennod 1).

## Cadw'r cyfansoddiad fel y mae

115. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn gwestiwn sydd wedi codi nifer o weithiau dros y blynyddoedd. Roeddem wedi archwilio a yw cyfansoddiad presennol y Bwrdd Parôl, fel Corff Hyd Braich y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer y rôl mae'n ei gyflawni fel corff sy'n gwneud penderfyniadau yn bennaf. Fel y nodwyd yn yr Adolygiad Pwrpasol (2020), dylai cyfansoddiad y Bwrdd fod yn un sy'n ei alluogi

orau i gyflawni ei rôl yn effeithlon ac yn effeithiol. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol wedi archwilio'r cwestiwn hwn am ei gyfansoddiad ond ni ddaeth i gasgliad pendant. Cafodd hynny ei gyfeirio at yr adolygiad hwn, sydd wedi ystyried modelau posibl eraill.

116. Y prif ddewis arall ar wahân i'r Bwrdd yn parhau i fod yn Gorff Hyd Braich yr oedd yr adolygiad wedi'i archwilio oedd a ddylid ei ailgyfansoddi yn Dribiwnlys Corff Cyhoeddus Anadrannol. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r diwygiadau sylweddol eraill yr ydym yn bwriadu eu gwneud i broses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl (fel y nodir ym Mhennod 3), daethom i'r casgliad y byddai'r system parôl yn elwa o gadw'r Bwrdd yn Gorff Hyd Braich. Nid oes achos cryf dros newid cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd.

117. Mae cadw'r Bwrdd yn Gorff Hyd Braich hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw goruchwylio'r Bwrdd Parôl a'i broses gwneud penderfyniadau, yn unol â'r diwygiadau eraill a gynigir yn yr adolygiad hwn, i alluogi'r Bwrdd i gydweithio'n well â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y prosesau mwyaf cadarn ar waith i ddiogelu'r cyhoedd. Hefyd, er bod y Bwrdd Parôl yn gwneud ei benderfyniadau'n annibynnol, mae'r ffaith ei fod yn cael ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn golygu ei fod yn cael ei ariannu gan y Weinyddiaeth a'i fod yn atebol yn y pen draw i Senedd y DU. Bydd cadw'r Bwrdd yn Gorff Hyd Braich yn cadw'r lefel hon o atebolrwydd a chraffu, ac felly'n cynnal hyder y cyhoedd bod y Bwrdd yn cyflawni ei rôl.

118. Ac ystyried y diwygiadau sylweddol eraill a gynigir, byddai ailgyfansoddi ar hyn o bryd yn creu cynnwrf diangen ac yn cael gwared ar y lefel o bartneriaeth ac atebolrwydd sydd eu hangen i ddiwygio'r system parôl yn llwyddiannus.

## Aelodaeth y Bwrdd Parôl

119. Aelodau'r Bwrdd Parôl yw'r unigolion sy'n ffurfio'r paneli parôl ac sy'n gyfrifol am gynhyrchu asesiadau risg, a gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau. Maen nhw'n cael eu penodi'n gyhoeddus ac yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Fel yr amlinellir mewn deddfwriaeth, 'Rhaid i'r Bwrdd gynnwys ymysg ei aelodau:

- person sy'n dal neu wedi dal swydd farnwrol;
- ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n seiciatrydd;
- person sy'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol bod ganddo wybodaeth a phrofiad o oruchwyliaeth neu ôl-ofal ar garcharorion wedi'u rhyddhau;
- person sy'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol ei fod wedi astudio achosion drwgweithredu neu driniaeth troseddwyr.'

120. Mae amrywiaeth o gefndiroedd, profiadau ac arbenigedd o bob rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol yn bwysig er mwyn cael ystod eang o safbwyntiau, a sicrhau gweithio agosach a system fwy effeithlon.

121. Fodd bynnag, dim ond 5% o aelodau'r Bwrdd Parôl sydd â phrofiad o weithio ym maes gorfodi'r gyfraith, fel swyddogion heddlu.[10] Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd Parôl yn mynnu cael y cefndir hwn ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu mai dim ond cyfran isel o baneli sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau sydd ag aelodau o'r fath. Gall y profiad rheng flaen hwn gynnig safbwynt gwahanol ar droseddu a throseddwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol, felly bydd recriwtio rhagor o aelodau â'r profiad hwn i'r Bwrdd Parôl yn ychwanegu at y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad y mae'r aelodaeth bresennol yn eu cyfrannu at y Bwrdd. Byddwn felly'n newid y gyfraith i ychwanegu pobl â phrofiad mewn gorfodi'r gyfraith fel un o'r mathau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl ei gynnwys ymysg ei aelodau. Bydd y newid hwn yn galluogi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i redeg ymgyrchoedd wedi'u targedu, ar ran Gweinidogion, i benodi nifer digonol o aelodau â'r profiad hwn er mwyn bodloni gofynion y fframwaith statudol.

122. Yn ogystal â hynny, byddwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i bennu bod yn rhaid i aelodau â phrofiad penodol eistedd ar baneli sy'n delio â charcharorion sydd wedi cyflawni troseddau penodol. Mae'r llywodraeth yn bwriadu mynnu presenoldeb aelod â phrofiad mewn gorfodi'r gyfraith ar y paneli sy'n adolygu achosion carcharorion yn y garfan haen uchaf (a amlinellir ym mharagraffau 79-81) i helpu'r panel i gynhyrchu asesiad risg ac i wneud penderfyniad, gan ddefnyddio eu dealltwriaeth rheng flaen unigryw drwy ddelio â throseddwyr yn y gymuned.

123. Caiff ymgyrch ar gyfer rhagor o aelodau annibynnol o'r Bwrdd Parôl ei chynnal yn nes ymlaen yn 2022. Bydd yr ymgyrch hon yn cynnwys gwaith estyn braich i bobl â phrofiad mewn gorfodi'r gyfraith.

### Pwerau

124. Mae'r adolygiad hwn hefyd wedi archwilio a oes angen pwerau ychwanegol ar y Bwrdd Parôl, gan ei gadw'n Gorff Hyd Braich, i'w alluogi i gyflawni ei rôl yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn benodol, a oes angen pwerau pellach i reoli gwrandawiadau cyhoeddus yn effeithiol (rhagor o fanylion ym Mhennod 2), ac i gynyddu effeithlonrwydd a chydymffurfedd â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Parôl am dystiolaeth.

125. Holodd yr adolygiad amryw o randdeiliaid ynghylch manteision ac anfanteision posibl rhoi rhagor o bwerau i'r Bwrdd. Er bod yr adborth yn dangos y gallai rhagor o allu i orfodi cyfarwyddiadau arwain at well cydymffurfedd â chyfarwyddiadau, roedd rhanddeiliaid eraill yn credu y gallai hyn arwain at ragor o densiwn yn y system ac yn

[10] Aelodaeth y Bwrdd Parôl 2020-21

hytrach y dylai partïon yn y system barhau i gydweithio i wella'r cydymffurfedd ag achosion.

126. Rydym felly wedi dod i'r casgliad bod y swyddogaethau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Bwrdd Parôl i weithredu fel Corff Hyd Braich a'r mesurau newydd ynghylch gwrandawiadau cyhoeddus i weithio'n dda. Mae angen caniatáu amser i wreiddio'r newid mawr i'r model rhyddhau yn y broses parôl cyn gwneud newidiadau pellach.

# RHAN 2: Dioddefwyr a thryloywder

127. Gall y broses parôl effeithio'n ddwfn ar ddioddefwyr. Mae Datganiad Personol y Dioddefwr yn gyfle pwysig i'r dioddefwr esbonio effaith barhaus y drosedd. Mae sefydliadau dioddefwyr wedi dweud wrthym fod cyfranogiad yn y broses parôl yr un mor bwysig â chyfranogiad ym mhroses y llys adeg dedfrydu. Mae'r llywodraeth yn cydnabod hyn ac wedi ymrwymo nid yn unig i wella atebolrwydd ond hefyd i alluogi dioddefwyr i fynychu gwrandawiadau parôl, i ganiatáu i ddioddefwyr gymryd mwy o ran yn y broses parôl.[11]

128. Mae cysylltiad anorfod rhwng tryloywder y system parôl a chyfranogiad dioddefwyr. Nid yw natur y broses parôl a sensitifrwydd y wybodaeth a drafodir yn ddelfrydol ar gyfer tryloywder. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn credu y bydd rhagor o dryloywder nid yn unig yn arwain at brofiad gwell o'r broses parôl i ddioddefwyr, ond hefyd at wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system parôl a'u hyder ynddi.

129. I gyrraedd ei ganfyddiadau, roedd yr adolygiad wedi asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gafodd ei lansio ym mis Hydref 2020. Roedd yr ymgynghoriad yn galw am safbwyntiau ynghylch agor gwrandawiadau parôl i'r cyhoedd mewn amgylchiadau cyfyngedig. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y llywodraeth ei bwriad i gael gwared ar y gofyniad i gynnal pob gwrandawiad yn breifat.[12] Aeth ati hefyd i ymgynghori'n helaeth ag ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol, a sefydliadau trydydd parti, i ddeall beth yw'r canfyddiadau o'r system bresennol ac i nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

130. Ymgynghorwyd ymhellach drwy ymgynghoriad y Bil Dioddefwyr er mwyn asesu beth mwy gellid ei wneud i gynyddu cyfranogiad dioddefwyr yn y system parôl. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad y Bil Dioddefwyr, ond maen nhw hefyd wedi dylanwadu ar ganfyddiadau'r arolwg ynghylch dioddefwyr a thryloywder, fel yr amlinellir yn yr adran ganlynol.

---

[11] Maniffesto'r Blaid Geidwadol 2019 (conservatives.com)

[12] Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl (publishing.service.gov.uk)

# Pennod 3: Gwrandawiadau cyhoeddus a phresenoldeb dioddefwyr

## CRYNODEB

**Bydd Rheolau newydd y Bwrdd Parôl yn ei gwneud yn bosibl cynnal** gwrandawiadau parôl cyhoeddus **mewn rhai achosion.**

**Am y tro cyntaf erioed,** bydd dioddefwyr yn gallu mynychu gwrandawiadau yn llawn a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r Bwrdd Parôl**.**

**Mae’r Bwrdd Parôl yn bwriadu adeiladu ar y crynodebau presennol o benderfyniadau drwy** dreialu llythyr penderfyniad newydd **a fydd yn darparu rhesymau manylach dros benderfyniadau.**

**Mae’r Bwrdd Parôl yn bwriadu parhau â’i** waith cyfathrebu i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd **o’i swyddogaeth, ac archwilio’r posibilrwydd o dudalen we annibynnol.**

## Cyflwyniad

131. Roedd gwella natur agored a thryloywder y system parôl i gynyddu dealltwriaeth a hyder y cyhoedd yn un o brif ystyriaethau’r adolygiad hwn. Cafodd hyn ei arwain gan yr egwyddorion a amlinellir yn y cylch gorchwyl (Atodiad A).

132. Roedd yr adolygiad wedi ystyried y gwaith y mae’r Bwrdd Parôl eisoes wedi’i wneud i weithredu ar yr argymhellion a nodir yn yr Adolygiad Pwrpasol. Mae’r llywodraeth yn croesawu’r cynnydd y mae’r Bwrdd wedi’i wneud yn gwella cyfathrebiadau, tryloywder, addysgu’r cyhoedd a dealltwriaeth y cyhoedd. I osgoi dyblygu, roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y gwaith hwnnw gyda’r nod ychwanegol o wella presenoldeb y cyhoedd (a dioddefwyr) mewn gwrandawiadau.

133. Mae’r bennod hon yn darparu trosolwg o’r newidiadau a fydd yn cael eu gwneud o ganlyniad i’r Adolygiad, ac yn archwilio’r gwaith y mae’r Bwrdd Parôl eisoes wedi’i wneud.

## Gwrandawiadau cyhoeddus

134. Ym mis Hydref 2020, lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad cyhoeddus ar a ddylid cynnal gwrandawiadau parôl yn gyhoeddus mewn amgylchiadau cyfyngedig ac a ddylai dioddefwyr allu eu mynychu fel sylwedyddion. Cafwyd 40 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys y Bwrdd Parôl a'r Comisiynydd Dioddefwyr. Cafodd yr ymatebion hynny eu dadansoddi a chyhoeddwyd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar 7 Chwefror 2021.[13] Daeth yr ymateb i'r casgliad bod y gofyniad cyffredinol am wrandawiadau preifat yn Rheolau'r Bwrdd Parôl yn ddiangen, ac ymrwymwyd i gael gwared arno. Rydym yn credu ei bod yn briodol caniatáu i garcharorion, dioddefwyr neu'r cyhoedd wneud cais am glywed achos yn gyhoeddus. Mae disgwyl y gwneir cais am hynny mewn lleiafrif bach o achosion.

135. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid gwrandawiadau parôl mwy agored, roedd llawer wedi tynnu sylw at y risgiau posibl, gan gynnwys risgiau i ddiogelwch carcharorion a'r posibilrwydd o ail-drawmateiddio dioddefwyr. Yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau y gellir cynnal gwrandawiadau agored yn ddiogel ac yn deg heb gyfyngu ar allu'r Bwrdd Parôl i asesu risg. Roedd yr adolygiad hwn wedi ystyried y ffordd orau o ganiatáu gwrandawiadau cyhoeddus a phresenoldeb dioddefwyr, gan leihau'r effeithiau negyddol posibl ar yr un pryd.

**Ceisiadau**

136. Pan fydd Rheolau diwygiedig y Bwrdd Parôl yn dod i rym bydd unrhyw un, gan gynnwys carcharorion, dioddefwyr a'r cyfryngau, yn gallu gwneud cais i'r Bwrdd Parôl am glywed achos yn gyhoeddus. Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Bwrdd Parôl a bydd gofyn i ymgeiswyr nodi eu rhesymau pam ei bod er budd cyfiawnder clywed yr achos yn gyhoeddus yn lle ei gadw'n breifat.

137. Bydd Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr a Chynrychiolwyr Dioddefwyr arbenigol yr Ysgrifennydd Gwladol ar gael i roi cymorth a chyngor i ddioddefwyr sydd wedi cofrestr ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr. Bydd canllawiau cyhoeddus ar gael ar dudalennau gwe'r Bwrdd Parôl hefyd.

138. Roeddem wedi ystyried a ddylai'r broses o wneud cais am wrandawiad cyhoeddus adlewyrchu'r system ailystyried a chael ei gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar ran y dioddefwr. Rydym wedi penderfynu na ddylai ceisiadau dioddefwyr am wrandawiad cyhoeddus gael eu gwneud drwy'r Ysgrifennydd Gwladol oherwydd, yn wahanol i ailystyried, ni ddylai gofyn am wrandawiad cyhoeddus olygu bod angen cyflwyno dadl gyfreithiol, dechnegol. Hefyd, mae'n bosibl y bydd achosion lle na allai'r Ysgrifennydd Gwladol gefnogi cais dioddefwr, er enghraifft os oes mwy nag un

[13] Adolygiad o'r bôn i'r brig o'r system parôl (publishing.service.gov.uk)

dioddefwr sydd â safbwyntiau croes o bosibl. Mae caniatáu i ddioddefwyr wneud cais yn uniongyrchol i'r Bwrdd hefyd yn sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhydd i wrthwynebu ceisiadau o'r fath pan fo hynny'n ofynnol o dan yr amgylchiadau, er enghraifft pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol angen diogelu yn erbyn datgelu gwybodaeth bwysig am y carcharor.

### Meini prawf a gwneud penderfyniadau

139. Pan fydd y Bwrdd Parôl yn cael cais am wrandawiad cyhoeddus, bydd y carcharor, yr Ysgrifennydd Gwladol ac unrhyw ddioddefwr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr yn cael y cyfle i gyflwyno safbwyntiau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cais cyn i benderfyniad gael ei wneud.

140. Pan fydd safbwyntiau pob parti wedi dod i law, bydd Cadeirydd y Bwrdd Parôl yn penderfynu a fyddai clywed yr achos yn gyhoeddus er budd cyfiawnder ai peidio. Caiff y Bwrdd Parôl benderfynu bod angen gwrandawiad cyhoeddus ar gais yn ôl ei ddisgresiwn ei hun hefyd. Yn yr achosion hyn, bydd y Bwrdd yn gwahodd sylwadau, fel y disgrifir uchod, cyn gwneud penderfyniad terfynol. Er na fydd gan unrhyw un, gan gynnwys dioddefwyr a charcharorion, y gallu llwyr i atal gwrandawiad cyhoeddus mewn unrhyw achos, mae'n annhebygol y byddai'r Bwrdd yn rhoi caniatâd i wrandawiad cyhoeddus os oes tystiolaeth y byddai'n achosi unrhyw drallod emosiynol diangen i'r dioddefwr neu'r carcharor, neu'n effeithio'n andwyol ar allu carcharor i adsefydlu'n ddiogel yn y gymuned.

141. Bydd penderfyniadau'n cael eu darparu'n ysgrifenedig, gyda'r rhesymau. Oherwydd mai Cadeirydd y Bwrdd Parôl fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cynnal gwrandawiad cyhoeddus, ni fydd system apelio weinyddol ar waith. Fodd bynnag, gellir herio penderfyniadau i dderbyn neu wrthod ceisiadau am wrandawiad cyhoeddus drwy adolygiad barnwrol. Gellir newid penderfyniadau ynghylch gwrandawiad cyhoeddus os bydd tystiolaeth neu wybodaeth newydd, berthnasol yn dod i'r amlwg cyn y gwrandawiad.

### Logisteg

142. Mae'r ystyriaeth o ryddhau cleifion iechyd meddwl gan Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yn debyg i broses y Bwrdd Parôl gan ei fod hefyd yn archwilio cwestiynau o risg wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau cleifion sy'n cael eu dal mewn cyfleusterau diogel. Mae rheolau'r Tribiwnlys yn caniatáu ceisiadau am wrandawiad cyhoeddus ond ychydig iawn o gleifion sy'n gwneud cais. Roedd unig wrandawiad cyhoeddus nodedig y Tribiwnlys yn cynnwys Ian Brady, llofrudd y Moors, a gynhaliwyd yn 2013. Cafodd ei wrandawiad ei ddarlledu'n fyw o ysbyty diogel Ashworth i Ganolfan Llysoedd Sifil Manceinion, lle roedd cynrychiolwyr y cyfryngau ac aelodau o'r cyhoedd yn gallu gwylio'r achos. Nid oedd hawl i unrhyw sylwedyddion fod yn bresennol yn yr ysbyty eu hunain. Ar gyfer achosion parôl, cyfrifoldeb y Bwrdd Parôl fydd rheoli logisteg y gwrandawiad i fodloni gofynion ac

anghenion achosion unigol, ond rydym yn disgwyl y byddai gwrandawiad parôl cyhoeddus yn mynd rhagddo mewn ffordd debyg i'r enghraifft uchod. Mae mynychu o bell wedi gweithio'n dda i'r Bwrdd Parôl drwy gydol pandemig COVID-19 ac rydym yn disgwyl i'r rhai sy'n gwylio gwrandawiad cyhoeddus i wneud hynny o bell.

143. Mae nifer o fuddion i fynychu o bell sy'n helpu i gynnal gwrandawiad yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae'n caniatáu i'r Bwrdd Parôl dewi neu oedi'r ffrwd fyw er mwyn clywed tystiolaeth arbennig o sensitif yn breifat, ac mae'n haws atal y rhai sy'n bresennol rhag amharu ar y gwrandawiad. Gallai mynychu o bell hefyd helpu i ddiogelu hunaniaeth rhai unigolion sy'n rhoi tystiolaeth lle pennir bo hynny'n angenrheidiol.

144. Felly, bydd hi'n bosibl gwylio gwrandawiad parôl ar unrhyw ddyfais sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd, ond bydd hyn yn creu risgiau y gallai unigolion gipio a chamddefnyddio delweddau neu glipiau o'r gwrandawiad. Felly mae'n bosibl y bydd y Bwrdd Parôl yn mabwysiadu dull tebyg i'r un a ddefnyddiwyd yn achos Brady, sef mynnu bod mynychwyr yn mynd i leoliad penodol i wylio'r gwrandawiad. Bydd penderfyniadau ar y fformat a'r lleoliad yn cael eu gwneud fesul achos. Cyn pob gwrandawiad cyhoeddus, mae'r Bwrdd yn debygol o gynnal cynhadledd achos gyda'r partïon i benderfynu sut i gynnal y gwrandawiad. Bydd hyn yn gyfle i'r partïon ofyn am gael rhannau penodol o'r dystiolaeth wedi'u rhoi yn breifat neu i dystion penodol roi eu tystiolaeth yn breifat os oes angen, neu fod camau'n cael eu cymryd i osgoi datgelu gwybodaeth bersonol fel enwau neu weithleoedd unigolion.

145. Mae'r llywodraeth a'r Bwrdd Parôl yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y penderfyniad yn anodd ei ddeall os bydd gormod o'r dystiolaeth mewn gwrandawiad cyhoeddus wedi'i chyfyngu, ac y bydd yn tanseilio'r amcan o wella tryloywder. Mae'n bosibl y bydd yn anodd taro cydbwysedd yn hyn o beth ond rhaid blaenoriaethu diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan yn y gwrandawiad. O ganlyniad i newydd-deb gwrandawiadau parôl cyhoeddus, mae'n anodd amcangyfrif yr union alw am glywed achosion yn agored. Bydd y rhan fwyaf o achosion parôl yn dal i gael eu clywed yn breifat ac rydym yn rhag-weld na fydd mwy na thua pum gwrandawiad cyhoeddus bob blwyddyn.

### Mynychu gwrandawiad cyhoeddus

146. Pan fydd y Bwrdd Parôl yn cytuno i gynnal gwrandawiad cyhoeddus, bwriad y Bwrdd yw cyhoeddi manylion y gwrandawiad ar ei wefan a bydd gofyn i'r rhai sy'n dymuno mynychu wneud cais i'r Bwrdd. Bydd gofyn gwneud cais er mwyn gallu cynllunio a rheoli nifer y mynychwyr posibl. Bydd y rhai sy'n mynychu'r gwrandawiad yn gwneud hynny fel sylwedyddion goddefol ac ni fydd ganddynt hawl i ryngweithio â'r panel na'r tystion mewn unrhyw ffordd. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd y panel wedi rhoi caniatâd i'r dioddefwr ddarllen Datganiad Personol y Dioddefwr. Caiff dioddefwyr ofyn am gael darllen eu datganiad yn breifat os yw hynny'n well ganddynt. Bydd diwygiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl yn caniatáu i Gadeirydd y Panel osod amodau ar fynychwyr a'u diarddel o'r gwrandawiad os pennir bod angen gwneud hynny.

147. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod rheolau'r tribiwnlys ar gyfer achosion iechyd meddwl yn sail dda ar gyfer datblygu'r rheolau ar gyfer gwrandawiadau cyhoeddus. Byddwn felly'n copïo rheolau'r tribiwnlys yn bennaf ar gyfer achosion parôl. Bydd diwygiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl yn darparu ar gyfer y canlynol:
- Cynnal gwrandawiadau'n breifat oni bai fod eu cynnal yn gyhoeddus er budd cyfiawnder
- Caiff panel y Bwrdd Parôl gynnal rhannau o wrandawiad cyhoeddus yn breifat er mwyn gallu diogelu tystiolaeth sy'n arbennig o bersonol neu sensitif
- Bydd paneli'n gallu eithrio unrhyw unigolyn y mae'n teimlo ei fod yn amharu; neu y gallai ei bresenoldeb atal tyst rhag siarad yn rhydd; neu er mwyn gweithredu cyfarwyddyd o dan Reol 17 ar hyn o bryd (Dal gwybodaeth neu adroddiadau yn ôl).

148. Bydd y diwygiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl yn dod i rym yn nes ymlaen eleni. Byddant yn cynnwys newidiadau i reolau i weithredu mesurau perthnasol a gyflwynir ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (gweler paragraff 214).

## Presenoldeb dioddefwyr mewn gwrandawiadau (sylwedyddion)

149. Roedd y llywodraeth wedi ymrwymo i gyflwyno mesurau a fydd yn caniatáu i ddioddefwyr arsylwi ar wrandawiadau parôl. Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cytuno y byddai hyn yn gam gadarnhaol, cyhyd â bod y cymorth priodol yn ei le. Yn yr un modd â gwrandawiadau cyhoeddus, mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl ar ddioddefwyr. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y risg o ddioddefwyr yn cael eu haildrawmateiddio drwy fynychu gwrandawiadau a'u gwybodaeth bersonol sensitif ar gael yn gyhoeddus o bosibl.

150. Roedd ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad yn rhoi manylion am sut byddem yn archwilio galluogi dioddefwyr i arsylwi ar wrandawiadau, ar wahân i fesurau ar gyfer presenoldeb y cyhoedd. Mae ein hymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid wedi nodi y byddai mynychu gwrandawiadau'n caniatáu i ddioddefwyr weld natur drylwyr yr asesiad a wneir gan y Bwrdd, a'r potensial i fagu hyder dioddefwyr ym mhenderfyniad y Panel. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd pob dioddefwr yn dymuno arsylwi. I'r rhai sy'n dymuno arsylwi ar wrandawiad, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y broses yn gweithio'n dda a bod cymorth priodol ar gael iddynt.

151. I sicrhau bod dioddefwyr yn gallu arsylwi'n ddiogel ac yn effeithiol, bydd cyfnod prawf cyn bod y dewis ar gael i bob dioddefwr. Cynhelir y cyfnod prawf yn Rhanbarth Prawf De-orllewin Lloegr.

152. Drwy ddechrau â nifer isel o achosion prawf, bydd y Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn gallu sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol heb

gyfaddawdu'r gwrandawiad, a bod dioddefwyr yn cael cymorth priodol. Yn ogystal â hynny, bydd yn caniatáu i ddioddefwyr ddarparu adborth ar ôl eu profiad er mwyn gallu gwneud newidiadau priodol i sicrhau bod dioddefwyr yn gallu arsylwi'n ddiogel ac yn effeithiol pan gaiff ei gyflwyno'n llawn. Yn olaf, bydd yn darparu rhagor o ddealltwriaeth o'r galw ac yn galluogi Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i ddyrannu adnoddau digonol ar gyfer ei gyflwyno'n llawn.

153. Rydym yn cydnabod y bydd rhai wedi siomi nad yw'r cyfle ar gael i ddioddefwyr ym mhob achos o'r cychwyn cyntaf, ond mae hon yn broses newydd y mae'n rhaid inni ei gweithredu'n gywir er budd dioddefwyr.

154. NI fydd manylion gweithredol y broses yn cael eu llunio'n derfynol nes bod y cyfnod prawf wedi'i gwblhau a'i werthuso. Fodd bynnag, rydym wedi sefydlu bod y Bwrdd Parôl yn bwriadu gweithredu yn ôl y rhagdybiaeth y bydd ceisiadau gan ddioddefwyr yn cael eu derbyn oni bai fod gwrthwynebiadau cryf gan y carcharor neu'r Ysgrifennydd Gwladol. Ni fydd dioddefwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr yn gorfod darparu rhesymau na dadleuon o blaid eu cais.

155. Rhoddir sylw i ystod o ffactorau wrth ystyried ceisiadau i arsylwi. Bydd y rhain yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Pwrpas/rhesymau dros y cais;
- Safbwyntiau'r carcharor ac unrhyw amgylchiadau neu briodoleddau penodol mewn cysylltiad â'r carcharor neu'r gwrandawiad sy'n dangos y dylid cyfyngu ar sylwedyddion neu eu gwrthod – fel iechyd meddwl y carcharor;
- Y gallu i ddarparu ar gyfer y sylwedydd(ion) naill ai'n ffisegol yn ystafell y gwrandawiad neu drwy fynychu o bell;
- Unrhyw risgiau posibl yn sgil caniatáu i'r sylwedydd fynychu'r gwrandawiad.

### Logisteg

156. Mae'r Bwrdd Parôl wedi gweithredu'n dda drwy gydol pandemig Covid-19 drwy addasu'n llwyddiannus i ddefnyddio rhagor ar wrandawiadau o bell. Rydym yn rhag-weld y bydd gwrandawiadau o bell yn cael eu defnyddio'n amlach yn y dyfodol ac felly, yn yr un modd â gwrandawiadau cyhoeddus, bydd y rhai sy'n mynychu gwrandawiadau parôl fel sylwedyddion yn gwneud hynny o bell fel mater o drefn.

157. Roedd nifer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cyfeirio at yr heriau ymarferol ac emosiynol o fynychu gwrandawiad yn bersonol yn y carchar, ac felly rydym yn rhag-weld y bydd mynychu o bell yn hwyluso'r profiad i ddioddefwyr. Yn ogystal â'r manteision sydd eisoes wedi'u disgrifio yn yr adran flaenorol, drwy fynychu o bell gall dioddefwyr fod mewn amgylchiadau mwy cysurus gyda chymorth wrth law i ateb unrhyw gwestiynau am y gwrandawiad ac i gynyddu eu dealltwriaeth heb amharu ar y gwrandawiad ei hun. Gallant hefyd roi'r gorau i arsylwi ar y gwrandawiad am

gyfnod yn hawdd os byddant yn cynhyrfu neu os oes rhannau o’r dystiolaeth nad ydynt am eu clywed.

158. Bydd trefniadau’n cael eu gwneud i ddioddefwr wylio’r gwrandawiad mewn lleoliad diogel a phreifat er mwyn iddynt deimlo’n ddibryder. Bydd dioddefwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr yn cael cymorth cyn, yn ystod ac ar ôl gwrandawiad gan Gynrychiolydd Dioddefwyr yr Ysgrifennydd Gwladol – mae hyn yn cyd-fynd â’r arfer o gynrychiolwyr yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cymorth i ddioddefwyr sy’n dymuno darllen Datganiad Personol y Dioddefwr yn bersonol. Bydd dioddefwyr yn cael canllawiau ar arsylwi cyn gwrandawiad, a fydd yn esbonio’r broses o wrandawiad parôl, pynciau trafod maen nhw’n debygol o’u clywed, a rhai acronymau cyffredin sy’n cael eu defnyddio’n aml mewn gwrandawiad. Ar ben hynny, bydd cynrychiolydd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth law i ateb unrhyw gwestiynau ychwanegol sydd gan y dioddefwr drwy gydol y broses.

## Cyfranogiad pellach dioddefwyr mewn gwrandawiadau parôl

159. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad diweddar ar y Bil Dioddefwyr, a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2022, o blaid rhagor o gyfranogiad gan ddioddefwyr mewn achosion parôl oherwydd byddai’n caniatáu iddynt ddweud eu dweud. Fel y disgrifiwyd yn yr adran sy’n amlinellu’r newidiadau arfaethedig i’r prawf rhyddhau statudol, bydd rhestr o feini prawf penodol y mae’n rhaid i’r Bwrdd Parôl eu hystyried. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan ddioddefwr neu ar ei ran.

160. Caiff dioddefwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr i roi gwybod i banel y Bwrdd Parôl sut mae’r drosedd wedi effeithio arnynt, ond dyna yw terfyn ei hyd a’i led ar hyn o bryd. Fel rhan o’r diwygiadau i’r system parôl, rydym yn bwriadu mynd ymhellach a chaniatáu i ddioddefwyr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i’r Bwrdd fel rhan o’u Datganiad Personol neu fel dogfen ar wahân, gan gynnwys eu safbwyntiau ynghylch rhyddhau’r troseddwr o bosibl. Rydym yn credu y dylai dioddefwyr allu gofyn cwestiynau fel rhan o’r cyflwyniadau ysgrifenedig hynny hefyd.

161. Roedd yr ymgynghoriad wedi tynnu sylw at y prif faes yr oedd ymatebwyr yn credu bod angen ei wella, sef mewn cysylltiad â lefel y wybodaeth a’r cyfathrebu y mae dioddefwyr yn eu cael. Byddwn yn gweithredu ar yr adborth hwnnw drwy nodi sut gellir gwella yn hynny o beth gan ein bod yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael yr holl wybodaeth maen nhw’n dymuno ei chael. Yn yr un modd â’r mesurau a ddisgrifir uchod i ganiatáu i ddioddefwyr arsylwi ar wrandawiadau parôl yn llawn, mae elfennau sensitif a risgiau ynghlwm wrth rannu lefelau uwch o wybodaeth am achos, a bydd yn rhaid taro cydbwysedd rhwng bod yn

fwy agored ar un llaw, ac ar y llaw arall diogelu gwybodaeth neu fanylion penodol a allai roi pobl mewn perygl, neu danseilio'r broses gwneud penderfyniad.

162. Felly, byddwn yn cynnal adolygiad i archwilio i ba raddau y gallwn gynyddu lefel a natur y wybodaeth y gellir ei rhoi i ddioddefwyr yn ddiogel, a'r ffordd orau o wneud hynny. Bydd hyn wedyn yn dylanwadu ar ba newidiadau pellach y gellid eu gwneud i'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr i hwyluso'r gwelliannau hynny.

## Crynodebau o benderfyniadau

163. Ers eu cyflwyno ym mis Mai 2018, mae Crynodebau o Benderfyniadau wedi bod yn boblogaidd ymysg y cyfryngau a dioddefwyr. Roedd nifer y crynodebau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Parôl bob blwyddyn wedi cynyddu bron 50% rhwng 2018 a 2021.[14] Roedd ein hymgynghoriad â chynrychiolwyr dioddefwyr a phobl eraill wedi dangos bod dioddefwyr a phobl eraill yn gweld crynodebau'n ddefnyddiol ar gyfer cyfleu'r penderfyniad, ond roedd yr adborth hefyd yn nodi bod dioddefwyr yn teimlo eu bod yn brin o fanylion am y ffactorau sydd wedi cyfrannu at y penderfyniad. Mae hyn yn golygu bod dioddefwyr yn teimlo'n anfodlon a dryslyd ynghylch y rhesymau dros benderfyniad y Bwrdd weithiau.

164. Mae'n anodd cynhyrchu crynodebau effeithiol o ganlyniad i natur sensitif y wybodaeth ynddynt. Mae'r panel yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth, fel troseddu blaenorol ac amgylchiadau personol, ac efallai nad yw darnau penodol o wybodaeth yn addas eu datgelu i'r sawl sydd wedi gwneud cais. Fodd bynnag, mae'n anodd sicrhau bod gan ddioddefwyr hyder ym mhenderfyniad y Bwrdd Parôl heb allu darparu'r holl wybodaeth berthnasol. Mae'r Bwrdd Parôl yn cydnabod y broblem hon ac yn gweithio ar lythyr penderfyniad newydd, a fydd yn cael ei dreialu eleni. Nod y llythyr yw rhoi rhagor o fanylion i'r sawl sydd wedi gwneud cais am y ffactorau a ystyriwyd gan y Bwrdd wrth wneud penderfyniad. Un o nodau arall y llythyr penderfyniad newydd yw dangos dadansoddiad y Bwrdd o'r risg a'r ffactorau sy'n sail i'w benderfyniad yn gliriach, gan ennyn hyder y sawl sydd wedi gwneud cais ym mhroses gwneud penderfyniad y Bwrdd. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ddioddefwyr wybod mwy am y broses gwneud penderfyniad, un o'r hawliau a nodir yn y Cod Dioddefwyr.

165. Ar hyn o bryd caiff unrhyw un wneud cais am grynodeb o benderfyniad. Dioddefwyr sy'n gwneud y rhan fwyaf o geisiadau ac mae'r cyfryngau'n gwneud nifer isel o geisiadau. Fodd bynnag, i gynyddu tryloywder y broses parôl, mae'r Bwrdd Parôl yn bwriadu cyhoeddi crynodebau o achosion uchel eu proffil yn rhagweithiol. Y Bwrdd Parôl fydd yn penderfynu sut mae cyhoeddi; fodd bynnag, bydd cyhoeddi

[14] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2021 (publishing.service.gov.uk)

crynodebau o benderfyniadau'n helpu i ddangos lefel fanwl yr asesiad risg a'r craffu sy'n cyfrannu at bob penderfyniad, ac i roi cipolwg ar waith y Bwrdd Parôl i'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd.

## Gwell gwybodaeth a chyfathrebu

166. Ar hyn o bryd, os oes gan y cyfryngau neu aelod o'r cyhoedd gwestiynau am garcharor a gwrandawiad sydd i ddod, gallant holi'r Bwrdd Parôl pa bryd fydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal. Os yw'r gwrandawiad wedi'i restru, mae'r Bwrdd Parôl yn rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi holi y bydd gwrandawiad yn cael ei gynnal, ond nid yw'n rhoi amserlen benodol er mwyn diogelu preifatrwydd y rhai sy'n rhan o'r gwrandawiad.

167. Er mwyn taflu rhagor o oleuni ar y broses, mae'r Bwrdd Parôl yn bwriadu bod yn fwy agored â'r rhai sy'n holi ynghylch amser gwrandawiadau drwy roi gwybod ym mha fis y cynhelir y gwrandawiad, gyda'r cafeat y gallai gohiriad effeithio ar yr amseroedd hyn. O ran gwrandawiadau cyhoeddus, os oes cais am wrandawiad cyhoeddus wedi'i dderbyn, bydd y Bwrdd wedyn yn cyhoeddi'r rhestriad hwn er mwyn i bobl sydd â diddordeb allu gwneud cais i fynychu.

## Addysgu'r cyhoedd a dealltwriaeth y cyhoedd

168. Nod yr holl newidiadau sydd wedi'u hamlinellu yw gwneud y system yn fwy tryloyw ac agored, a chyfrannu at y nod ehangach o gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r system parôl a sut mae'n gweithio i ddiogelu'r cyhoedd. I wneud hyn mae'n hollbwysig bod gwybodaeth glir, hygyrch a pherthnasol ar gael i'r cyhoedd am rôl y Bwrdd Parôl, a sut mae'n gwneud penderfyniadau.

169. Yn dilyn argymhellion Adolygiad 2018 (gweler paragraffau 7-11), roedd y Bwrdd Parôl wedi cynnal nifer o fentrau i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r system parôl a gwaith y Bwrdd ei hun. Roedd Adolygiad Pwrpasol 2020 wedi canmol y camau a gymerwyd gan y Bwrdd Parôl yn hyn o beth, fel: canllaw ar YouTube ar sut mae'r system parôl yn gweithio; rhagor o wybodaeth ac ystadegau ar ei wefan; a'r Bwrdd yn comisiynu rhaglen ddogfen ar y teledu i esbonio'r broses parôl.[15]

170. Ym mlwyddyn ariannol 2019/20,[16] roedd y Bwrdd Parôl hefyd wedi cynyddu ei weithgareddau ymgysylltu allanol yn sylweddol. Roedd y Bwrdd wedi'i gynrychioli

[15] Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr: Adolygiad Pwrpasol (publishing.service.gov.uk) t.48/49

[16] Nid oedd gweithgareddau allanol yn bosibl yn ystod 2020/21 felly 2019/20 sy'n cynrychioli'r data cynrychioladol mwyaf diweddar.

mewn 68 o ddigwyddiadau, i fyny o 34 yn 2018/19.[17] Cynyddodd nifer y dilynwyr o gyfrif Twitter y Bwrdd i dros 5,000 ym mis Mawrth 2022, i fyny o 2,500 yn 2019. Mae'r Bwrdd wedi creu cynllun cyfryngau cymdeithasol eang, gan ddefnyddio Twitter i dynnu sylw at ddiweddariadau ffeithiol cadarnhaol am y system parôl ac esbonio camsyniadau cyffredin ynghylch y system.

171. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol hefyd wedi nodi bod sylw yn y cyfryngau yn dangos bod dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Bwrdd Parôl yn dal yn broblem ac y dylai'r Bwrdd barhau i ymdrechu i'w gwella. O ganlyniad i hynny, mae'r Bwrdd Parôl wedi bod yn gweithio ar wella dealltwriaeth y cyhoedd drwy gynllun cyfathrebu eang, sydd â'r nod o daflu goleuni ar wahanol faterion y mae'r Bwrdd Parôl yn eu trafod, a hyfforddi cyfran o'i aelodaeth i weithredu fel llefarwyr ar ran y Bwrdd Parôl ar radio lleol a fforymau cyhoeddus eraill. Bydd hyn yn caniatáu i'r Bwrdd Parôl gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'i waith yn rhagweithiol.

172. Mae'r adolygiad hwn yn croesawu gwaith parhaus y Bwrdd i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r system parôl, ac yn benodol ei waith ymgysylltu allanol rhagweithiol.

173. Mae adborth wedi dangos bod defnyddwyr yn ei chael yn anodd cael gafael ar y canllawiau a'r wybodaeth gywir ar wefan y Bwrdd Parôl yn aml. I helpu defnyddwyr a'r cyhoedd i gael gwybodaeth am y system parôl, rydym yn argymell bod y Bwrdd Parôl yn archwilio newidiadau y gellid eu gwneud i wneud ei wefan yn haws ei defnyddio. Byddwn yn helpu'r Bwrdd Parôl i gynnal profion defnyddwyr ar ei wefan er mwyn asesu a fyddai dyluniad newydd yn gwella'r profiad i ddefnyddwyr a'i gwneud yn haws cael gafael ar ganllawiau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi fersiwn gyfunol o Reolau'r Bwrdd Parôl ar-lein, a fydd yn adlewyrchu'r holl ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud eleni, er mwyn i garcharorion a dioddefwyr allu gweld y newidiadau sy'n cael eu gwneud yn hawdd.

174. Roedd Adolygiad Chwefror 2019 yn argymell bod y Bwrdd Parôl yn cyhoeddi Canllawiau Ymarfer Safonol ar ei wefan i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses parôl. Ers yr Adolygiad, mae'r Bwrdd Parôl wedi cyflawni prosiect i weithredu ar yr argymhelliad hwn ac wedi cyhoeddi ystod o ddogfennau canllaw newydd neu ddogfennau canllaw wedi'u diweddaru ar ei wefan. Mae'r Adolygiad hwn yn croesawu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn datblygu'r canllawiau, ac yn credu bod y dogfennau a gynhyrchwyd yn glir ac o ansawdd uchel. Rydym yn argymell bod y Bwrdd Parôl yn cynnal y momentwm o ran cyhoeddi canllawiau perthnasol, newydd ac yn sicrhau bod canllawiau cyfredol a thudalennau gwe perthnasol yn parhau i gael eu diweddaru.

[17] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2018/19 (publishing.service.gov.uk)

# RHAN 3: Gwerthuso'r system parôl

175. Mae'r adran hon o'r adolygiad yn asesu perfformiad y system parôl gyfan ac a fyddai unrhyw fesurau pellach yn helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system. Mae'n ystyried nifer o ddiwygiadau a wnaed i'r broses parôl dros y blynyddoedd diwethaf, a'u heffaith. Mae'n ystyried sut byddai'n bosibl gwreiddio'r dysgu a'r dulliau newydd a roddwyd ar waith yn y system mewn ymateb i bandemig Covid-19 yn y dyfodol.

176. I gael darlun cyflawn o weithrediad y system parôl, gwnaeth tîm yr adolygiad waith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Hefyd, cynhaliodd ymchwil ar y system parôl, gan gynnwys dulliau gweithredu rhyngwladol mewn cysylltiad â pharôl a phapurau diweddar gan academyddion blaenllaw er mwyn dylanwadu ar yr adolygiad drwyddo draw. Gan fod yr adolygiad yn rhoi sylw i amrywiaeth o faterion, rhai ohonynt yn dechnegol eu natur, nid ydynt yn addas ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae llawer o'r materion yn yr adolygiad yn gwestiynau hirdymor sydd wedi bod yn destun ymgyngoriadau ac adolygiadau yn y gorffennol.

177. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid rhwng mis Ionawr a mis Mai 2021. Roeddem wedi gwahodd rhanddeiliaid â phrofiad uniongyrchol o'r Bwrdd Parôl i weithdai a sesiynau bwrdd crwn, gan gynnwys ymarferwyr; gweithwyr proffesiynol sy'n ymarfer yn y maes hwn o'r gyfraith; a sylwedyddion a sylwebwyr ar y system a'r broses parôl. Roedd y rhain yn archwilio'r prif faterion a nodwyd gan dîm yr adolygiad, ac yn gwahodd y cyfranogwyr i nodi agweddau eraill ar y system parôl sydd angen sylw a'u gwella. Mae'r adolygiad wedi defnyddio data o ystadegau cyhoeddedig y Bwrdd Parôl hefyd.

178. Mae gwerthuso'r system yn rhan hanfodol o'r adolygiad hwn, oherwydd pan fydd diwygiadau sylweddol i rai o elfennau craidd y system parôl yn cael eu cyflawni, mae'n hollbwysig bod gweddill y system yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Roeddem hefyd wedi archwilio sut mae'r system yn gweithredu i brif ddefnyddwyr y system, sef dioddefwyr a charcharorion.

# Pennod 4: Profiad dioddefwyr o'r system parôl

## CRYNODEB

**Mae'r** hyblygrwydd a'r cymorth **pellach sydd ar gael i ddioddefwyr sy'n rhyngweithio â'r broses parôl wedi'u hadlewyrchu a'u ffurfioli yn y** Cod Dioddefwyr**.**

**Bydd y** Bil Dioddefwyr **sydd yn yr arfaeth yn ceisio darparu sail ddeddfwriaethol i'r hawliau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Dioddefwyr.**

**Bydd gwrandawiadau cyhoeddus yn cynyddu tryloywder y broses i ddioddefwyr ac, os ydynt yn dymuno, bydd gwasanaethau i ddioddefwyr yn eu helpu i gymryd rhan.**

## Cyflwyniad

179. I ddioddefwyr, gall y broses parôl fod yn boenus. Mae'n hollbwysig eu bod yn deall sut mae'r system parôl yn gweithio ac yn cael cymorth i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses i sicrhau eu bod yn cael yr atebion sydd eu hangen arnynt. Mae'r bennod hon yn archwilio sut gellid gwneud gwelliannau i'r dioddefwyr hyn.

## Profiad dioddefwyr o'r system

180. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o waith wedi'i wneud i wella profiad dioddefwyr o'r broses parôl. Roedd yr adolygiadau ym mis Ebrill 2018[18] a mis Chwefror 2019[19] wedi nodi problemau gyda chysondeb ac ansawdd cyfathrebiadau i ddioddefwyr ynghylch achosion parôl, a phrofiad dioddefwyr a oedd yn dewis ymgysylltu'n uniongyrchol â phaneli parôl a chyflwyno sylwadau iddynt. Roedd nifer

[18] *Adolygiad o'r gyfraith, y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'r Bwrdd Parôl* (Ebrill 2018) https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-law-policy-and-procedure-relating-to-parole-board-decisions

[19] *Adolygiad o Reolau'r Bwrdd Parôl a'r System Ailystyried: Darparu System Effeithiol a Thryloyw* (Chwefror 2019) https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-parole-board-rules-and-reconsideration-mechanism

o'r argymhellion dilynol yn canolbwyntio ar y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr. Mae Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn cael ei ddyrannu i aelodau o'r cynllun. Mae ei rôl yn cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddedfryd y troseddwr a rhoi cyngor ar sut mae cyflwyno sylwadau i baneli parôl (os yw'r dioddefwr yn dymuno gwneud hynny).

181. Roedd y diwygiadau yn dilyn yr adolygiadau hyn yn cynnwys:
   - Gwella'r canllawiau ar-lein ar y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr a hyfforddiant i Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr.
   - Caniatáu i ddioddefwyr optio i mewn neu optio allan o'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr ar unrhyw adeg drwy flwch negeseuon e-bost canolog newydd. Roedd hyn yn lle'r cynnig untro i gymryd rhan yn fuan ar ôl y treial, a oedd yn golygu penderfyniad heriol i ddioddefwyr ar adeg a oedd yn anodd yn barod.
   - Sicrhau bod dioddefwyr yn cael diweddariadau cywir a phrydlon ar achosion drwy well cyswllt rhwng gwasanaethau dioddefwyr a'r system parôl ehangach (gan gynnwys drwy hyfforddiant Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr ac ymestyn y mynediad at gronfa ddata Ymarferwyr a Defnyddwyr Parôl i wasanaethau dioddefwyr a Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr).
   - Egluro'r canllawiau ar allu dioddefwyr i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr i baneli parôl a gwella'r hyfforddiant i Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr sy'n helpu dioddefwyr i wneud hynny.

182. Mae'r Cod Dioddefwyr newydd, ar waith ers mis Ebrill 2021, wedi hybu a chadarnhau'r diwygiadau hyn. I gydnabod yr hyblygrwydd a argymhellwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys dioddefwyr eu hunain, mae'n nodi y caiff dioddefwyr ddarllen eu Datganiad Personol y Dioddefwr neu ei recordio ymlaen llaw, neu gael rhywun i'w ddarllen mewn gwrandawiad parôl ar eu rhan. Mae hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr roi cyngor i ddioddefwyr ar eu hawl i gyflwyno Datganiad Personol y Dioddefwr a/neu gais ynghylch amodau trwydded troseddwr i banel parôl, ac yn ailadrodd y caiff dioddefwyr optio i mewn neu allan o'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr ar unrhyw adeg.[20] Bydd y Bil Dioddefwyr sydd yn yr arfaeth yn darparu sail ddeddfwriaethol i'r hawliau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cod Dioddefwyr. Bydd hefyd yn sicrhau ymhellach y rhoddir yr hawliau hyn ar waith drwy nodi trefniadau atebolrwydd ar gyfer yr asiantaethau cyfiawnder sy'n gyfrifol am eu darparu.

183. Bydd y diwygiadau a amlinellwyd yn y bennod flaenorol yn gwella ymgysylltiad dioddefwyr ymhellach. Bydd gwrandawiadau cyhoeddus yn gwneud y broses parôl yn fwy hygyrch ac agored i ddioddefwyr, a bydd eu cyfranogiad wedi'i gefnogi gan Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr drwy'r Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr. Bydd y gallu i

[20] https://consult.justice.gov.uk/victim-policy/consultation-on-improving-the-victims-code/results/victims-code-2020.pdf (accessed 24 May 2021).

ddioddefwyr fynychu a chyflwyno sylwadau i wrandawiadau o bell yn cadw'r hyblygrwydd a ddymunir gan randdeiliaid – ac sydd wedi'i gydnabod yn y trefniadau ar gyfer Datganiad Personol y Dioddefwr yn y Cod Dioddefwyr – dros y tymor hirach. Byddwn hefyd yn caniatáu i ddioddefwyr gyflwyno sylwadau ysgrifenedig fel rhan o'u Datganiad Personol y Dioddefwr neu fel dogfen ar wahân, gan gynnwys cwestiynau. Yn olaf, rydym wedi ymrwymo i adolygiad pellach o sut mae darparu lefel uwch o wybodaeth i ddioddefwyr er mwyn cynyddu eu dealltwriaeth o'r broses.

# Pennod 5: Profiad dioddefwyr o'r System Parôl

## CRYNODEB

**Mae'r ddarpariaeth yn y system parôl i** gleifion dan gyfyngiadau a charcharorion â diffyg galluedd meddyliol **wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae lle i barhau i adeiladu ar y cynnydd hwn.**

**Bydd y system** rheoli troseddwyr yn y ddalfa **(OMIC) newydd yn cynyddu rhyngweithiad carcharorion â'r broses parôl ac yn symleiddio'r gwaith o adrodd ar ymddygiad carcharorion yn y ddalfa i'r Bwrdd Parôl.**

## Cyflwyniad

184. I asesu'n llawn sut mae'r system parôl yn gweithio, rhaid edrych arni o safbwynt y rhai y mae'n effeithio arnynt fwyaf, sef carcharorion. Mae gwrandawiadau parôl yn ddigwyddiad hollbwysig i garcharorion y mae eu dedfrydau'n destun rhyddhau yn ôl disgresiwn. Mae'r bennod hon yn archwilio sut gellid gwneud gwelliannau i garcharorion yn y system.

## Profiad carcharorion o'r system

185. Mae gwrandawiadau cyhoeddus yn ffordd o asesu risg troseddwyr, ond hefyd yn gyfle i'r carcharor fynegi ei safbwyntiau ei hun ar ei lefel risg, sy'n gam pwysig yn y broses o'u paratoi ar gyfer bywyd yn ôl yn y gymuned.

186. Mynegwyd pryderon ynglŷn â phrofiad carcharorion o'r broses parôl yn ystod yr adolygiad; yn benodol, eu dealltwriaeth o'r broses a'r camau angenrheidiol er mwyn argymell eu rhyddhau neu eu symud i amodau agored, a lefel y cymorth maen nhw'n ei gael drwy gydol y broses. Mae oedi a gohiriadau yn effeithio'n sylweddol ar brofiad carcharorion o'r system parôl hefyd, yn enwedig i droseddwyr sy'n aros am benderfyniad.

**Diffyg galluedd meddyliol a chleifion dan gyfyngiadau**

187. Roedd Adolygiad Chwefror 2019 wedi ystyried Rheolau'r Bwrdd Parôl i sicrhau y gwneir darpariaethau ar gyfer carcharorion â diffyg galluedd meddyliol. Yn ogystal â hynny, mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, mae'r Bwrdd wedi adolygu a symleiddio'r prosesau ar gyfer carfan benodol o gleifion dan gyfyngiadau sy'n garcharorion wedi'u trosglwyddo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

*Cleifion dan gyfyngiadau*

188. Roedd yr Adolygiad o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2018 wedi tynnu sylw at broblem systematig yn y broses parôl, sef bod carfan fach o garcharorion[21] wedi'u cadw'n gaeth yn yr ysbyty o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi wynebu oedi annerbyniol o fisoedd neu flynyddoedd hyd yn oed wrth aros am benderfyniad ynghylch eu rhyddhau. Roedd yr Adolygiad yn argymell:

- Argymhelliad 138. Dylai'r llywodraeth ystyried rhoi statws Tribiwnlys i'r Bwrdd Parôl a chyfuno gwrandawiadau lle bo hynny'n briodol. Fan leiaf, dylai'r llywodraeth symleiddio prosesau er mwyn gallu cynnal gwrandawiadau cefn wrth gefn.

189. Roedd Adolygiad Chwefror 2019 wedi ailadrodd y rhan olaf o'r argymhelliad hwn ac ym mis Hydref 2019, cafodd Prosiect Symleiddio Iechyd Meddwl amlasiantaeth ei lansio, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Parôl, yr Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd a'r Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (sydd ill dau yn rhan o Grŵp Diogelu'r Cyhoedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM). Er bod COVID wedi'i ddileu mae'r cam cyntaf, sef nodi'r holl achosion presennol, dyrannu aelodau â'r arbenigedd a'r profiad priodol i asesu eu statws presennol, a sicrhau eu bod yn cael sylw'n gyflym, wrthi'n dod i ben. Yr ail gam yw datblygu cynllun peilot i brofi dewisiadau eraill ar gyfer rheoli achosion iechyd meddwl ar sail gwerthusiad o'r canfyddiadau a'r arferion gorau hyd yma. Mae cam dau yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu'r cynnig peilot ymhellach, sy'n debygol o lansio yn ystod hydref 2022 a rhedeg am 12 mis.

190. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd y Bwrdd Parôl Ganllawiau diwygiedig ar Gleifion dan Gyfyngiadau a'r Ddeddf Iechyd Meddwl fel rhan o'i waith yn diweddaru'r Canllawiau Ymarfer Safonol. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth am y mathau o drosglwyddiadau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd yn 2007) a chanllawiau i baneli'r Bwrdd Parôl sy'n eistedd mewn lleoliadau iechyd meddwl diogel.

21 Hy carcharorion sy'n bwrw dedfryd oes neu ddedfryd amhenodol arall (a rhai carcharorion â dedfryd estynedig) sydd hefyd wedi'u cadw'n gaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

*Diffyg galluedd meddyliol*

191. Roedd Adolygiad Chwefror 2019 yn archwilio a oedd Rheolau'r Bwrdd Parôl yn cefnogi cleifion dan gyfyngiadau a charcharorion ag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu yn ddigonol. Roedd wedi argymell newid y Rheolau drwy wneud darpariaeth glir ar gyfer penodi cynrychiolaeth addas lle bo angen, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2019.

192. Ar ôl i Reolau 2019 ddod i rym, ystyriodd yr Uchel Lys achos *EG* a chanfod:

- bod y rheolau yn caniatáu i'r Bwrdd Parôl benodi cyfaill cyfreitha;
- y dylai'r Cyfreithiwr Swyddogol fod y dewis olaf fel cyfaill cyfreitha;
- ni chaiff cynrychiolydd cyfreithiol carcharor weithredu fel cyfaill cyfreitha hefyd oni bai fod cynllun achredu priodol ar waith.

193. Yn dilyn y dyfarniad, cydweithiodd y Bwrdd Parôl, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Cyfreithiwr Swyddogol i ddatblygu gweithdrefn gwaith achos fwy cadarn ar gyfer carcharorion sydd â diffyg galluedd meddyliol o bosibl. Gan fod nifer y carcharorion dan sylw mor isel, ni fydd cynllun achredu i gynrychiolwyr cyfreithiol weithredu fel cyfaill cyfreitha hefyd yn cael ei gyflwyno.

194. Mae'r adolygiad yn fodlon y bydd y gwaith hwn yn gwella'r broses parôl i garcharorion sydd â diffyg galluedd meddyliol i ddeall y broses a chymryd rhan ynddi. Mae'r adolygiad hefyd yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma i gefnogi cleifion dan gyfyngiadau a charcharorion ag anghenion iechyd meddwl neu anghenion dysgu, ac yn argymell bod y Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn parhau i weithio gyda'i gilydd – a gyda rhanddeiliaid perthnasol eraill – i wella'r darpariaethau ar gyfer yr unigolion hyn ymhellach.

**Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa**

195. Cafod y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ei ddylunio i wneud gwelliannau trawsnewidiol i'r ffordd o gefnogi carcharorion a rheoli eu hachos drwy gydol eu dedfryd. Cafodd y gwelliannau hyn eu cyflawni drwy'r newidiadau canlynol:
    - Darparu buddsoddiad sylweddol er mwyn i staff rheng flaen allu canolbwyntio ar feithrin perthynas â charcharorion i'w helpu i newid eu bywyd.
    - Symud y cyfrifoldeb am reoli achosion i'r carchar gydol cyfnod y carcharor yn y carchar ar gyfer y rhai sy'n bwrw dedfrydau tymor hirach.
    - Blaenoriaethu adnoddau rheoli achosion ar sail risg, hyd y ddedfryd a chymhlethdod yr anghenion.
    - Cyflwyno'r rolau newydd Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar (POM) a Phennaeth Cyflawni Rheoli Troseddwyr (Uwch Swyddog Prawf) mewn unedau rheoli troseddwyr yn y carchar, gan gynyddu arbenigedd a phrofiad y tîm o ran rheoli risg. Mae Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar yn gyfrifol am asesu, cyd-drefnu a

chyflawni'r cynllun dedfryd. Mae ganddynt gyswllt â charcharorion, gan ddarparu goruchwyliaeth un-i-un sydd wedi'i strwythuro ac yn seiliedig ar y technegau ymarfer effeithiol diweddaraf i helpu i newid ymddygiad, ac i leihau'r risg o niwed difrifol ac aildroseddu.

- Sicrhau bod Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar sy'n rheoli troseddwyr a gweithwyr allweddol (yn yr ystad gaeedig i ddynion a'r ystad i ferched) yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn cael cymorth addas, gan helpu i gadw staff.
- Darparu model rheoli troseddwyr pwrpasol i ferched ar sail yr heriau a'r cyfleoedd gwahanol yn yr ystad i ferched.
- Darparu rhai nodweddion pwrpasol i gefnogi'r gweithgareddau adsefydlu yn yr ystad agored i ddynion.

196. Mae OMiC wedi cyflwyno cyfnod trosglwyddo pwrpasol o'r carchar i'r gymuned i sicrhau bod perthynas yn cael ei meithrin rhwng y Rheolwr Troseddwyr yn y Gymuned (COM), y Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar (POM) a'r carcharor, ond hefyd i sicrhau bod tasgau adsefydlu a diogelu'r cyhoedd hollbwysig yn cael eu cyflawni'n brydlon. O ran carcharorion sy'n gymwys ar gyfer parôl, mae'r cyfrifoldeb am reoli achosion yn trosglwyddo o'r POM i'r COM wyth mis cyn Dyddiad Dod i Ben y Tariff neu'r Dyddiad Cymwys ar gyfer Parôl.

197. Rhan hollbwysig o'r Model OMiC oedd cyflwyno dull gweithredu mwy syml ar gyfer y broses parôl drwy leihau dyblygu, a hynny drwy gael staff i ddim ond darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl a'r cam yn y ddedfryd, datblygu adroddiadau parôl newydd a chyflwyno Adnoddau Datblygu Ansawdd newydd ar draws Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i sicrhau bod y Bwrdd Parôl yn cael asesiadau, adroddiadau ac argymhellion o ansawdd uchel. Mae adroddiad parôl cyn tariff ar gyfer dedfrydau amhenodol wedi cael ei ddatblygu ar gyfer POMs gan mai nhw'n unig sy'n gyfrifol am y carcharor yn y cam hwnnw yn ei ddedfryd. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd hyd yma a'r argymhellion ar gyfer symud i'r ystad agored.

198. Ar gyfer adolygiadau yn ystod ac ar ôl y tariff, mae'r POM a'r COM ill dau yn parhau i ddarparu adroddiadau, er mai dim ond un argymhelliad gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Parôl. Y COM sy'n gyfrifol am ryddhau a rheoli'r carcharor yn y gymuned, ac felly bydd yn darparu'r asesiad risg a'r argymhelliad yn ei adroddiad. Mae gofyn i'r POM a'r COM gysylltu â'i gilydd ac mae'n rhaid i'r COM sicrhau bod safbwyntiau'r POM yn cael eu hystyried yn ei adroddiad parôl.

199. Mae'r adolygiad hwn yn argymell y dylai Grŵp Goruchwylio'r System Parôl fonitro'r newidiadau sy'n rhan o'r model OMiC i asesu eu heffeithiolrwydd i garcharorion yn y system parôl.

# Pennod 6: Gwerthuso’r newidiadau hyd yma

## Cynnydd yn erbyn argymhellion a newidiadau blaenorol i’r system parôl

| Y prif argymhellion a phenderfyniadau a wnaed mewn cysylltiad â’r system parôl hyd yma | Sut mae’r diwygiadau/penderfyniadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith? |
|---|---|
| **Roedd yr** Adolygiad Brys **(Ebrill 2018) wedi argymell cyflwyno** system ailystyried **fel ffordd fwy hygyrch o herio penderfyniadau’r Bwrdd Parôl.** | Cafodd y system ailystyried ei chyflwyno ym **mis Gorffennaf 2019**, gan ei gwneud yn haws herio penderfyniadau a’r broses honno’n fwy tryloyw. |
| **Roedd achos *Worboys* a’r adolygiad diweddarach yn yr Uchel Lys wedi golygu bod yn rhaid i benderfyniadau’r Bwrdd Parôl yn y dyfodol ystyried** troseddau carcharor nad yw wedi cael euogfarn amdanynt. | Mae aelodau o’r Bwrdd Parôl wedi cael **canllawiau a hyfforddiant** ar sut mae ystyried honiadau o droseddu ehangach yn eu penderfyniadau. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wedi cyhoeddi **canllawiau i’w staff sy’n ysgrifennu adroddiadau** ar sut mae ystyried troseddu ehangach honedig at ddibenion asesu risg carcharor. Mae’r dystiolaeth hon bellach wedi’i chynnwys fel mater o drefn yn y **ffeiliau craidd** ar gyfer gwrandawiadau parôl. |
| **Roedd adolygiad Chwefror 2019 wedi argymell gwella’r** ymgysylltiad â thrydydd partïon **i’r system parôl, yn benodol i sicrhau bod cyfarwyddiadau paneli’r Bwrdd Parôl yn cael eu dilyn.** | Cafodd **Protocol Gweithredu** newydd ei gyflwyno yn 2019, gan egluro cyfrifoldebau penodol y Bwrdd Parôl a’r PPCS o ran ymgysylltu â thrydydd partïon. Mae’r Bwrdd Parôl hefyd wedi sefydlu **perthynas effeithiol ag asiantaethau unigol**, yn enwedig yr Heddlu. |

| Y prif argymhellion a phenderfyniadau a wnaed mewn cysylltiad â'r system parôl hyd yma | Sut mae'r diwygiadau/penderfyniadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith? |
|---|---|
| **Roedd yr Adolygiad Pwrpasol (2020) wedi argymell diweddaru'r** trefniadau ffioedd a deiliadaeth **i aelodau o'r Bwrdd Parôl er mwyn sicrhau bod rolau allweddol yn denu medrusrwydd ac arbenigedd digonol.** | Cafodd **strwythurau ffioedd** newydd eu cyflwyno ym mis Ebrill 2021, gan annog aelodau i lenwi rolau hollbwysig, yn enwedig cadeirio gwrandawiadau parôl. Gellir cynyddu **hyd mwyaf deiliadaeth** hefyd, gan ei gwneud yn bosibl cadw aelodau medrus. |
| **Yn dilyn deddfwriaeth newydd ym mis Chwefror 2020, ni ellir rhyddhau carcharorion â dedfryd benodol sydd wedi'u cael yn euog o droseddau** terfysgaeth neu'n ymwneud â therfysgaeth (TACT) **heb gymeradwyaeth y Bwrdd Parôl.** | Mae'r Bwrdd Parôl a'r PPCS wedi mynd ati'n gyflym i gyflwyno prosesau effeithiol ar gyfer delio ag achosion TACT. Mae hyn yn cynnwys **recriwtio a hyfforddi staff arbenigol, rheoli achosion, a chysylltu ag asiantaethau diogelwch perthnasol.** |

## Cyflwyniad

200. Mae'r system parôl wedi bod yn destun adolygiadau a diwygiadau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd llawer o'r newidiadau eu cyflwyno i fynd i'r afael â phryderon a ddaeth i'r amlwg yn sgil achos Worboys yn 2018 – yn benodol tryloywder, sut gellir herio penderfyniadau, sut mae tystiolaeth o droseddu ehangach yn cael ei hystyried, a phrofiad dioddefwyr – ond hefyd i helpu i wella effeithlonrwydd, prydlondeb ac effeithiolrwydd cyffredinol y system parôl. Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi archwilio a yw'r diwygiadau hynny wedi cyflawni eu hamcanion ac a oes angen newidiadau pellach.

## System ailystyried

201. Un o'r diwygiadau mwyaf sylweddol i'r system parôl dros y blynyddoedd diwethaf oedd cyflwyno'r system ailystyried. Yn hanesyddol, yr unig ffordd o herio penderfyniadau parôl oedd drwy Adolygiad Barnwrol, sy'n gallu bod yn gostus ac yn feichus, yn enwedig i ddioddefwyr. Roedd yr Adolygiad Brys (Ebrill 2018) wedi tynnu sylw at yr angen am ffordd fwy hygyrch o adolygu penderfyniadau parôl pan ymddengys eu bod yn ddifrifol wallus.

202. Cafodd y system ailystyried ei chyflwyno gan Reolau'r Bwrdd Parôl yn 2019, gan ddod i rym ar 22 Gorffennaf 2019. Mae'r seiliau dros ailystyried penderfyniadau'r Bwrdd Parôl yn debyg i rai Adolygiad Barnwrol – pan fo'r penderfyniad yn afresymegol (yn yr ystyr gyfreithiol) neu pan nad yw'r prosesau a'r gweithdrefnau cywir wedi cael eu dilyn. Fodd bynnag, bellach gellir ailystyried penderfyniadau mewn ychydig wythnosau, yn wahanol i Adolygiad Barnwrol sy'n cymryd 6 i 8 mis ar gyfartaledd.

**Dadansoddiad**

203. Mae'r adolygiad hwn wedi archwilio gweithrediad y system ailystyried ac a yw wedi llwyddo i gyflawni ei hamcanion ai peidio. Sef: (i) darparu llwybr cyflymach, symlach a llai costus i herio o'i gymharu ag Adolygiad Barnwrol; (ii) creu proses ar gyfer gwirio penderfyniadau parôl yn gyflym i nodi unrhyw wallau cyfreithiol neu weithdrefnol sydd angen eu cywiro o bosibl; a (iii) drwy hynny, gwella hyder yn y system parôl.

204. Bellach, mae'r Adran Gwaith Achos Amddiffyn y Cyhoedd (PPCS) yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn sgrinio pob penderfyniad cymwys ynghylch rhyddhau i wirio a oes sail dros wneud cais am ailystyriaeth. Mae Rheolau'r Bwrdd Parôl yn nodi bod penderfyniadau'n rhai 'amodol' am gyfnod o 21 diwrnod i ganiatáu digon o amser i'r partïon wneud cais am ailystyriaeth, gan osgoi oedi gormodol cyn rhyddhau (lle bo'n briodol).

205. Cafodd hyfforddiant, gwybodaeth a chanllawiau eu darparu i Swyddogion Cyswllt â Dioddefwyr i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cyngor a chymorth ar sut mae cyflwyno sylwadau i'r PPCS ynghylch gwneud cais am ailystyriaeth.

206. Mae'r broses mor syml a chyflym â phosibl. Yn wahanol i Adolygiad Barnwrol, nid oes yn rhaid i ddioddefwyr benodi cyfreithwyr i baratoi dadleuon cyfreithiol manwl i'r llysoedd. Yn hytrach, mae'r dioddefwr yn ysgrifennu at y PPCS yn nodi ei bryderon a'r rhesymau pam dylid ailystyried y penderfyniad. Mae'r PPCS yn archwilio'r dystiolaeth i bennu a oes achos credadwy dros wneud cais am ailystyriaeth. Os oes, bydd y PPCS yn paratoi cais i'r Bwrdd Parôl a bydd y dioddefwr yn cael gwybod drwy ei Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr. Os oes tystiolaeth neu resymau annigonol dros wneud cais, bydd y PPCS yn ysgrifennu at y dioddefwr yn esbonio pam.

207. Caiff carcharorion hefyd wneud cais, o dan yr un meini prawf, am ailystyried penderfyniad y Bwrdd Parôl i beidio â'u rhyddhau. Eto, mae hyn yn ddewis effeithiol ac yn gyflymach na mynd ar drywydd Adolygiad Barnwrol. Mae data'r Bwrdd Parôl ar y system ailystyried yn dangos bod nifer y llythyrau cyn-achos wedi mwy na haneru yn ystod y flwyddyn ar ôl cyflwyno'r system (110 yn 2020/21[22] o'i gymharu â 300 yn 2018/19[23]). Mae hyn yn awgrymu bod carcharorion a'u cynrychiolwyr yn defnyddio'r

[22] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

[23] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2018/19 (publishing.service.gov.uk)

system ailystyried i brofi cryfder penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, ac unwaith maen nhw wedi gwneud hynny eu bod yn llai tebygol o ystyried Adolygiad Barnwrol.

208. Mae ceisiadau i'r Bwrdd Parôl yn cael eu hystyried gan aelod barnwrol, sy'n gwneud penderfyniad o fewn 2-3 wythnos fel arfer. Rydym yn nodi bod amrywiaeth o broblemau gweithredol wedi'i gwneud yn heriol gwneud penderfyniadau o fewn 3 wythnos. Mae'r Bwrdd wrthi'n cynnal adolygiad mewnol i ystyried gwelliannau i'r broses. Mae'r adolygiad hwn yn fodlon bod y Bwrdd Parôl wedi ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn a bod mesurau wrth gefn pellach ar gael os na fydd hynny'n ddigon.

209. Mae penderfyniadau ynghylch ceisiadau ailystyried yn cael eu cyhoeddi ar BAILII, sydd wedi sefydlu corff o gyfraith achosion ac yn cynnig cofnodion a rhesymau pam dywedir bod penderfyniad wedi'i wneud yn rhesymegol neu'n deg. Mae hyn wedi arwain at fantais annisgwyl, sef galluogi rhanddeiliaid i ddefnyddio penderfyniadau fel cynsail pe bai penderfyniad yn cael ei herio ymhellach drwy Adolygiad Barnwrol.

### Casgliad

210. O ran a yw'r system ailystyried wedi cyflawni ei hamcanion, mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad bod y broses sgrinio a nifer cymharol isel y ceisiadau ailystyried yn dangos derbyniad bod mwyafrif helaeth penderfyniadau'r Bwrdd Parôl wedi'u gwneud yn deg, wedi dilyn y gweithdrefnau cywir, a'u bod yn rhesymegol. Mae hyn wedi cyfrannu at yr amcan o gynyddu hyder. Mae tryloywder wedi cael ei wella o ganlyniad i'r Bwrdd Parôl yn cyhoeddi penderfyniadau ynghylch ailystyried, gan ddarparu rhesymau clir a chyhoeddus dros y penderfyniadau hynny.

211. Mae wedi cyflawni ei nod o nodi a, lle bo angen, cywiro'r achosion lle roedd penderfyniad yn gyfreithiol wallus heb fod angen mynd ar drywydd Adolygiad Barnwrol. Mae hyn yn cyflawni'r amcan o ddarparu dull cyflymach, mwy effeithlon a llai beichus o lawer o herio penderfyniadau.

212. Mewn ychydig iawn o achosion y mae cais dioddefwr am ailystyriaeth wedi llwyddo. Fodd bynnag, y bwriad oedd defnyddio'r system dim ond mewn nifer isel iawn o achosion, nid darparu her gyffredinol. Pan fydd cais dioddefwr am ailystyriaeth yn aflwyddiannus, mae'n cael esboniad i gadarnhau bod y broses a'r gyfraith wedi'u dilyn, a'r rhesymau llawn am hynny.

213. Roedd pryderon y gallai oedi'r broses parôl yn ormodol, ond nid yw hyn wedi digwydd. Mae proses gyflym ac effeithlon ar gyfer gwirio penderfyniadau cymwys a sicrhau y gall achosion ddatblygu heb oedi. Mae'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i broses cais ailystyried yn gymesur. Mae'r llysoedd wedi herio pob her ynghylch cyfreithlondeb y system ailystyried.

214. Yn gyffredinol, mae'r adolygiad wedi dod i'r casgliad bod y system ailystyried a amlinellir yn Rheolau'r Bwrdd Parôl wedi cyflawni ei hamcanion. Mae Bil yr Heddlu,

Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd yn adeiladu ar y system ailystyried, gan alluogi'r Bwrdd Parôl i neilltuo ac ailagor ei benderfyniadau ei hun mewn ystod ehangach o amgylchiadau.

## Tystiolaeth o droseddu ehangach, heb ei euogfarnu

215. Un o'r prif ddiwygiadau a wnaed yn 2018 oedd cyflwyno mesurau i sicrhau bod y Bwrdd Parôl yn cael ac yn ystyried tystiolaeth ynghylch troseddu ehangach honedig nad yw'r carcharor wedi cael euogfarn amdano, a hynny'n dilyn achos Worboys a'r dyfarniad dilynol y dylid ystyried troseddu ehangach honedig.

216. Mae'n hollbwysig bod paneli'r Bwrdd Parôl yn adolygu'r holl dystiolaeth sy'n berthnasol i risg y carcharor i'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae natur a hyd a lled troseddu'r carcharor wedi'u hadlewyrchu'n llanw yn y troseddau y maen nhw wedi cael dedfryd amdanynt, a'u hanes o euogfarnau blaenorol. Fodd bynnag, roedd dyfarniad Worboys yn nodi, os oes tystiolaeth o droseddu ehangach honedig a allai helpu i gynhyrchu'r asesiad risg, hyd yn oed heb euogfarn amdano, y dylid ei hystyried.

217. Mewn ymateb, dechreuodd y Bwrdd Parôl ddarparu hyfforddiant gorfodol i aelodau a chyhoeddi dogfen 'Canllawiau ar Honiadau'[24] yn amlinellu sut a phryd dylai aelodau ystyried y wybodaeth hon. Mae cyfreithlondeb rhannau o'r canllawiau hynny yn destun apêl i'r Goruchaf Lys ar hyn o bryd ond yn gyffredinol, mae'r canllawiau'n dal yn weithredol o ran sut mae'r Bwrdd yn delio â honiadau o droseddu ehangach. I sicrhau bod yr holl dystiolaeth berthnasol yn cael ei darparu i'r Bwrdd Parôl, mae Rheolau'r Bwrdd Parôl yn manylu ar ba ddogfennau y mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob ffeil. Mae un o'r dogfennau hyn yn cynnwys manylion am droseddu ehangach. Hefyd mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM wedi cyhoeddi canllawiau i'w staff sy'n ysgrifennu adroddiadau ar sut mae pwyso a mesur tystiolaeth o droseddu ehangach honedig wrth asesu risg carcharor. Mae'r canllawiau hyn yn mynnu bod tystiolaeth berthnasol o droseddu ehangach yn cael ei chynnwys yn y ffeil bob amser.

### Dadansoddiad

218. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried bod y mesurau hyn yn mynd i'r afael yn llwyr â'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth o droseddu ehangach honedig i'r Bwrdd Parôl, ac i ystyried y dystiolaeth honno'n briodol. Mae hyn bellach wedi'i wreiddio'n dda mewn arferion presennol.

---

[24] Canllawiau i aelodau o'r Bwrdd Parôl ar ystyried honiadau a wneir yn erbyn carcharor. - GOV.UK (www.gov.uk)

219. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i gynnwys tystiolaeth o honiadau ehangach a throseddu heb euogfarn wedi cael rhai effeithiau annisgwyl, yn enwedig ar achosion galw'n ôl. Pan fydd troseddwr yn cael ei alw'n ôl i'r carchar am dorri amodau ei drwydded, mae gofyniad ar gyfer carcharorion sy'n bwrw dedfryd benodol i gyfeirio'r achos at y Bwrdd Parôl o fewn 28 diwrnod. Mewn nifer o achosion galw'n ôl, mae'r troseddwr wedi cael ei gyhuddo ond heb gael euogfarn eto am droseddau pellach, neu mae'n bosibl bod penderfyniad i alw'n ôl yn seiliedig ar dystiolaeth o droseddu pellach honedig. Mewn achosion o'r fath, nid yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer y ffeil, fel sylwadau dedfrydu barnwyr a gwybodaeth am droseddau ehangach, ar gael o fewn yr amserlen statudol o 28 diwrnod yn aml.

220. Hefyd mae tensiwn rhwng rôl y Bwrdd Parôl a rôl y llys mewn achosion lle mae'r penderfyniad i alw'n ôl yn deillio o gyhuddiad o droseddu pellach. Wrth adolygu'r penderfyniad i alw'n ôl, mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl ystyried y troseddu pellach honedig ond ni all paneli wneud canfyddiad ffeithiol ynghylch euogrwydd, gan mai mater i'r llys ei bennu yw hynny'n briodol. Mae'r ffaith nad yw'n anghyffredin i droseddwyr sy'n cael eu galw'n ôl wynebu mwy nag un honiad o droseddu heb euogfarn neu droseddu ehangach yn ychwanegu at y broblem hon.

**Casgliad**

221. Mae rhai problemau anodd sydd angen eu datrys mewn cysylltiad â'r canlynol: darparu tystiolaeth yn y ffeil parôl o droseddu pellach honedig a sut dylai'r Bwrdd drin y dystiolaeth honno; a sut mae cadw at yr amserlen 28 diwrnod ar gyfer cyfeirio achosion galw'n ôl at y Bwrdd pan nad yw'r holl dystiolaeth berthnasol ar gael mewn pryd. Mae'r problemau hyn yn cyfrannu at angen ehangach i archwilio sut mae'r system parôl yn delio ag achosion galw'n ôl yn fwy cyffredinol (fel y nodir ym Mhennod 1). Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen dull system gyfan cyson i ddatrys hyn, yn hytrach nag un adolygiad, ac yn argymell mai Grŵp Goruchwylio'r System Parôl (gweler paragraffau 262-267 isod am ragor o fanylion) sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â hyn.

## Ymgysylltiad y system parôl â thrydydd partïon a chydymffurfedd â chyfarwyddiadau

222. Mae trydydd partïon, fel yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill yn chwarae rhan bwysig yn y broses parôl. Maen nhw'n cyfrannu at y dystiolaeth ynghylch y risg mae'r carcharor yn ei pheri ac yn gallu helpu i gynllunio ar gyfer rhyddhau er mwyn rheoli'r troseddwr yn effeithiol ar drwydded, os cyfarwyddir hynny gan y Bwrdd Parôl. Un o'r problemau a nodwyd gan adolygiadau blaenorol oedd ei bod yn anodd weithiau sicrhau ymgysylltiad trydydd partïon â'r broses parôl. Gall hyn olygu oedi a gorfod gohirio

achosion nes bod y trydydd parti’n cydymffurfio â chyfarwyddiadau, fel darparu tystiolaeth i’r Bwrdd.

223. I helpu i fynd i’r afael â hyn, cafodd newidiadau eu gwneud i Reolau’r Bwrdd Parôl a chyhoeddwyd Protocol Gweithredu rhwng y Bwrdd Parôl a’r PPCS i egluro ar bwy y mae’r cyfrifoldeb am y gwahanol elfennau o’r broses parôl. Bellach, mae’r Bwrdd Parôl yn gyfrifol am fynd ar drywydd yr holl gyfarwyddiadau i drydydd partïon yn uniongyrchol. Y nod oedd cryfhau pwys a blaenoriaeth y cyfarwyddiadau drwy ei gwneud yn glir i’r trydydd parti bod y rhain yn gyfarwyddiadau barnwrol gan y Bwrdd, ac y dylid eu trin â’r flaenoriaeth a roddir i unrhyw gyfarwyddyd arall gan lysoedd – yn hytrach na fel cais gan swyddogion.

**Dadansoddiad**

224. Roedd yr adolygiad wedi cydnabod y gwelliannau a fyddai wedi gallu cael eu gwneud yn y maes hwn a nodi lle gellid gwella’r system ymhellach. Mae trydydd partïon yn poeni’n aml y bydd eu tystiolaeth yn cael ei datgelu i’r carcharor, yn enwedig pan fo’n dystiolaeth sensitif neu gyfrinachol. Gallai hyn arwain at geisiadau peidio â datgelu, sy’n nodi’r rhesymau pam nad ydynt yn dymuno darparu’r dystiolaeth y gofynnwyd amdani, sy’n gallu achosi oedi, yn enwedig pan fydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau’n cael eu colli.

225. Byddai gwella cyfathrebu ymhellach yn helpu i fynd i’r afael â’r broblem hon. Mae hefyd yn bwysig bod trydydd partïon yn deall sut bydd eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio a sut gellir ei diogelu os yw’n sensitif, er mwyn rhoi’r hyder iddynt ei chyflwyno i'r Bwrdd beth bynnag. Hefyd, os ydynt yn dymuno gwneud cais peidio â datgelu, mae’n bwysig bod trydydd partïon yn deall yr amserlenni a nodir ac yn cadw atynt, er mwyn gallu penderfynu ar y ceisiadau heb oedi’r gwrandawiad ei hun.

**Casgliad**

226. Dylai’r Bwrdd Parôl wneud rhagor o waith i adeiladu ar y gwell ymgysylltu a chyfathrebu â thrydydd partïon er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o’r hyn sydd ei angen pan fyddant yn cael cyfarwyddyd gan y Bwrdd Parôl.

227. O ystyried y problemau hirdymor a pharhaus mewn cysylltiad â chydymffurfio â chyfarwyddiadau, argymhellir bod Grŵp Goruchwylio newydd y System Parôl (gweler paragraffau 262-267) yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros fonitro cynnydd yn y maes hwn a dros sicrhau bod yr holl rannau o’r system parôl yn cyfathrebu, ac yn cydweithio’n effeithiol i wella cydymffurfedd.

## Ffioedd a deiliadaeth aelodau o’r Bwrdd Parôl

228. Wrth galon y system parôl mae’r aelodau o’r Bwrdd Parôl sy’n gyfrifol am asesu risg carcharorion ac am wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau. Mae system

lwyddiannus yn dibynnu ar ddenu a chadw nifer digonol o aelodau arbenigol. Mae'n arbennig o bwysig cael aelodau sy'n meddu ar y profiad, y sgiliau a'r parodrwydd i gadeirio gwrandawiadau parôl. Mae hyn yn gofyn am strwythur effeithiol ar gyfer ffioedd aelodau sy'n darparu anogaeth a chydnabyddiaeth briodol i recriwtio a chadw'r aelodau mwyaf medrus.

229. Nododd yr Adolygiad Pwrpasol fod y strwythur ffioedd yn methu cymell aelodau i wneud y gwaith papur 'Asesiad Achos Aelod' neu gadeirio gwrandawiadau llafar. Risg hyn oedd andwyo ansawdd ac effeithio ar amserlenni ar gyfer cynyddu nifer y penderfyniadau parôl yr oedd yn rhaid eu gwneud.

230. Mewn ymateb, cyflwynodd y Bwrdd Parôl strwythur ffioedd newydd ar 1 Ebrill 2021. Mae hwn yn cynyddu'r ffioedd cyffredinol ar gyfer gwaith Asesiad Achos Aelod ac yn adlewyrchu'r amser ychwanegol sydd ei angen i adolygu achosion galw'n ôl ar gyfer dedfrydau penodol yn y cam Asesu hwnnw. Ar ben hynny, mae'n cyflwyno ffi 'ysgrifennu penderfyniad' i gadeiryddion panel i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chadeirio gwrandawiad llafar.

### Dadansoddiad

231. Mae'r strwythur ffioedd newydd hwn yn cefnogi ymdrechion y Bwrdd Parôl i wella effeithlonrwydd a lleihau oedi. Drwy gydnabod gwaith Asesiad Achos Aelod yn well, mae aelodau'n cael eu hannog, lle bo'n briodol, i benderfynu ar achosion yn y cam papur cynharach ac i 'berchnogi' achos hyd ei ddiwedd. Mae parhad perchnogaeth yn bwysig i sicrhau ei fod yn bwrw ymlaen mor effeithlon a chyson â phosibl.

232. Mae Swyddfa'r Cabinet a'r Bwrdd Parôl wedi cytuno ar ddarpariaeth ar gyfer ymestyn deiliadaeth, drwy eithriad, i uchafswm o 15 mlynedd (argymhelliad arall yn yr Adolygiad Pwrpasol). Fel ffordd arall o fynd i'r afael â'r prinder cadeiryddion panel, mae aelodau'n cael eu hannog yn gryf i hyfforddi fel cadeiryddion os caiff eu deiliadaeth ei hymestyn.

### Casgliad

233. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd y diwygiadau hyn yn llwyddo i gyflawni eu nodau. Roedd nifer y cadeiryddion achrededig neu hyfforddedig wedi cynyddu bron 50% rhwng 2019/20 a 2020/21.[25] Mae'r Adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai'r newidiadau hyn barhau i sbarduno gwelliannau cadarnhaol o ran gallu'r Bwrdd i reoli llwythi achosion, sicrhau bod digon o gadeiryddion panel ar gael i ateb y galw, a bwrw ymlaen ag achosion mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Argymhellir bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Parôl yn parhau i gydweithio i fonitro effaith y newidiadau hyn.

---

25 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

## Achosion y Ddeddf Terfysgaeth (TACT)

234. Mae diwygiadau deddfwriaethol dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn ymateb i ymosodiadau terfysgol yn y DU wedi cryfhau'r fframwaith dedfrydu a rhyddhau ar gyfer y categori hwn o droseddwyr, gan gynyddu rôl y Bwrdd Parôl mewn rhai achosion. Er bod nifer yr achosion hyn yn dal yn gymharol isel o'u cymharu â'r rhan fwyaf o garcharorion y mae'r Bwrdd yn eu hadolygu, mae achosion terfysgaeth yn creu elfennau sensitif a heriau penodol sy'n gofyn am ddull arbenigol.

235. Cafodd y Ddeddf Troseddwyr Terfysgaeth (Cyfyngu ar Ryddhau Cynnar) ei phasio gan y llywodraeth ym mis Chwefror 2020 i sicrhau na fydd unrhyw garcharor sy'n cael euogfarn am drosedd terfysgaeth neu gysylltiedig â therfysgaeth, ac yn cael dedfryd benodol safonol, yn cael ei ryddhau cyn diwedd ei ddedfryd heb gymeradwyaeth y Bwrdd Parôl. Roedd y pwynt rhyddhau cynharaf gan y Bwrdd wedi'i osod ar ddau draean o'u dedfryd. Cafodd y darpariaethau eu rhoi ar waith yn ôl-weithredol i'r rhai sydd eisoes yn bwrw dedfryd benodol safonol ar gyfer troseddau terfysgaeth neu gysylltiedig â therfysgaeth, gan olygu bod rhai achosion a oedd yn nesáu at eu dyddiad rhyddhau hanner ffordd awtomatig wedi gorfod aros yn y carchar a chael eu hadolygu gan y Bwrdd Parôl ar y pwynt dau draean. Roedd hyn yn golygu bod angen systemau newydd i ddelio â'r achosion hyn i sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd Parôl.

236. Mae'r diwygiadau a gynigir yn yr adolygiad hwn hefyd yn mynd ymhellach o ran delio ag achosion terfysgaeth yn y system parôl, oherwydd bydd troseddwyr terfysgaeth (fel yr amlinellir ym mharagraff 80) yn yr haen uchaf o achosion a fydd yn ddarostyngedig i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol (paragraffau 82-93).

### Dadansoddiad

237. Yn yr un modd â holl benderfyniadau'r Bwrdd Parôl, mae paneli sy'n gwrando ar achosion terfysgaeth yn asesu a ellir rhyddhau carcharor yn ddiogel ar sail ei risg barhaus i'r cyhoedd. I roi cymorth effeithiol i'r Bwrdd Parôl ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn, mae'r PPCS wedi sefydlu tîm pwrpasol, y Tîm Gwaith Achos Diogelwch Gwladol, i ddelio'n ganolog â'r broses parôl ar gyfer yr holl droseddwyr TACT. Hefyd mae'r Bwrdd Parôl wedi sefydlu carfan o aelodau arbenigol, hyfforddedig i ddelio â'r achosion hyn. Mae hyn yn cynnwys aelodau barnwrol â phrofiad ac arbenigedd penodol mewn rheoli achosion terfysgaeth cymhleth. Mae'r Bwrdd Parôl wedi mynd ati'n rhagweithiol i gynyddu nifer yr aelodau arbenigol hyn. Yn ystod hydref 2021, llwyddodd i recriwtio nifer o aelodau'n benodol i ddelio ag achosion TACT (gan gynnwys nifer o gefndir gorfodi'r gyfraith).

238. Yn yr achosion hyn yn aml, mae angen darparu tystiolaeth a gwybodaeth sensitif i'r Bwrdd Parôl am natur y risg y mae'r troseddwr yn ei pheri. Mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i ddatblygu perthynas waith effeithiol â'r heddlu a'r gwasanaethau

diogelwch i sicrhau bod tystiolaeth o'r fath yn cael ei darparu, ac yn cael ei thrin yn ofalus ac yn sensitif i atal datgeliadau. Mae camau wedi cael eu cymryd i sicrhau bod gan staff ac aelodau perthnasol y cliriadau diogelwch angenrheidiol hefyd.

### Casgliad

239. Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod prosesau, trefniadau ac arbenigedd cadarn ac effeithiol bellach ar waith i ddelio'n effeithiol â'r heriau penodol sy'n codi pan fydd angen adolygiad parôl ar droseddwyr terfysgaeth. Mae'r Bwrdd Parôl wedi parhau i weithio gyda'i garfan arbenigol o aelodau drwy gyhoeddi canllawiau penodol ar gynhyrchu ffeiliau ac asesiadau risg, ac ar wneud penderfyniadau ynghylch y troseddwyr hyn. Maen nhw hefyd yn cael hyfforddiant arbenigol ar ôl y Bwrdd Parôl yn yr achosion hyn ac ar derfysgaeth ei hun.

240. Mae'r adolygiad hwn yn croesawu'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn cysylltiad â rheoli troseddwyr terfysgaeth. Mae'n argymell parhau i fonitro effeithiolrwydd y mesurau, adeiladu arnynt a'u haddasu lle bo angen i gynnal y dull gweithredu mwyaf cadarn posibl ar gyfer yr achosion hyn.

# Pennod 7: Perfformiad y system parôl

## Penawdau

Mae’r system parôl wedi **ymateb yn effeithiol iawn i Covid-19**, gan gynnal a hyd yn oed gwella ar lwythi achosion cyn y pandemig, a chynnal y rhan fwyaf o wrandawiadau parôl o bell

O hyn ymlaen, mae’r Bwrdd Parôl yn bwriadu defnyddio **model gweithredu hybrid**, gan nodi a chadw’r elfennau o’r broses gwrandawiad sy’n fwy effeithiol pan gynhelir gwrandawiad wyneb yn wyneb

Mae problemau hirdymor o ran **cynhyrchu ffeiliau** ar gyfer gwrandawiadau parôl y gellir eu datrys drwy gyd-drefnu effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau’r system parôl

Bydd dau fwrdd newydd – **Grŵp Goruchwylio’r System Parôl** a’r **Pwyllgor Rheolau** – yn ystyried y potensial ar gyfer gwelliannau pellach i’r system gyfan ac i Reolau’r Bwrdd Parôl

Mae **strategaeth amrywiaeth y Bwrdd Parôl** wedi bod yn allweddol ar gyfer gwella ac mae wedi llwyddo i gynyddu amrywiaeth yr aelodaeth

Mae **system adborth newydd** bellach ar agor i holl ddefnyddwyr y broses parôl a gellir ei defnyddio gan y Bwrdd Parôl i ddylunio strategaethau yn y dyfodol ar gyfer datblygu ei aelodaeth.

## Cyflwyniad

241. Roedd yr adolygiad wedi ystyried effeithiolrwydd yr holl ddiwygiadau diweddar i’r system parôl ac mae wedi dod i’r casgliad bod y system yn perfformio’n effeithiol ac yn effeithlon ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhai meysydd lle argymhellir gwelliannau pellach, a dyma pam ein bod yn gwneud y newidiadau angenrheidiol a amlinellwyd yn gynharach yn yr adolygiad. Mae’r bennod hon yn archwilio prydlondeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system – gan gydnabod yn benodol ei bod yn gallu cymryd rhy hir i ddod â rhai achosion i ben. Mae’r bennod hon hefyd yn rhoi sylw i ansawdd y dystiolaeth a ddefnyddir i wneud penderfyniadau a sut gellir rhoi hyder i’r cyhoedd bod y safonau uchaf yn cael eu cyrraedd ar hyd a lled y system.

242. Mae'r adolygiad yn cytuno ag argymhellion yr Adolygiad Pwrpasol i sefydlu Grŵp Goruchwylio'r System Parôl ar lefel uwch, a chyfundrefn sicrwydd trydydd parti annibynnol ar gyfer y system gyfan. Mae'r argymhellion hyn yn dal yn berthnasol i sicrhau bod goruchwyliaeth ac atebolrwydd digonol ar gyfer y system drwyddi draw ar lefel uwch, a bod yr holl rannau o'r system parôl yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

243. Lle bo'r adolygiad hwn wedi nodi'r angen am welliannau gweithredol pellach i'r system, mae'n argymell mai Grŵp Goruchwylio'r System Parôl dylai fwrw ymlaen â hyn. Felly, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl, cytunir ar gylch gorchwyl y Grŵp Goruchwylio, gan roi sylw priodol i strwythurau llywodraethu presennol a nodi'r ffordd orau o graffu'n annibynnol ar y system parôl.

## Effeithlonrwydd a phrydlondeb y System Parôl

244. Problem barhaus sydd wedi wynebu'r system parôl yw ei chyfradd uchel o ohiriadau. Mae nifer yr achosion y mae'n delio â nhw yn parhau i godi, yn enwedig yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Osborn (2013) a arweiniodd at gynnydd sylweddol yn y galw am wrandawiadau llafar, gan godi o 4,216 yn 2011/12[26] i 9,202 yn 2020/21.[27]

245. Er gwaethaf yr heriau hyn, dangosodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a'r Bwrdd Parôl eu hystwythder a'u harweinyddiaeth effeithiol wrth ymateb i ddatblygiadau andwyol yn eu hymateb i bandemig Covid-19, gan weithredu ffyrdd hyblyg o adolygu ac atal ôl-groniad sylweddol o achosion rhag datblygu. Cynhaliodd y Bwrdd Parôl 23,453 o wrandawiadau yn ystod 2020/21, o'i gymharu â 21,063 yn ystod y flwyddyn flaenorol.

### Gohiriadau

246. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol wedi asesu'r gwaith a wnaed i wella effeithlonrwydd y system parôl.[28] Roedd hyn yn cynnwys y prosiect COMPASS, a gafodd ei lansio i ymchwilio i achosion gohirio a dod o hyd i atebion i'w lleihau'n sylweddol, yn enwedig gohiriadau ar y diwrnod. Mae hyn wedi cael effaith barhaus ar lefel y gohiriadau a gosododd y Bwrdd Parôl feincnod newydd o ran dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer gohiriadau ar y diwrnod gan aros o dan 10%, gan gyrraedd y lefel isaf erioed o 2% ym mis Awst 2019 a chyfartaledd o 3% ar draws 2020/21.[29]

---

[26] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr 2011/12 (publishing.service.gov.uk)

[27] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

[28] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2019/20 (publishing.service.gov.uk)

[29] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

### Ffyrdd o weithio

247. Mae materion gweithredol a gweinyddol mewn cysylltiad â rhestriadau wedi peri problem i'r Bwrdd Parôl yn y gorffennol, o ganlyniad i'r galw uchel am wrandawiadau ac anawsterau ymarferol o ran argaeledd aelodau a thystion.

248. Mewn ymateb i'r cyfyngiadau a osodwyd yn sgil y pandemig, mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu cyflwyno ar draws y system, gan gynnwys gwrandawiadau dros y ffôn a gwrandawiadau fideo. Mae darpariaeth o bell wedi cynyddu gallu'r Bwrdd i wrando ar achosion yn gyflymach a lleihau effaith diffyg argaeledd aelodau a thystion; roedd nifer y cwynion a gafodd y Bwrdd ynghylch gwallau rhestru ac oedi wedi gostwng o 59 (48% o'r cyfanswm) yn 2019/20 i 33 (25% o'r cyfanswm) yn 2020/21. [30] Mae'r Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn cytuno nad yw gwrandawiadau o bell wedi effeithio ar ansawdd y broses gwneud penderfyniadau. Gall cynnal gwrandawiadau o bell wella'r profiad i fynychwyr gan ei fod yn creu amgylchedd sy'n achosi llai o straen, nid oes angen teithio, ac mae gwell mynediad at nodiadau a ffeiliau perthnasol.

*Heriau newydd*

249. Fodd bynnag, mae'r model newydd hwn wedi creu rhai problemau. Mae'r Bwrdd Parôl wedi cyflwyno categori 'technegol' newydd fel rheswm dros ohirio. Mae achosion lle mae'n fwy addas cynnal rhannau o'r broses parôl wyneb yn wyneb. Mae hyn yn arbennig o wir i asesiadau seicolegol.

250. Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM hefyd wedi tynnu sylw at yr effaith gall darpariaeth o bell ei chael ar rai troseddwyr, gan fynegi pryderon na ellir rhoi cymorth mor effeithiol i rai carcharorion drwy'r broses gwrandawiadau o bell, yn enwedig y rhai sy'n mynychu gwrandawiadau ar eu pen eu hunain neu garcharorion sy'n llai cyfarwydd â thechnoleg. Mae gwaith wedi cael ei wneud i leihau'r effaith ar droseddwyr ac mae data'n dangos bod y ffigurau rhyddhau yn dal yn gyson â rhai blynyddoedd blaenorol.

*Ffyrdd o weithio yn y dyfodol*

251. Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddodd y Bwrdd Parôl Strategaeth Adfer ar ôl Covid yn fewnol mewn ymateb i fap y llywodraeth allan o'r cyfyngiadau symud. Roedd hon yn cydnabod gwerth model gweithredu hyblyg ac yn nodi'r mesurau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod gweithio o bell yn mynd rhagddo mor effeithiol â phosibl. Yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, mae'r system parôl bellach yn symud i fodel cyflawni hybrid, gan ganiatáu gwrandawiadau wyneb yn wyneb ac o bell. Bydd y model newydd hwn yn cynyddu effeithlonrwydd a phrydlondeb, gan alluogi gwrandawiadau wyneb yn wyneb lle bo angen hefyd.

---

[30] Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2019/20 (publishing.service.gov.uk); Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Parôl 2020/21 (publishing.service.gov.uk)

# Symud tuag at system parôl fwy ystwyth

252. Mae'r achosion sy'n mynd drwy'r system parôl yn fwy a mwy cymhleth. Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod y Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi llwyddo i gydweithio i wella cydweithrediad er mwyn rheoli'r achosion cymhleth hyn a chynnal diogelwch y cyhoedd yn llwyddiannus. Mae hyn wedi creu system fwy effeithlon, effeithiol ac ystwyth, sy'n gallu ymateb yn well i anghenion a chymhlethdod amrywiol achosion unigol.

### Y broses o gasglu tystiolaeth a rhoi ffeil at ei gilydd

253. Mae ansawdd a manylder tystiolaeth yn hollbwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn, cyfreithiol, o ansawdd uchel. Mae rhoi'r ffeil tystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer gwrandawiadau at ei gilydd a'i chyflwyno wedi creu anawsterau penodol yn y broses parôl ers tro.

254. Yn gadarnhaol, mae camau eisoes wedi cael eu cymryd i ddatrys hyn. Mae Gweithgor Seicoleg ar y Cyd, a sefydlwyd fel rhan o'r prosiect COMPASS (gweler paragraff 246) ac a fynychir gan seicolegwyr, y PPCS a'r Bwrdd Parôl, yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyflawniad achosion. Roedd y prosiect COMPASS wedi cyflwyno cynadleddau achos hefyd, sydd wedi helpu i liniaru rhai o'r problemau yn yr adroddiadau hyn. Bydd darpariaethau penodol ar gyfer y cynadleddau hyn yn cael eu gwneud yn Rheolau nesaf y Bwrdd Parôl. Ar y cyd â dull pragmataidd gan aelodau o lenwi bylchau yn y dystiolaeth, mae'r dull hwn yn helpu i wneud penderfyniadau o ansawdd uchel yn brydlon.

255. Mae rhai problemau â ffeiliau yn codi'n gyson, gan gynnwys: dyblygu mewn achosion â mwy nag un adolygiad; Cynlluniau Rheoli Risg o ansawdd annigonol; ansawdd ffeiliau galw'n ôl yn gyson salach nag achosion safonol (gweler Pennod 1 am ragor o fanylion am achosion galw'n ôl); a phroblemau gydag adroddiadau arbenigol (fel yr amlygwyd yn Adolygiad Pwrpasol 2020) mewn cysylltiad â threfn ac eglurder cyfarwyddiadau. Yn gyson ag argymhellion tebyg yn yr Adolygiad Pwrpasol (Hydref 2020), rydym yn argymell bod y Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i gydweithio i fynd i'r afael â phroblemau yn y broses o roi ffeil at ei gilydd.

### Amserlenni

256. Roedd cael gwared ar yr amserlen 26 wythnos yn y Fframwaith Polisi Cyffredinol ar gyfer y Broses Barôl yn cael ei groesawu'n eang gan yr ymarferwyr parôl a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adolygiad hwn. Roedd cynrychiolwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, y Bwrdd Parôl a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cytuno bod cynyddu hyblygrwydd y broses parôl yn bwysicach na chyflwyno amserlen newydd, o ystyried yr amrywiaeth a geir o ran cymhlethdod achosion.

257. Fodd bynnag, nododd rheolwyr troseddwyr fod rhyw fath o amserlen yn ddefnyddiol i reoli disgwyliadau carcharorion ac roedd ymarferwyr parôl yn teimlo y byddai esboniadau ar gyfer dyddiadau cau penodol yn yr amserlen yn helpu’r system i redeg yn fwy effeithlon. Mae pryder y gallai rhai achosion lithro’n araf am gyfnod hir heb amserlen sefydlog, ac y gallai hynny olygu nad yw risg troseddwyr yn cael ei hasesu o fewn cyfnod rhesymol. Yn debyg i’r Adolygiad Pwrpasol, mae’r adolygiad hwn felly’n pwysleisio bod angen rheoli achosion yn briodol ac yn fwriadol, a hynny mewn ffordd sy’n addas i bob achos unigol.

### Rhannu data a mesurau perfformiad

258. I nodi meysydd gwrthdaro posibl cyn iddynt greu problemau pellach, mae’n bwysig cytuno ar broses rhannu data a mesurau perfformiad ar draws y system.

259. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a’r Bwrdd Parôl yn rhannu cronfa ddata, Cronfa Ddata Uned Diogelu’r Cyhoedd (PPUD), a ddefnyddir i reoli carcharorion sy’n gymwys ar gyfer parôl ar lwyfan a rennir. Mae hyn yn hwyluso cydweithrediad ar draws y system gan ei fod yn caniatáu i’r Bwrdd a’r PPCS gael gafael ar wybodaeth berthnasol a’i rhannu ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae PPUD ar wahân i’r prif systemau a ddefnyddir gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, ac ni ellir ei chysylltu â’r systemau hyn ar hyn o bryd gan nad yw wedi’i lleoli yn y cwmwl.

260. Mae’r Bwrdd Parôl wrthi’n cynnal prosiect i ddisodli PPUD â system newydd yn y cwmwl er mwyn gallu rhannu data yn well rhwng systemau rheoli achosion troseddwyr yn y broses parôl. Mae’r adolygiad hwn yn argymell bod y Bwrdd Parôl a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM hefyd yn defnyddio’r uwchraddiad i’r system TG i wella’r gallu i rannu a chytuno ar ddata yn y system, a chael gwell dealltwriaeth o berfformiad y system.

### Casgliad

261. Er bod yr ymarferwyr parôl a gafodd eu cyfweld yn cytuno’n gyffredinol bod y system yn perfformio’n dda ar y cyfan, mae anawsterau’n codi pan nad yw gwahanol rannau o’r system yn cysylltu cystal ag y dylent ac mae problemau’n gallu dwysáu’n gyflym, a chreu oedi pellach yng ngweddill y system. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am werthusiad a dull system gyfan i fynd i’r afael â’r heriau, fel yr amlinellir yn yr adran hon.

## Goruchwylio’r system parôl

262. I sicrhau bod y system parôl yn gweithredu fel un system gyd-drefnus mae angen ffordd o fesur, dadansoddi a deall ei pherfformiad, yn ogystal â nodi ffyrdd o’i gwella. Wrth werthuso cyd-drefniant y system parôl drwyddi draw, roedd yr Adolygiad Pwrpasol wedi argymell cyflwyno Grŵp Goruchwylio strategol ochr yn ochr â chyfundrefn sicrwydd trydydd parti ar gyfer y system gyfan. Roedd Adolygiad

Chwefror 2019 hefyd wedi argymell sefydlu Pwyllgor Rheolau penodol i'r Bwrdd Parôl er mwyn rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar newidiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl yn y dyfodol.

263. Dylai Grŵp Goruchwylio'r System Parôl a'r gwaith craffu gan drydydd parti fonitro'r system drwyddi draw, gan sicrhau bod yr holl rannau o'r system yn cydweithio'n effeithiol ac yn parhau i sbarduno gwelliannau lle bo angen. I gynnal annibyniaeth proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Parôl, ni fyddai'r naill na'r llall yn gwneud sylwadau am achosion unigol, gan ganolbwyntio'n hytrach ar risgiau, problemau a thueddiadau ar draws y system.

264. Byddai'r Pwyllgor Rheolau'n Bwyllgor Arbenigol anstatudol i roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar newidiadau i Reolau'r Bwrdd Parôl yn y dyfodol. Byddai'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Parôl, ymarferwyr parôl, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, cyfreithwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a chynrychiolwyr grwpiau troseddwyr a dioddefwyr.

**Casgliad**

265. Roedd Adolygiad Chwefror 2019 ac Adolygiad Pwrpasol 2020 wedi gwneud yr argymhellion hyn ar sail y system parôl a oedd ohoni. Nid yw'r rhain wedi cael eu gweithredu eto, tra'n aros am ganlyniad yr adolygiad hwn. Mae'r sail resymegol dros y gwelliannau hyn yn dal yn gadarn a byddant yn dal yn rhan ddefnyddiol, os nad hanfodol, o'r system parôl.

266. Mae'r Bwrdd Parôl, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cytuno ar y cynigion i sefydlu'r Grŵp Goruchwylio a'r gyfundrefn sicrwydd ychwanegol. Bydd adolygiad cynhwysfawr o'r strwythurau llywodraethu presennol i ddylanwadu ar gylch gorchwyl y ddau newid hyn, a fydd yn cael eu llunio'n derfynol yn y misoedd nesaf gyda'r nod o ganiatáu i'r Grŵp fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n brydlon.

267. Mae'r adolygiad hwn yn argymell y dylai Grŵp Goruchwylio'r System Parôl ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros archwilio'r elfennau gweithredol o'r broses parôl drwyddi draw y nodwyd bod angen rhoi rhagor o sylw iddynt a'u gwella; a, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y system, dylai nodi a gweithredu atebion priodol. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag oedi, mentrau i leihau'r angen am ohirio, a gwella ansawdd a phrydlondeb y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu a'i chyflwyno i'r Bwrdd i sicrhau i'r graddau mwyaf posibl ei bod yn 'gywir y tro cyntaf'.

## Y berthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

268. Fel rhan o archwilio sut mae sicrhau bod y system yn perfformio drwyddi draw, mae hefyd yn hollbwysig archwilio'r berthynas rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r

Bwrdd Parôl, sy'n rhan allweddol o'r system hon. Roedd yr Adolygiad Tair Blynedd (Ionawr 2015) wedi gwneud pedwar argymhelliad i gryfhau trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Parôl a'i berthynas â'i Weithrediaeth. Mae'r rhain wedi cael eu gweithredu.[31]

269. Roedd Adolygiad Pwrpasol 2020 wedi ailarchwilio trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Parôl a'i berthynas â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Roedd wedi argymell archwilio opsiynau i'r Bwrdd gael cymorth corfforaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a bod y Ddogfen Fframwaith ar ei newydd wedd, sy'n nodi ei berthynas â'r adran, yn cael ei chwblhau a'i chyhoeddi.

270. Roedd y Bwrdd wedi derbyn yn rhannol argymhelliad yr Adolygiad Pwrpasol ynghylch cymorth corfforaethol drwy groesawu cymorth dadansoddeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan adeiladu ar feysydd eraill o gymorth corfforaethol mae'n ei gael yn barod.

271. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn mae'r adran, gan weithio gyda'i holl Gyrff Hyd Braich, wedi dechrau rhaglen i ddiweddaru holl Ddogfennau Fframwaith y Cyrff Hyd Braich. Bydd Dogfen Fframwaith y Bwrdd Parôl yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl yr adolygiad hwn.

## Strategaeth Amrywiaeth

272. Yn 2019, cynhaliodd y Bwrdd Parôl ymgyrch i recriwtio carfan newydd o aelodau, gan wneud ymdrechion pendant i hybu ceisiadau o gefndiroedd amrywiol drwy waith yn y cyfryngau a gwaith estyn braich helaeth. O ganlyniad i hynny, roedd cyfran yr aelodau o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wedi codi o 5% ym mis Chwefror 2019 i 13% yn dilyn yr ymgyrch, ac ymhellach i 17% yn 2021.[32] Mae'r Bwrdd bellach yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth wedi'i hadlewyrchu ar bob lefel o'r sefydliad, a hynny drwy fynd ati i annog aelodau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i lenwi rolau llywodraethu ac arwain.

273. Mae patrymau gwaith yn ystod y pandemig wedi cyfrannu at baneli mwy amrywiol oherwydd bod gwrandawiadau o bell yn golygu y gellir penodi panelwyr o bob rhan o'r wlad. O ganlyniad, mae carfan fwy amrywiol 2019, sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain yn bennaf, wedi cael eu cynrychioli'n ehangach ar baneli yn genedlaethol. Mae disgwyl i'r trefniadau hyn barhau ar ôl y pandemig. Mae hyn yn cyd-fynd â Strategaeth 'Places for Growth' y llywodraeth, sy'n ceisio cynyddu swyddogaethau a phersonél y sector cyhoeddus y tu allan i Lundain.

---

[31] Adolygiad Tair Blynedd (publishing.service.gov.uk) t.48.

[32] Darparwyd gan y Bwrdd Parôl.

274. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol wedi canmol y Bwrdd Parôl am ei waith yn monitro a chyhoeddi canlyniadau penderfyniadau yn ôl ethnigrwydd er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ragfarn. Nid yw'r data diweddar yn dangos unrhyw ddata mewn canlyniadau rhyddhau. Serch hynny, mae'r Bwrdd Parôl wedi nodi canlyniadau ar gyfer carcharorion o grwpiau lleiafrifol fel blaenoriaeth ymchwil barhaus.

## Hyfforddiant i aelodau a sicrhau ansawdd

275. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Bwrdd Parôl wedi gweithredu rhaglen hyfforddi orfodol. Yn flaenorol, roedd y dysgu'n anffurfiol ac wedi'i arwain gan fentoriaid yn bennaf. Mae hyn yn rhoi sylw i feysydd fel dyletswyddau aelodau, fel cadeirio a gwaith Asesiad Achos Aelod, a rhagfarn ddiarwybod, fel rhan o'r strategaeth amrywiaeth ehangach.

276. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol yn argymell bod y Bwrdd Parôl yn parhau i gryfhau ei brosesau sicrhau ansawdd, sydd eisoes yn sylweddol. Mae'r Bwrdd Parôl wedi ymateb yn rhagweithiol, gan weithredu polisïau newydd ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Ymddygiad Aelodau, Cynnal Safonau Aelodau, ac Ailbenodi Aelodau. Roedd hefyd wedi cyhoeddi Fframwaith newydd ar gyfer Sicrhau Ansawdd Asesiad Achos Aelod ym mis Rhagfyr 2020.

**Heriau newydd**

277. Roedd yr Adolygiad Pwrpasol wedi tynnu sylw at bryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr troseddwyr ynglŷn â'r prosesau cwyno ac adborth. Cafodd hyn ei adleisio gan weithwyr proffesiynol y system parôl yr ymgynghorwyd â nhw ar gyfer yr adolygiad hwn, a ddywedodd bod y systemau adborth presennol – yn enwedig y rhai islaw lefel cwyn ffurfiol – yn annigonol ar gyfer delio â phroblemau pan fyddant yn codi. Roeddent hefyd wedi sôn am enghreifftiau o gwestiynu tystion arbenigol yn aneffeithiol mewn gwrandawiadau, ac yn priodoli hyn i ddiffyg gwybodaeth rhai panelwyr am y rolau penodol y mae ymarferwyr y system parôl yn eu cyflawni. Roeddent yn canmol achosion lle mae Aelodau ac ymarferwyr parôl wedi defnyddio fforymau rhanbarthol i rannu profiadau a gwersi a ddysgwyd o wrandawiadau, ac yn croesawu'r syniad o ragor o'r math hwn o ymgysylltu anffurfiol.

**Systemau adborth**

278. Mae cyflwyno ffurflenni ymateb rhanddeiliaid, sydd ar gael i bob parti sy'n rhan o'r broses parôl drwy gydol y broses, wedi helpu i ddatrys problemau penodol i achosion cyn cyrraedd y cam rhestru. Mae'r Bwrdd Parôl yn dymuno gwella ei weithdrefnau cwyno ac adborth ymhellach drwy gyflwyno dwy system ychwanegol:

- Bydd dolen benodol i baneli yn galluogi aelodau o'r Bwrdd Parôl i gofnodi problemau sy'n codi ac sy'n effeithio ar effeithiolrwydd gwrandawiad a/neu ddatblygiad achos;

- Ym mis Gorffennaf 2021 roedd y Bwrdd Parôl wedi cyflwyno system adborth newydd hefyd. Mae hon ar gael ar gov.uk i holl ddefnyddwyr y broses parôl,[33] gan ychwanegu at y wybodaeth sydd eisoes yn cael ei darparu drwy weithdrefn cwyno ffurfiol y Bwrdd Parôl.[34]

**Casgliad**

279. Mae'r ystod o brosiectau sy'n mynd rhagddynt yn y maes hwn yn dangos ymrwymiad parhaus y Bwrdd Parôl i sicrhau bod paneli'n deg, yn amrywiol ac yn cael eu cefnogi, a bod eu proses gwneud penderfyniadau yn un gadarn. Mae'n werth ailgrybwyll ansawdd uchel penderfyniadau paneli yn gyffredinol, a bod rhanddeiliaid wedi nodi problemau fel yr eithriad yn hytrach na'r rheol.

280. Er hynny, mae cyfleoedd yn dal yn bodoli i wella ymhellach ac felly mae'r adolygiad hwn yn adleisio argymhelliad yr Adolygiad Pwrpasol, sef bod y Bwrdd Parôl yn ceisio adborth yn rhagweithiol gan ddefnyddwyr y system ac yn cefnogi cyfleoedd pellach am ymgysylltiad anffurfiol rhwng Aelodau ac ymarferwyr y system. Bydd y newidiadau hyn yn sicrhau bod problemau'n cael eu nodi ac yn cael sylw yn brydlon er mwyn i'r system ddiwallu anghenion ei defnyddwyr yn y ffordd orau bosibl.

[33] https://www.gov.uk/government/publications/feedback-and-complaints.

[34] https://www.gov.uk/government/organisations/parole-board/about/complaints-procedure.

# Atodiad A: Cylch gorchwyl

Bydd yr Adolygiad o'r Bôn i'r Brig yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol:

- Gwerthuso'r diwygiadau parôl hyd yma:
    - ystyried perfformiad cyffredinol y broses parôl a nodi a fyddai unrhyw fesurau pellach yn helpu i wella prydlondeb ac effeithlonrwydd y broses
    - yr ymateb i Covid-19 a'i oblygiadau o ran sut bydd adolygiadau parôl yn cael eu cynnal yn y dyfodol o bosibl
    - archwilio effeithiolrwydd y system ailystyried ac a oes achos dros ddiwygio'r broses honno ymhellach
    - nodi unrhyw newidiadau deddfwriaethol ychwanegol neu newidiadau ychwanegol i Reolau a fyddai'n gwella'r broses parôl ymhellach, gan gynnwys a yw'r prawf rhyddhau presennol yn dal yn briodol

- Cyfansoddiad a statws y Bwrdd Parôl:
    - archwilio a ddylai'r Bwrdd Parôl barhau i fod yn gorff cyhoeddus anadrannol neu ei wneud yn fwy amlwg annibynnol ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder
    - a allai dewisiadau eraill posibl, fel creu math newydd o dribiwnlys diogelwch y cyhoedd, gyflawni'r swyddogaeth parôl mewn ffordd fwy effeithlon a chosteffeithiol
    - ystyried yr angen am unrhyw fesurau ychwanegol i gryfhau pwerau'r Bwrdd Parôl i atgyfnerthu ei statws fel corff tebyg i lys

- Cynyddu dealltwriaeth a hyder y cyhoedd:
    - archwilio a allai'r Bwrdd a rhannau eraill o'r system gymryd camau ychwanegol i helpu i esbonio a hyrwyddo'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch parôl, sut mae'n gweithio a beth mae'r asesiad yn ei gynnwys
    - ffyrdd o gyfathrebu'n well nad cosb barhaus am droseddau yw penderfyniadau ynghylch parôl ac nad yw rhyddhau'n wobr am ymddygiad da yn y carchar
    - gwella'r negeseuon bod y system parôl yn diogelu'r cyhoedd drwy awdurdodi bod troseddwyr peryglus yn parhau i gael eu cadw'n gaeth ac mai dim ond lleiafrif y carcharorion sy'n cael eu hystyried ar gyfer parôl sy'n cael eu rhyddhau

- Bod yn agored a thryloywder:
    - datblygu ffordd i ddioddefwyr arsylwi ar wrandawiadau llafar yn ddiogel heb gyfyngu ar allu'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaeth a chael y dystiolaeth orau bosibl gan y carcharor a thystion proffesiynol
    - ystyried yr achos dros wrandawiadau cyhoeddus ac a fyddai hynny'n bosibl ac yn briodol mewn rhai achosion cyfyngedig

- archwilio ffyrdd i adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes i wella tryloywder a'r natur agored

# Atodiad B: Mathau o ddedfryd

Mae hyd penodol i ddedfrydau carchar penodol, ond nid oes gan ddedfrydau carchar 'amhenodol' hyd penodol. O ran dedfrydau amhenodol, ni osodir dyddiad rhyddhau i droseddwyr ac mae'n rhaid iddynt dreulio cyfnod sylfaenol yn y carchar (o'r enw 'tariff') cyn y bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried eu rhyddhau.

**Dedfrydau Penodol**
**Dedfrydau penodol safonol (SDS)** yw'r ddedfryd fwyaf cyffredin o garchar ac yn gyffredinol bydd troseddwyr sy'n bwrw SDS yn treulio'r hanner cyntaf o'u dedfryd yn y carchar, cyn cael eu rhyddhau'n awtomatig ar y pwynt hanner ffordd. Nid yw'r Bwrdd Parôl yn rhan o'r broses o ryddhau troseddwyr SDS ar y cyfan.

Mae **dedfrydau penodol estynedig (EDS)** ar gael ar gyfer troseddwyr sydd wedi cael euogfarn am droseddau treisgar, rhywiol neu derfysgaeth penodol ac y mae'r llys yn pennu eu bod yn "beryglus". Mae **dedfrydau i droseddwyr sy'n peri pryder penodol (SPOC)** ar gael ar gyfer troseddwyr sy'n cael euogfarn am droseddau terfysgaeth penodol a'r ddwy drosedd rywiol fwyaf difrifol yn erbyn plant. O dan EDS ac SOPC, mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried rhyddhau troseddwr rhwng y pwynt dau draean a diwedd y cyfnod yn y carchar. Os na chânt eu rhyddhau'n gynharach, maen nhw'n cael eu rhyddhau'n awtomatig ar ddiwedd eu cyfnod yn y carchar ac yn treulio cyfnod estynedig (EDS) neu gyfnod 12 mis ychwanegol (SOPC) ar drwydded.

**Dedfrydau Amhenodol**
Ym mhob achos bron, mae troseddwyr â **dedfryd oes** yn treulio cyfnod sylfaenol yn y carchar ('tariff' a bennir gan y llys) cyn y bydd y Bwrdd Parôl yn ystyried eu rhyddhau. Mae nifer o droseddwyr yn aros yn y carchar heibio eu tariff, ac mae'n bosibl na chaiff rhai eu rhyddhau byth. Os caiff troseddwr ei ryddhau bydd yn dal ar drwydded am weddill ei fywyd a gellir ei alw'n ôl i'r carchar ar unrhyw adeg. Mewn nifer cyfyngedig o achosion, bydd gorchymyn oes gyfan yn cael ei osod, lle na fydd y Bwrdd Parôl byth yn ystyried rhyddhau'r person. Mae tri math o ddedfryd oes ar gael i'r llys ar hyn o bryd:

- Rhaid rhoi **dedfryd oes orfodol** i unrhyw un sy'n cael euogfarn am lofruddio.
- Mae **dedfrydau oes yn ôl disgresiwn** yn cael eu rhoi ar gyfer ystod o droseddau sydd â chosb uchaf o garchar am oes (ee dynladdiad, treisio a lladrad).
- Mae **dedfryd oes am ail drosedd benodol** ar gael ar gyfer oedolion sy'n droseddwyr sydd wedi cael euogfarn am ail drosedd dreisgar, rywiol neu derfysgaeth benodol.

Cafodd y **ddedfryd Carcharu er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd (IPP)** ei chyflwyno yn 2005 fel dedfryd amhenodol wedi'i thargedu at droseddwyr difrifol nad oeddent yn haeddu dedfryd oes, ond credir eu bod yn peri risg barhaus i ddiogelwch y cyhoedd. O dan y

ddedfryd, rhoddwyd cyfnod sylfaenol i droseddwyr yr oedd yn rhaid ei fwrw'n llawn yn y carchar. Ar ddiwedd y cyfnod, gellir eu rhyddhau dim ond os yw'r Bwrdd Parôl yn fodlon ei bod yn ddiogel eu rhyddhau ar drwydded. Cafodd dedfrydau IPP eu diddymu yn 2012 ond nid yn ôl-weithredol, felly mae dal troseddwyr IPP yn y carchar ac y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl gytuno i'w rhyddhau (gan gynnwys y rhai sy'n aros i gael eu rhyddhau am y tro cyntaf a'r rhai sydd wedi cael eu galw'n ôl).

XXXXXXXXXXXXXX

XXX-X-XXXX-XXXX-X